www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1

RHIF 507
Rhagfyr
2022

# Fydd seren tîm Cymru yn disgleirio erbyn y Nadolig?





Mae hi'n amhosib peidio sylwi bod Cwpan y Byd yn cael ei chynnal a bod Cymru, am y tro cyntaf ers 1958, yn cymryd rhan. Pwy ŵyr pa mor bell fydd y tîm wedi gyrraedd erbyn i'r rhifyn hwn eich cyrraedd, ond un peth sy'n sicr, fe fyddwn fel Cymry yn cefnogi'r tîm drwy ganu nerth ein pennau.

Yma o Hyd gan Dafydd Iwan sydd wedi ei dewis fel 'anthem' swyddogol tîm Cymru. Meddai Dafydd Iwan, "Mi wnes i sgwennu'r gân i drio dod a pobol at ei gilydd, cynnig gobaith a chodi calonnau. Dyma ni, ddegawdau'n ddiweddarach, nes i rioed freuddwydio y byddai'r gân yn newid fy mywyd i ac yn mynd a fi ar siwrne ryfeddol efo tîm pêl-droed Cymru."

Mae cân arall wedi ei rhyddhau ym Mro'r Eco i ddathlu Cwpan y Byd hefyd, yn Llanberis y tro hwn! Cyhoeddodd Jono Davies a Glyn 'Pwd' Hughes fersiwn newydd o 'Safwn yn y Bwlch' gan Hogia'r Wyddfa i ddathlu a chefnogi'r tîm cenedlaethol.

Glyn gafodd y syniad yn wreiddiol, ac yntau yn nai i Elwyn, Hogia'r Wyddfa, yna fe aeth Jono ati i addasu geiriau'r gân wreiddiol.

Trowch i dudalen 33 i ddarllen hanes caneuon pêl-droed Cymru yn llawn.

## Elin Enfys

**Chwilio am Elin Enfys**

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**

## Yn y rhifyn hwn:


- Enilydd Prentis y Flwyddyn - tud 13
- Swyddi newydd yn Siemens - tud 4
- Côr Meibion Dyffryn Peris - tud 15
- Hogiau Robert Page - tud 36




36

www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa

**SWYDDOGION A GOHEBWYR**

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys –marged_3@hotmail.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunydd**
Elgan Griffiths – post@elgangriffiths.com

**GOHEBWYR PENTREFI**

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
ecopenisarwaun@hotmail.co.uk

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

# Panel Golygyddol

Dymunwn Nadolig dedwydd a llawen i bob un o ddarllenwyr yr Eco, a dymuniadau gorau am flwyddyn newydd iach a hapus. Diolch yn fawr am gyfrannu straeon a newyddion i'r Eco drwy'r flwyddyn, a gobeithio eich bod yn cael rhywfaint o bleser o bori drwy'r cloriau yma bob mis! Ymlaen at flwyddyn lwyddiannus arall yn 2023!

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658

## EGLWYS Y PLWYF LLANDDEINIOLEN

Annwyl ddarllenwyr yr Eco,
Mae'r eglwys hynafol yma wedi bod ar gau ers dechrau'r Pandemig. Nid oes gwasanaethau wedi cael eu cynnal ynddi ar wahân i ambell briodas, bedydd neu angladd.

Os bydd yn rhaid cau'r Eglwys yn derfynol, bydd yr adeilad yn dirywio oherwydd diffyg cefnogaeth ariannol ac ni fydd modd cynnal unrhyw fath o wasanaeth ynddi wedyn.

Mae cynnig calonogol wedi ei wneud i gynnal Gwasanaeth Crefyddol unwaith y mis a hynny yn y prynhawn. Mae hyn yn dibynnu os cawn ddigon o enwau i mewn. Pe baech yn dymuno uno gyda ni yn fisol ar y Sul, gadewch i mi wybod drwy e-bost, llythyr neu alwad ffôn. Bydd pob arwydd o gefnogaeth yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Yn ddiffuant
Ceri Williams

Gallwch gysylltu trwy e-bost **ceridwenwilliams@btinternet.com** drwy ffonio – 01286 673 382
neu ysgrifennu ataf yn 23 Cae Corn Hir, Caernarfon LL55 2LQ



## Rhoddion

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

**£1,500** Capel Bozra, Penisarwaun
**£20** Er caf am Gwenda May Jones, 11 Bryn Tirion, Penisarwaun gan y teulu
**£10** Er cof am Dafydd Griffith, Llechwedd, Waunfawr gan ei wraig Ellen a'r teulu.

# Ymddeoliad

Dymunir ymddeoliad hapus i Siân Harris, Tyddyn Andro Uchaf, Bethel. Wedi blynyddoedd yn addysgu am gyfnodau yn Ysgolion Dyffryn Ogwen, Syr Hugh Owen a Tryfan, ac yna am 19 mlynedd hapus yn Ysgol Brynrefail, rhoddodd Siân y gorau iddi ddiwedd y tymor diwethaf. Bydd hi'n siŵr o barhau i fod yn brysur, ond bellach prysur fydd hi gyda'i diddordebau – o grochenwaith i garafanio – a digonedd o deithio!



## Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Ionawr | 2 Rhagfyr (sylwer ei fod yn gynt) | 16 Rhagfyr (sylwer ei fod yn gynt) |
| Chwefror | 13 Ionawr | 27 Ionawr |
| Mawrth | 10 Chwefror | 24 Chwefror |

# Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Eco'r Wyddfa

### Tachwedd 10fed, 2022

Cafwyd cyfarfod buddiol er gwaethaf y ffaith mai nifer fach iawn ddaeth ynghyd i'r Sefydliad Coffa.

Nodwyd bod sefyllfa ariannol yr Eco yn gadarn. Mae gwerthiant misol y papur tua mil o gopïau sydd yn dderbyniol, er bod y gwerthiant mewn ambell i bentref yn sylweddol is na'r hyn a ddisgwylir o ystyried maint y pentref. Mae'r incwm o hysbysebion yn iach ar hyn o bryd, diolch i gefnogaeth yr hysbysebwyr ffyddlon sydd yn cefnogi'r papur. Cytunwyd i wneud ymdrech i ddenu mwy o hysbysebion. Nodwyd hefyd bod nifer y rhoddion yn galonogol iawn, diolch i haelioni ein darllenwyr a chyfeillion yr Eco. Rhaid cydnabod hefyd y gefnogaeth hael a geir trwy grantiau Llywodraeth Cymru a chynghorau cymuned Llanberis, Llanddeiniolen, Llanrug a'r Waunfawr.

Diolchodd y Cadeirydd i aelodau'r Pwyllgor Gwaith am eu cefnogaeth a'u gwasanaeth hir dymor, mor bell yn ôl â'r rhifyn cyntaf o'r Eco yn 1976 yn achos rhai o'r aelodau. Nodwyd bod holl aelodau'r Pwyllgor yn eu 70au, gydag un bron iawn yn 80! Gwnaed apêl am 'waed newydd' i gamu i'r bwlch gan fod rhai o'r aelodau presennol wedi nodi eu dymuniad i ildio eu cyfrifoldebau.

Mynegodd y Cadeirydd werthfawrogiad diffuant y Pwyllgor Gwaith i aelodau'r Panel Golygyddol am eu gwaith arbennig o gynhyrchu papur o safon mor uchel o fis i fis. Gwnaeth apêl hefyd am ragor o wirfoddolwyr i ymuno â'r Panel Golygyddol i ysgafnhau ychydig ar eu pwysau gwaith. Mae croeso i unrhyw un sydd yn awyddus i wybod mwy am natur gwaith y Pwyllgor Gwaith neu'r Panel Golygyddol i gysylltu â'r Cadeirydd (e-bost: tonyelliott17@yahoo.com neu ffôn: 07798552238).

Diolchwyd i Elgan Griffiths, ein dylunydd galluog, ac i'n cyfeillion yn Y Lolfa am eu cydweithrediad parod. Clywir canmoliaeth uchel o sawl cyfeiriad am ddiwyg deniadol y papur.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at rôl allweddol y gohebwyr pentref fel cyswllt pwysig rhwng ein darllenwyr a'r papur. Nododd yn arbennig y ffordd y mae sawl un o'r gohebwyr yn mynd yr ail filltir i chwilio am newyddion a straeon o bob math o fewn eu cymunedau - arwydd arbennig o arfer dda! Diolchodd i'n dosbarthwyr ffyddlon, a hefyd i'r holl siopau sydd yn gwerthu'r Eco ar ein rhan.

Cafwyd cyfle ar ddiwedd y cyfarfod i gadarnhau yr holl swyddogion ac aelodau'r Panel Golygyddol yn eu swyddi.

## Yn ystod y mis a aeth heibio...

- **Llifogydd**. Unwaith yn rhagor, glawogydd trwm ar dir oedd eisoes yn ddirlawn, yn achosi llifogydd difrifol yn ne-ddwyrain Awstralia. Mil o gartrefi yn nhalaith Victoria wedi eu difetha. A phethau'n llawer gwaeth yn Pacistan, gyda miloedd o bobl yn ddi-gartref, a rhai cannoedd wedi colli eu bywydau.
- **Efeilliaid**. Mae bron pob teulu yn ninas Igbom Oru yn Nigeria gyda gefeilliaid. Erbyn hyn mae'r ddinas yn trefnu 'Gŵyl Efeilliaid', ac yr oedd mil o barau yn bresennol y mis diwethaf. Does dim eglurhad meddygol na gwyddonol hyd yn hyn pam fod gefeilliaid mor gyffredin yma.
- **Marmaled**. Y gwerthiant wedi cynyddu'n sylweddol ers marwolaeth y frenhines, o bosib oherwydd iddi ddathlu ei Jiwbili yn rhannu brechdan farmaled gyda Paddington Bear.
- **Arian parod**. Peiriant yn Dundee yn chwydu allan ddwywaith mwy o arian parod na'r swm a ofynnwyd amdano gan bob cwsmer. Tyrfa fawr yn casglu i fanteisio ar beiriant mor hael, a bu'n rhaid galw'r heddlu i reoli'r dorf – a chaewyd y peiriant.
- **Mynwent**. Darganfod mynwent o'r drydedd ganrif ar ddeg o dan siop yn Hwlffordd. Tybir erbyn hyn mai dyma safle priordy cynnar iawn.
- **Tiwna**. Credir fod y tiwna mwyaf erioed wedi ei ddal oddi ar arfordir Cymru. Roedd yn 5 troedfedd o hyd ac yn pwyso 900 pwys.
- **Bentley**. Ffermwr o Swydd Dorset wedi storio hen gar mewn sied ers 50 mlynedd oherwydd iddo fethu ei brawf MOT. Fe'i rhoddwyd mewn ocsiwn (yn dal heb MOT) ac fe'i gwerthwyd am £66,000.
- **Nofio**. Merch dair ar hugain oed o Swydd Efrog yw'r gyntaf i nofio hyd arfordir Prydain o Land's End i John O'Groats, sef 900 milltir mewn 110 o ddyddiau.
- **Sant Nicholas**. Bedd y sant a gysylltir â Siôn Corn wedi ei ddarganfod 1,600 o flynyddoedd wedi ei farw. Fe'i claddwyd yn Ne Twrci, ond boddwyd yr eglwys pan gododd lefel y môr, a chodwyd eglwys newydd uwch ei phen. Mae archeolegwyr bellach wedi gallu cloddio o dan yr eglwys honno, ac o dan lefel y môr, a darganfod y bedd.
- **Cwsg**. Mae pobl sy'n cysgu 5 awr neu lai bob nos yn fwy tebygol o ddioddef salwch wrth heneiddio. Coleg Prifysgol Llundain a ddaeth i'r canlyniad ar ôl creu arolwg o 8,000 o oedolion dros gyfnod o 25 mlynedd. Yn ôl eu canlyniadau, dylai pawb anelu am rhwng saith ac wyth awr o gwsg bob nos.
- **Gïach**. Aderyn o'r enw 'bar-tailed godwit' (oes enw Cymraeg iddo?) wedi torri record hedfan heb lanio. Roedd yr aderyn ifanc pum mis oed wedi hedfan o Alaska yng ngogledd America yr holl ffordd i ynys Tasmania, de Awstralia mewn 11 diwrnod; taith o 8,500 milltir.
- **Llyffantod**. Gwyddonwyr yn Ecuador, de America yn darganfod 6 math gwahanol o lyffantod yng nghoedwigoedd dwyreiniol y wlad.
- **Cyrn**. Naturiaethwyr yn honni fod cyrn rhinoceros wedi byrhau 10% dros y ganrif ddiwethaf. Y gred yw bod hela anghyfreithlon wedi lladd yr anifeiliaid gyda'r cyrn mwyaf, gan adael y rhai gyda chyrn byr yn unig i genhedlu. Y pryder bellach yw y bydd mwy o rhinoceros yn cael eu hela er mwyn cael yr un pwysau o gyrn.

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN NEWYDD DDA
Oddiwrth Dylan a'r staff
SIOP CHIPS TEGFAN
Y SGWÂR LLANRUG
(01286) 671211

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i chwi oll oddiwrth Nia yn siop harddwch
HAIRLINES
Stryd Fawr, Llanberis
870328

NADOLIG LLAWEN
A Blwyddyn Newydd DDA
I holl ddarllenwyr ECO'R WYDDFA
oddiwrth PAWB yn
GAREJ ARFON
DEINIOLEN
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn
Ffôn - (01286) 872304

**Capel**
Ar y 4ydd o Ragfyr, cynhelir Gwasanaeth i gychwyn am 2:00PM. Ar y 18fed o Ragfyr, bydd Oedfa'r Nadolig y gymuned yn cael ei chynnal, i gychwyn am 5:30PM.

**Croeso**
Croeso mawr i Huw, Elin, Caleb a Mabon (6 Erw Wen) ac i Bleddyn Williams (Hafan) i'r pentref.

**Gweinidog newydd**
Ym mis Hydref, yn dilyn pleidlais gan fwyafrif angenrheidiol o Aelodau capeli'r Ofalaeth newydd, sef Aelodau Eglwysi Caeathro, Cysegr (Bethel), Jerusalem (Bethesda) a'r Rhos (Llanrug), gofynnwyd i Nerys Ann Griffiths fod yn Weinidog yr Ofalaeth yn dilyn ymddeoliad y Parchedig Marcus Wyn Robinson. Rydym yn falch o gadarnhau y bu iddi dderbyn y cynnig.

Yn ystod cyfarfod o Gymdeithasfa'r Gogledd o Eglwys Bresbyteraidd Cymru yng Nghapel y Groes, Wrecsam ar yr 8fed o Dachwedd, ordeiniwyd Nerys Ann Griffiths fel Gweinidog ac, o ganlyniad, doedd dim rhwystr iddi gychwyn yn ei swydd newydd. Mae hi wedi pregethu mewn sawl Oedfa Sul yng Nghapel Caeathro eisoes, ac felly ni fydd hi'n wyneb diarth i Aelodau a chyfeillion yr Eglwys.

Bydd Gweinidogaeth y Parchedig Nerys Ann Griffiths yn yr Ofalaeth yn cychwyn ar y 1af o Ionawr 2023.

**Clwb Garddio Caeathro**
Cynhaliwyd cyfarfod o'r clwb garddio brynhawn dydd Mawrth yr 8fed o Dachwedd yng Nghanolfan Capel Caeathro. Estynnodd Grace Meirion Jones, Cadeirydd, groeso i 3 aelod newydd.

Cyflwynodd y wraig wadd sef Vicki Hinde o Feddgelert. Yn 2012, cychwynnodd Vicki wneud sebon ac erbyn rŵan mae wedi sefydlu busnes o'r enw 'The Soap Mine'.

Dangosodd Vicki i ni sut mae'n gwneud sebon lafant. Atebodd nifer fawr iawn o gwestiynau gan yr aelodau wrth ddangos y broses mae'n dilyn.

Mae'r sebonau yn fegan ac yn garedig iawn i'r croen. Maent yn cael eu gwerthu mewn amryw o siopau gan gynnwys 'Slate and Things' yng Nghaernarfon. Gellir hefyd eu prynu trwy ei gwefan www.thesoapmine.co.uk.

Gyda'r Nadolig ar y gorwel, manteisiodd llawer o'r aelodau ar y cyfle i brynu rhai o'r sebonau fel anrhegion.

Wrth ddiolch i Vicki, dywedodd y Cadeirydd fod y nifer o gwestiynau a ofynnwyd yn uwch na'r arferol ac yn brawf fod yr aelodau wedi mwynhau ei sgwrs.

Ar y 13eg o Ragfyr, bydd Jill Evans yn dod atom i roi arddangosiad blodau ar gyfer y Nadolig.

**Cwpan y Byd**
Mae'r 64 mlynedd o aros ar ben a ninnau ar drothwy Cwpan Y Byd FIFA 2022, a braf fydd gweld un o ffyddloniaid y pentref yn arwain y gân yn Qatar bell! Pob lwc i'r hogia' ar y cae a phob dymuniad da i Dafydd a'r holl gefnogwyr eraill fydd yn teithio i'r Bencampwriaeth – ymlaen Cymru – 'da ni Yma o Hyd!

**Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda**
Cofiwch gadw llygad am y goeden Nadolig hyfryd fydd yn cael ei gosod gan griw'r Gymdeithas Cae Chwarae eto flwyddyn yma – diolch iddynt am eu hymdrechion fel yr arfer. Hoffem ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion y pentref a'r cyffiniau.




**Marathon Eryri**
Diolch i'r criw hwyliog yma sef Pepi, Eirian, Gwenno, Iona a Lowri am helpu i weini lluniaeth i redwyr Marathon Eryri 2022 yn Llanberis ar ddydd Sadwrn y 29ain o Hydref. Rydym fel Cymdeithas yn gwerthfawrogi'r cymorth gan drigolion y pentref a bydd yr arian a gasglwyd yn cael ei gyfrannu tuag at gostau torri gwair y Cae Chwarae a Sgwâr y Pentref.




## ASau Plaid Arfon yn croesawu 100 o swyddi newydd i'r etholaeth

Mae Siân Gwenllian AS a Hywel Williams AS wedi croesawu'r newyddion y bydd cwmni gofal iechyd Siemens Healthineers yn creu bron i 100 o swyddi newydd o safon yn Llanberis.

Bydd Siemens, gyda chymorth Llywodraeth Cymru, yn buddsoddi mewn canolfan ragoriaeth newydd ar gyfer gofal iechyd a fydd yn diogelu'r 400 o swyddi presennol ac yn creu bron i gant o swyddi newydd o ansawdd uchel. Bydd Siemens Llanberis yn dod yn ganolfan weithgynhyrchu fyd-eang ar gyfer technoleg dadansoddi gwaed y cwmni a chaiff y cynhyrchion a gynhyrchir yno eu defnyddio ar draws y byd i wneud diagnosis o gyflyrau meddygol.

Dywedodd Siân Gwenllian AS:

'Mae hyn yn newyddion gwych i'r ardal gyfan, ac i'w groesawu'n fawr yng nghanol yr holl ddiflastod economaidd presennol. Mae gan Lanberis hanes hir o arloesedd gan gynnwys yn y diwydiant llechi yn ogystal â phŵer trydan dŵr. Diolch yn fawr i'r Arglwydd Dafydd Wigley, Osborn Jones ac eraill a fu'n rhan o'r weledigaeth hon a ddaeth â ffatri Siemens i Lanberis dros ddeng mlynedd ar hugain yn ôl.

Mae'n wych gwybod bod cynhyrchion a gynhyrchir ar safle Llanberis yn cael eu defnyddio ar draws y byd i helpu i wneud diagnosis o gyflyrau meddygol. Mae'r gweithlu lleol yn gwbl falch o chwarae rhan enfawr wrth helpu eraill ym mhob rhan o'r byd trwy eu gwaith beunyddiol. Llongyfarchiadau gwresog iddynt, i'r cwmni, i Lywodraeth Cymru ac i bawb fu'n rhan o'r datblygiad diweddaraf cyffrous hwn sy'n golygu bod safle Llanberis yn ddiogel am flynyddoedd lawer i ddod.'

Ychwanegodd Hywel Williams AS:

'Mae'r cyhoeddiad hwn yn gam sylweddol ymlaen i Siemens ac yn nodi buddsoddiad sylweddol arall gan y cwmni yn yr economi leol, gan ddod â thua chant o swyddi medrus i'r ardal - buddsoddi a chreu cyflogaeth ar adeg pan mae ein heconomi yn mynnu cefnogaeth.

Llongyfarchiadau i Siemens ar eu llwyddiant wrth wireddu eu cynlluniau. Mae'n glod i ansawdd eu gwaith fod galw mawr am eu cynnyrch.'



# Ysgol Penisarwaun

**Cynnal Priodas Ffug yn yr eglwys**
Yn ystod y mis diwethaf trefnwyd priodas Ffug yn yr eglwys fel rhan o waith y Cyfnod Sylfaen. Thema'r dosbarth y tymor hwn yw dathliadau, a bu'r plant yn dysgu am ddefodau priodas fel rhan o'r gwaith. Roedd yr holl ddisgyblion yn gynhyrfus iawn i gael mynychu'r briodas a chafwyd diwrnod arbennig iawn a phawb wedi mwynhau'r profiad. Roedd pawb yn smart iawn yn eu dillad gorau a chafodd pawb ddychwelyd i'r ysgol i gael teisen briodas a dawns ar ôl y gwasanaeth. Diolch i Mr Selwyn Griffiths am weinyddu'r gwasanaeth. Bydd y disgyblion yn cofio'r profiadau hyn am byth.







**Sialens Ddarllen yr Haf**
Llongyfarchiadau i Jac a Caio am lwyddo i gwblhau sialens ddarllen yr haf eleni. Teclynwyr oedd y thema eleni. Cyflwynwyd medal i'r ddau am eu hymdrech arbennig. Da iawn chi hogiau!






**Jambori'r Urdd**
Cafodd disgyblion yr ysgol gyfle i gymryd rhan yn Jambori yr Urdd ar y 10fed o Dachwedd. Mwynhaodd y disgyblion ganu caneuon y JAMBORI yn enwedig canu cân Dafydd Iwan - Yma o Hyd! Pob lwc Cymru yng Nghwpan y Byd. Bydd pawb yn yr ysgol yn cefnogi ein tîm.

**Sioe Mewn Cymeriad**
Mwynhaodd yr adran Iau berfformiad Osian Llewelyn Edwards mewn sioe un dyn dan y teitl Llythyr at Syr Ifan. Sioe ryngweithiol oedd hon yn dysgu'r disgyblion am sefydlu'r Urdd ganrif yn ôl a chafodd y disgyblion bleser mawr o gyfrannu i rannau o'r sioe. Diolch am y profiad ac am ein dysgu am ein hanes a'n hetifeddiaeth mewn modd diddorol ac ysgogol.

ECO'r Wyddfa
**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**

# PENISARWAUN

**Pwyllgor Neuadd Gymuned**
Dymunir diolch i nifer dda o gefnogwyr sydd wedi ymaelodi â'r gweithgaredd Clwb 100, er i ni orfod codi tâl y Clwb o 50c i £1. Mae modd talu gydag arian parod neu drwy Archeb Banc. Mae croeso mawr i aelodau newydd i ymuno er budd y gost o dalu treth i'r Cyngor am lanhau a gwresogi'r Neuadd Gymuned.
Enillwyr Clwb Cant Hydref oedd:
1af Phyllis Elis
2ail Ann Patterson

**Marathon Eryri**
A hithau'n 40 mlynedd oed eleni, cynhaliwyd Marathon Eryri, ar Sadwrn gwlyb ar 29ain Hydref. Dymunir diolch i'r ffyddloniaid a ddaeth i helpu i groesawu miloedd o redwyr dewr ym Mhen y Pas o 9 y bore tan 12.30 yr hwyr, gan chwifio baneri'r Ddraig Goch ac Owain Glyndŵr, canu clychau a rhannu llymaid o ddŵr. Dyma weithgaredd sy'n werthfawr i ni tuag at ein nod arian blynyddol.

**Dathlu'r Nadolig**
Gobeithiwn gynnal pnawn i ddathlu'r Nadolig, bnawn Iau, 15fed Rhagfyr am 2 o'r gloch y prynhawn yn y Neuadd Gymuned, gyda chyfraniadau gan aelodau'r Pwyllgor, canu'r hen garolau a chyfraniadau gan blant yr Ysgol. Bydd paned a mins pei ar gael i bawb. Tynnir Clwb Cant Rhagfyr yn ystod y prynhawn.
Anfonir ein cofion eto'r mis hwn at Leslie ac rydym yn falch o adael i chi wybod bod y Clwb Cant yn cael ei dynnu'n fisol erbyn hyn yn dilyn blynyddoedd o wasanaeth diflino gennych chi.

**Gwellhad**
Dymunir adferiad iechyd buan i'r rhai ohonoch sy'n sâl yn y pentref.

**Cydymdeimlad**
Danfonwn ein cydymdeimlad i Eryl Roberts, Bryn Rhedyn, a'r teulu. Fe gollodd Eryl ei brawd Ifor ddechrau Tachwedd. Roedd ei brawd yn byw yn ardal Clynnog.

Yr un cydymdeimlad i Alun Ifans, Bigil, a'r teulu. Collodd Alun ei dad Dafydd – neu i bawb Dafydd Twins – ddechrau'r mis. Roedd Dafydd yn un o hoelion wyth Band Deiniolen ers sawl blwyddyn.

**Oedfaon Rhagfyr**
**Saron**: 4/12 Cyfarfod Gweddi 11/12 Nadolig y Plant 18/12 Gwasanaeth Carolau
**Cysegr**: 4/12 Parch Glenys Jones 11/12 Undebol yng Nghapel y Rhos 18/12 Gwasanaeth Nadolig 25/12 Oedfa Gymun Bore Nadolig (10am) Croeso i bawb ymuno.
**Bethel**: 11/12 Parch. Emyr Rowlands 18/11 Donald Pritchard 25/11 Croeso i ymuno yn Oedfa Gymun Bore'r Nadolig yn y Cysegr (10am)

**Eisteddfod Genedlaethol**
Wedi llwyddiant yr Ŵyl draw yn Nhregaron eleni bydd cryn bwysau ar yr eisteddfod ym Moduan, Llŷn, yn 2023. Erbyn hyn mae'n hysbys fod dalgylch yr Eisteddfod yn ymestyn o Lŷn ac Eifionydd draw i lannau'r Fenai. Yn wahanol i flynyddoedd cynt bydd targedau arianol yn seiliedig ar ardaloedd y Cynghorau Cymuned. Yma ym mhlwyf Llanddeiniolen mae pentrefi Rhiwlas, Bethel, Seion, Brynrefail, Penisarwaun, Deiniolen a Dinorwig. Yr awgrym yw bod




pob pentref/cylch yn cynnal gweithgareddau a bod unrhyw elw yn cael ei drosglwyddo i botyn y plwyf. Bydd y Cyngor hefyd yn gwneud cyfraniad. Mae criw eisoes wedi ymgasglu ym Methel/Seion i geisio trefnu ambell i weithgaredd. Gall unigolion hefyd gyfrannu. Os dyna eich dymuniad gellir cysylltu â Sian Harris i gofnodi eich rhodd.

Y gweithgaredd gyntaf ym Methel fydd diwrnod Bore Coffi/ Râs Siôn Corn ar ddydd Sadwrn, Rhagfyr 17ed. Bydd y bore coffi yn cychwyn am 10.30 yn y Neuadd Goffa. Buasai'r trefnwyr yn falch o dderbyn cyfraniadau ar gyfer y stondin gwerthu teisennau, neu wobrau i'r raffl. Bydd Râs Siôn Corn (cerdded neu redeg) o gwmpas y pentref yn dechrau am 12 o'r gloch. Gofynnir am gyfraniad o £3 i'r sawl sydd am gystadlu. Dewch yn llu.

Mae bwriad hefyd cyn y Nadolig i gynnal hen draddodiad gwasanaeth y Plygain yn Eglwys Llanddinorwig, Deiniolen. Gwyliwch allan am wybodaeth am unrhyw weithgaredd arall. Braf hefyd fuasai derbyn gwahanol syniadau i chwyddo'r coffrau.

**Clwb Bro Bethel**
Cyfarfu aelodau o'r clwb ar y 1af o Dachwedd ac roedd pawb yn awyddus iawn i ail afael, ac felly penderfynwyd cyfarfod ar bnawn dydd Mawrth cyntaf o'r mis am 1.30 y prynhawn yn festri Capel Cysegr.

Bydd te Dolig y mis nesaf, sef 6ed Rhagfyr a bydd cyfle i ymaelodi am 12.00 cyn y te. £5 fydd tâl aelodaeth a bydd y clwb ym morol am y danteithion, ac i ddilyn fe gawn wasanaeth Nadolig byr.

Gofynnwyd i Mrs Ivy Wright i osod y dorch ar ran y clwb yn ystod gwasanaeth Sul y Cofio.

Codwyd Mary Wyn Jones yn Llywydd ond byddwn angen Ysgrifennydd a Thrysorydd ar gyfer gweddill y flwyddyn, a hyderwn y cawn gefnogaeth deilwng.

Bydd Anne Elis a Mary W. Jones yn gyfrifol am y trip diwedd tymor.

**Merched y Wawr**
Daeth yr aelodau ynghyd yn y neuadd i greu addurniadau hardd gyda blodau. Diolch i un o'n haelodau Cécile Roberts am ddod atom heno a'n cynorthwyo ac i roi arweiniad i ni. Roedd yna awyrgylch hyfryd yn y neuadd wrth i bawb ymlacio a sgwrsio wrth roi eu campweithiau at ei gilydd. Diolchwyd iddi gan Mary Wyn Jones ac Eleri Warrington a enillodd y raffl. Diolch i Falmai, Mary Evans a Bet am baratoi'r baned. Hwyrach nad ydi pawb yn ymwybodol ond mae gan y gangen wefan ei hun ac fe gafodd ein gwefan 1472 o ymweliadau ym mis Hydref a 307 o ymweliadau ar ddechrau mis Tachwedd. Mae'n amlwg fod yna ddiddordeb hyn yr ydym yn ei wneud- ac y mae croeso i unrhyw un ymweld unrhyw adeg ar http://mywbethel.org. Diolch i Jen a Delwedd am ei gynnal.

Rhannwyd dymuniadau da at un a fu'n aelod yn y gorffennol sef Gwyneth a'i gŵr Ieuan ar ddathlu eu priodas ddiemwnt yn ddiweddar.

Anfonwyd cydymdeimlad at Eryl Roberts sydd wedi colli ei brawd Ifor oedd yn byw yng Nghlynnog.

Byddwn yn dathlu'r Nadolig efo Swper yn Y Newborough ym Montnewydd ar y 14eg Rhagfyr. Bydd y Bws yn gadael o'r Cysegr am 7 o'r gloch ac yn gweithio ei ffordd i lawr y pentre.

**Eisteddfod Bethel**
Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus eto eleni gyda nifer gref o gystadlwyr yn enwedig yn yr oedrannau cynradd yn y prynhawn. Braf cofnodi fod





## Cyfraniad

Yn ystod yr haf roedd Iwan Morris, Treflys, wedi cystadlu mewn Râs 7k. Diolch i noddwyr hael llwyddodd i godi celc o £300. Penderfyniad Iwan yw cyfrannu'r arian i goffrau Clwb Pêl-droed Ieuenctid Bethel. Mae'r clwb yn gwerthfawrogi'n fawr y cyfraniad yma. Yn y llun gwelir Iwan yn cyflwyno'r siec i Andrew ( Cadeirydd), Karl (hyfforddwr) ac aelodau o'r clwb.



cynulleidfa dda yn y Neuadd am y ddwy sesiwn a chawsant eu diddori yn bendant. Diolch i'r holl bwyllgor paratoi, yr arweinyddion, noddwyr a beirniad am eu cyfraniadau cyn ac ar y diwrnod i greu diwrnod i 'w gofio i'r bobl ifanc. Oherwydd cyfyngu ar ofod fe restrir yr ennillwyr yn unig yn y gwahanol gystadlaethau. Diolch arbennig i Brifathro a Staff yr ysgol ac unigolion a roddodd amser yn annog a hyfforddi'r plant.

**Canlyniadau Celf**
**Creadigol 2D**: Meithrin: Tomos a Haf Derbyn: Charli Bl.1 : Leia a Cadi Bl.2 : Hazel ac Osian Bl.3 : Efa a Bl.2/iau Lois Huw Bl.4 : Ffion Bl.5 : Eli a Lydia Bl.6 : Leo Bl.7-9 : Elen
**Collage**: Bl.2/iau : Lois Bl.3/4 : Math Gwyn a Math Williams Bl.5/6 : Nel Bl.7-9 : Lleucu
**Gwaith Creadigol 3D**: Bl.2/iau : Lois Bl.3/4 : Greta a Math Williams Bl.5/6 : Efa Bl.7-9: Leia
**Ffotograffiaeth**: Bl.2/iau Cara Bl.3/4 Math Gwyn Bl.5/6 Lydia Bl.7-9 Leia Bl.10-13 Gwenllian
**Graffeg Cyfrifiadurol**: Bl.3/4 Greta
**Logo ( agored)** Elen
**Cerdyn Cyfarch**: Bl.2/iau Lois Bl.3/4 Math Gwyn Bl.5/6 Efa Bl.7-9 Elen
**Addurno Bisgedi**: Bl.2/iau Caleb a Lois Bl.3/4 Math Gwyn Bl.5/6 Efa Bl.7-9 Lois
**Canlyniadau Llên**:
Meithrin Alys Derbyn Charli Bl.1 GutoBl.2 Arthur Bl.3 Betsan Bl.4 Ifan Bl.5 Lydia Bl.6 Kyla Bl.7-9 Llyr Bl.10 – 13 Mari
**Cadair yr Eisteddfod**:
**Cynradd**: Kyla Banholzer
**Uwchradd**: Mari Williams
**Limrig**: Gwenno Llwyd

**Canlyniadau Llefaru**
**Unigol** :Meithrin Tomos Derbyn Caleb Bl.1 Efa Bl.2 Arthur Bl.3/4 Llew Bl.5/6 Rhiannon
**Partion Llefaru** : Parti Derbyn – Bl.3 Parti'r Caribi Bl. 4/5/6 Parti Nos Da Bl.7-9 Genod Brynrefs Stori a Sain Sara a Leah.
**Canlyniadau Cerdd (Unawdau)**
Meithrin Alis Derbyn Elin Bl.1 Loti Bl.2 Arthur Bl.3/4 Betsan Bl.5/6 Rhiannon Bl.7-9 Sara Lois Bl.10-13 Beca
**Alaw Werin**: Bl.1-6 Lydia
**Unawd Cerdd Dant**: Bl.1-6 Lydia
**Unawd Piano**: Bl.1-6 Efa
**Offerynnol**: Bl.1-6 Efa
**Parti**: Bl. Derbyn-Bl.3 Parti'r Caribi Bl.4-6 Parti Nos Da
**Parti Cerdd Dant** Bl.1-6 Criw yr Urdd **Deuawd (Agored)**: Tomos a Beca **Unawd Piano**: Bl.7-9 Owain Huw **Unawd o Sioe Gerdd**: Beca
**Offerynol** Bl.7-9 Llyr



## Sul y Cofio

Diolch i Dylan Parry ac aelodau Bl. 6 o Ysgol Bethel am eu cyfraniad graenus eto eleni i goffau colledigion o'r ardal yn y ddwy Ryfel Byd. Fel arfer gosodwyd y croesau bychain o goffhâd ar y gofeb yn llidiart yr ysgol. Yna, fe osodwyd torchau ar ran mudiadau'r pentref, ac ambell unigolyn â chysylltiad teuluol â'r colledigion.

**Meimio i record Gymraeg**: Criw Ni yw y Wal **Cân Gyfoes**: Tomos

**Ordeinio Gweinidog**
Roedd nos Fawrth, 8fed Tachwedd yn noson i'w chroesawu i ni yn y Cysegr, ac yn wir i'r ardal wrth i ni gynnal oedfa ordeinio ein Gweinidog newydd. Cafwyd Gwasanaeth Ordeinio gynnes i'r Parch. Nerys Griffith draw yng Nghapel y Groes, Wrecsam. O ddechrau'r flwyddyn bydd Nerys yn bugeilio pedair eglwys yn ei Gofalaeth, sef Y Cysegr, Capel y Rhos, Llanrug, Capel Caeathro a Chapel Jeriwsalem, Bethesda. Yn ystod ei hyfforddiant bu Nerys am ddwy flynedd yn gweithio gyda'r aelodau hŷn draw ym Methesda, a chafwyd sawl tystiolaeth am ei arddull agos at, gynnes, gofalgar. Rwy'n siwr bydd am efelychu hyn ym Methel a'r eglwysi eraill. Un o Fôn yw Nerys, ond wedi byw yng Nghaernarfon ers sawl blwyddyn. Yn briod ac Alwyn, mae ganddynt ddwy ferch. Mae'n gredwr cryf mewn undod a lledaenu'r neges tu hwnt i furiau ffurfiol y capel. Fel y dywedodd gwêl ei chyfrifoldeb fel un eglwys mewn pedwar lleoliad. Bydd trefniadau mewn llaw rwan i drefnu Oedfa Sefydlu Nerys yn weinidog ar yr Ofalaeth. Yn y llun gwelir Nerys gyda'I theulu, ei thad y Parch. Huw Pritchard, Parch. Marcus Robinson, a Dewi, Myfanwy a Richard tri o flaenoriaid Y Cysegr.







## Adran yr Urdd Bethel

Gwenno ac Einir oedd yng ngofal noson mis Tachwedd ac mi wnaeth pawb fwynhau'r gweithgareddau Celf a Chrefft yn fawr. Diolch o galon i'r ddwy yn ogystal â Gwen, Sioned a Meleri am eu help.

Cafodd pawb amser da yn paratoi ar gyfer Cwpan y Byd a chreu crefftau a chardiau Nadolig.

Erbyn hyn, mae Ceri ap Tegwyn, mam Ifan, wedi cytuno i fod yn drysorydd i'r gangen, diolch o galon iddi am ymgymryd â'r gwaith.





**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf at deulu'r diweddar John B. Jones, Ceris, Deiniolen. Roedd John yn aelod ffyddlon yn Ebeneser ac yn gyn glerc y cyngor cymuned am flynyddoedd, cofion at Meri, Dyfan a'r teulu i gyd yn eu colled.

Daeth mwy o newyddion trist i'r ardal pan glywyd am farwolaeth David Wyn Evans, neu Dafydd Twins. Roedd yn gymeriad a hanner, yn un am dynnu coes ag wedi tynnu miloedd o beintiau tra'n rhedeg y Tarw ar y Stryd Fawr. Roedd yn ddyn teulu mawr ac mi fydd colled anferth ar ei ôl. Roedd ganddo hefyd ail deulu sef y band a bu'n aelod ffyddlon a chydwybodol am ddegawdau, mi fydd y Cwt Band yn le rhyfedd iawn ar ei ôl. Cofion at Alun a Sioned a gweddill y teulu yn eu profedigaeth.



**Sgwâr 100 Calan Gaeaf**
Dyma'r enillwyr:
1af – Lwsi Cylch Meithrin - £30
2ail – Marian Williams - £20 (rhoddwyd y wobr hon yn ôl i'r Cylch)
3ydd – Iago Cylch Meithrin - £10

Diolch i bawb a brynnodd sgwâr neu sgwariau. Cofiwch bydd un Nadolig ar gael yn fuan!

Daeth y plant i'r Cylch cyn y gwyliau hanner tymor, yn eu gwisgoedd Calan Gaeaf hefyd!

**Sul y Cofio**
Dyma Lwsi a Rori ar fore braf Sul y Cofio wrth y Gofeb yng nghwmpeini Anti Dilwen. Roedd plentyn bach arall o'r enw Logan efo ni, ond roedd yn rhy swil i dynnu ei lun.



**Diolch**
Fe hoffai Carolyn a John o Min Afon, Ffordd yr Orsaf, Llanrug ynghyd a'r plant, Steven a Ffion, ddiolch am yr holl negeseuon o gysur maent wedi eu derbyn wedi colli mam, mam-yng-nghyfraith, nain a hen nain cariadus. Fu farw Mrs. Phyllis Evans gynt o 2, Rhes Cynfi, Deiniolen yn Ysbyty Gwynedd ar 7fed Hydref wedi salwch estynedig. Yn ogystal, hoffai'r teulu ddiolch am y rhoddion ariannol a fydd yn mynd tuag at gefnogi Banc Bwyd Arfon. Diolch arbennig i Meinir Griffith a'r Canon Idris Thomas am gynnal a chysuro'r teulu yn ystod y cyfnod anodd yma.

**Merched y Wawr**
Cafwyd noson yng nghwmni Elin Tomos, Nant Peris yn sôn am ferched y chwarel a difyr iawn oedd y cyflwyniad i'r ymchwil ganddi a hefyd hel atgofion gyda'r aelodau am amseroedd a fu. Mis yma daw Richard Jones, Caernarfon atom i siarad am ffotograffiaeth, mae'n argoeli i fod yn noson hynod ddifyr yn sôn am ei brofiadau tu ôl i'r lens a'i ymddangosiad diweddar ar gyfres Yn y Ffrâm ar S4C. Byddwn yn gorffen y flwyddyn trwy ddathlu'r Nadolig yng Nghlwb Golff Caernarfon.

**Sul y Cofio**
Cafwyd gwasanaeth eto eleni ger y gofeb a braf oedd gweld cynifer o bobl hen ac ifanc yn y gwasanaeth. Arweiniwyd y cyfan gan y Cyng. Elfed Williams gyda chyfraniad cerddorol gan y Band a'r fendith a gweddi gan y Parch Wynne Roberts. Chwaraewyd y last post yn deimladwy iawn gan Tomos Evans, diolch i'r rhai a drefnodd ac i pawb am fynychu.

**Gŵyl Deiniolen**
Mae aelodau'r pwyllgor wedi bod yn brysur yn gosod goleuadau Nadolig newydd ar y Stryd Fawr, mi fydd y noson swyddogol i'w rhoi ymlaen ar 26ain Tachwedd.

**Clwb Snwcer**
Braf yw gallu dweud fod y Clwb yn cael ei agor o 6.00 bob nos Lun a Gwener a chroeso i unrhyw un dros 10 oed i ymuno. Diolch i'r rhai sydd yn gyfrifol am y gwaith a'r trefniadau.

**Sesiynau Cymorth Costau Byw**
Mae cyfarfod wedi ei drefnu i roi cymorth a chyngor am faterion costau byw ac am drefniadau amryw o wasanaethau a allai roi cymorth yn Nhŷ Elidir rhwng 3.30 – 6.30 pm ar 13eg Rhagfyr.

**Cylch Meithrin**
**Newid staff**
Rydym yn drist iawn wrth ffarwelio â Charys, ein Dirprwy Arweinydd er yn falch iawn iddi gael swydd newydd. Bydd y plant a ninnau'n ei cholli yn arw.

**Cydymdeimlo**
Hoffai'r Cylch gydymdeimlo efo teulu David Evans (Dafydd Twins) yn dilyn eu profedigaeth diweddar. Byddai Dafydd yn crwydro'r pentref fel Siôn Corn cyn y Nadolig gan roi gwefr a mwynhad i'r plant yn ogystal â gweithio fel Siôn Corn yn y Gelli Gyffwrdd. Mae'n fraint i'r Cylch dderbyn a gwarchod ei siwt Siôn Corn, a gafwyd fel rhodd gan y teulu.

**Diolch**
Hoffai'r Pwyllgor ddiolch o galon i Gyngor Cymuned Llanddeiniolen am eu cyfraniad hael o £300 i'r Cylch.

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch o galon i Menna a Keith, Tafarn y Wellington, Deiniolen am eu croeso twymgalon a'u help i wneud y Noson Cwis yn un llwyddiannus a difyr ac am eu cyfraniad hael o £200 i'r Cylch.

**Noson Cwis y Cylch Meithrin**
Cafwyd noson Cwis hwyliog a difyr yn nhafarn yr Wellington ar nos Sadwrn y 12fed Tachwedd. Bu pawb wedyn yn mwynhau cael eu diddanu gan y grŵp 'The Gogs'. Codwyd dros £350 tuag at y Cylch. Diolch i bawb fu'n helpu a chyfrannu.


**Nadolig Llawen**
Dymunwn Nadolig Llawen iawn a Blwyddyn Newydd Dda i holl drigolion y pentref a'r ardal ynghyd â darllenwyr yr Eco.







## Ysgol Dolbadarn












Yn ddiweddar mae'r ysgol wedi bod yn cyd-weithio â Chyfeillion yr Ysgol er mwyn casglu arian ar gyfer prynu adnoddau i'r buarth sydd wrthi'n cael ei adnewyddu. Mae pob dosbarth wedi creu cardiau Nadolig i'w gwerthu yn y Ffair Nadolig, sydd yn cael ei gynnal yn y Ganolfan ar y 14eg o Ragfyr rhwng 5PM a 7PM. Yn ogystal â hyn, mae ambell siop yn y pentref wedi cytuno i'w gwerthu ar ein rhan - hoffwn ddiolch yn fawr iawn iddynt. Mae'n bosib archebu rhai o flaen llaw trwy gysylltu â Ceris ap Gwilym: cerisapgwilym@hotmail.co.uk

Mae'r cardiau yn £1 yr un, £4 am becyn o 5 neu £7.50 am becyn o 10.

# Teyrnged

**Mr John B Jones, Ceris, Deiniolen**
***Addasiad o deyrnged a draddodwyd yn ei angladd gan y Parchg John Pritchard***

Bu farw John yn Ysbyty Gwynedd ar Hydref 18, 2022. Fe'i ganed ar Fedi 27ain, 1940, yn unig blentyn i William Llywelyn a Gwen Teifi Jones, Nantgaran, Penrhiwllan yn yr hen sir Aberteifi. Wedi gadael ysgol aeth i'r Coleg ym Mhontypridd cyn cychwyn ar yrfa mewn peirianneg drydanol. Bu'n gweithio mewn pwll glo a ffatri awyrennau cyn symud i weithio i Gyngor Sir Aberteifi ym 1970. Erbyn hynny, roedd wedi cyfarfod â Meri Wyn Roberts, Dinorwig yn Eisteddfod Genedlaethol Aberafan 1966. Bu raid cynnal y berthynas o bell am flynyddoedd gan fod Meri'n byw yn yr Wyddgrug ac yntau yn Abertawe.

Symudodd i'r Gogledd ym 1974 fel peiriannydd goleuo gyda Chyngor Gwynedd, a phriodwyd Meri ac yntau yn yr un flwyddyn yng nghapel Dinorwig. Ymgartrefodd y ddau ym Methel, ac yno yr oeddent yn byw pan anwyd eu mab Dyfan. Symudodd y teulu i Ddeiniolen yn ddiweddarach, i Awel y Mynydd at rieni Meri i ofalu am ei thad Arthur ac ym 1982 i Ceris. John oedd yn bennaf gyfrifol am adeiladu Ceris, a hynny'n arwydd o'i allu i droi ei law at unrhyw waith ymarferol. Ym 1982 hefyd yr ymaelododd â'r eglwys yng nghapel Ebeneser, a chyn diwedd y flwyddyn fe'i hetholwyd yn ddiacon. Roedd yn amlwg wedi ennill ymddiriedaeth ei gyd-aelodau ar unwaith. Ymdaflodd i waith y capel gan wasanaethu fel organydd ac aelod o bwyllgor adeiladau'r capel. Gydag amser daeth yn ysgrifennydd y pwyllgor hwnnw am oddeutu ugain mlynedd. Bu hefyd yn Ysgrifennydd Cyffredinol yr eglwys am ddeng mlynedd, hyd at 2016. Bu'n ffyddlon i'r oedfaon a'r gwahanol weithgareddau a gwnaeth lawer o waith cynnal a chadw.

Bu'n weithgar hefyd o fewn y gymuned: yn aelod o Bwyllgor Eisteddfod y pentref ac yn arweinydd ar lwyfan yr Eisteddfod; yn aelod o bwyllgor Band Pres Deiniolen ac o Gorff Llywodraethwyr Ysgol Brynrefail gan wasanaethu am gyfnod fel ei Gadeirydd. Wedi ymddeol, bu'n Glerc Cyngor Cymuned Llanddeiniolen am flynyddoedd ac yn cyfrannu i'r Eco yn rheolaidd. Parhaodd yn weithgar mewn sawl maes nes i'w iechyd ddirywio.

Ond heb os, ei gartref a'i deulu oedd bwysicaf iddo. Cafodd Meri ac yntau 48 o flynyddoedd o fywyd priodasol a chael yn y naill a'r llall gymar a chefn a chyfaill a chariad oes.

Roedd John yn eithriadol o falch o'i fab Dyfan, yn dawel falch y dylwn ddweud gan nad oedd yn un i ymffrostio. Gwnaeth y gorau dros Dyfan erioed, ac yn eu tro daeth yn hoff a balch o Kathy ac o'i wyrion Gwion ac Ifan a'i wyres Alaw. Bu'n dad-cu gofalus a phrysur, yn nôl a danfon a gwarchod y plant am flynyddoedd. Roedd wrth ei fodd yn eu cwmni gartref ac ar wyliau. Mwynhâi hefyd gwmni'r cylch o ffrindiau agos yr oedd ganddo feddwl mawr ohonynt.


Dyn gwylaidd, tawel a doeth ei farn a'i gyngor oedd John; dyn annwyl, clên, hwyliog a pharod ei gymwynas. Dim ond 48 mlwydd oed oedd o pan ddois i'n weinidog yma, a chefais ei gefnogaeth yng nghanol ei nerth. Diolch am ei gymorth yng ngwaith y capel, ac yn arbennig am ei anogaeth. Diolch hefyd am y croeso cynnes ar ei aelwyd a'r diddordeb a'r gofal a ddangosodd tuag ataf fi a'r teulu a llawer eraill.

Cynhaliwyd ei angladd ddydd Gwener, Hydref 28, yn breifat ar ei aelwyd ac yn gyhoeddus ym Mynwent Machpela, yng ngofal y Parchg Trefor Lewis a minnau. Cydymdeimlwn â'i briod Meri, Dyfan a Kathy, Gwion, Ifan ac Alaw a'r teulu ehangach.

# LLANBERIS









**Cais am newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/e-bost neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr Eco. Diolch yn fawr.

Clybiau crefft a grwpiau gwirfoddol

Mae nifer o glybiau crefft a grwpiau gwirfoddol yn y Pentref, yn eu mysg mae'r canlynol:

**Grŵp Crosio a Gwau Llanberis**
Mae'r grŵp yn cwrdd yn y Ganolfan Gymunedol bob nos Lun o 6pm tan 7.30pm. Cost £1. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Clwb Gwnïo**
Mae'r grŵp yn cyfarfod yn y Ganolfan Gymunedol bob prynhawn Dydd Iau rhwng 2 - 4 pm. Croeso cynnes i ddysgwyr a rhai profiadol!

**Criw Gefeillio Llanberis yn ymweld â Morbegno**
Aeth criw Gefeillio Llanberis draw i Morbegno, ein pentref gefeillio i weld y ras sef Trofeo Vanoni, ble cefais i'r fraint o gychwyn y ras gyda'r Maer Alberto Gavazzi. Roedd tîm o Gymru a thîm Eryri Harriers ymysg y rhedwyr, a'r enwog Ian Holmes, sydd wedi ennill Ras yr Wyddfa. Fe gynhaliwyd Cyngerdd yno i'r Eidalwyr gan griw Gefeillio Llanberis, oedd yn cynnwys y Pianydd o Nant Peris, Ross Craigmile ac Elen o ardal Penllyn yn canu Opera. Hoffwn ddiolch i Ken Jones am y cyfle arbennig hwn o fod yn rhan o'r criw Gefeillio ac i barhau'r cysylltiad am flynyddoedd i ddod.

**Sul y Cofio**
Da oedd gweld cynifer o bentrefwyr wedi ymgynnull o amgylch y Gofgolofn ar fore Sul Y Cofio.

**Capel Jerusalem**
Dyma drefn yr oedfaon, am 2 o'r gloch y prynhawn:
**27ain Tachwedd** - Parch Dr Elwyn Richards
**4ydd Rhagfyr** - Parch John Gwilym Jones

**Eglwys Sant Padarn**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w weld yn yr Eglwys rhwng 10:30yb a 2:00yp o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Gwasanaethau mis Rhagfyr**
**Rhagfyr 4ydd**, 11yb - Cymun Bendigaid
**Rhagfyr 11eg**, 11yb - Cymun Bendigaid
**Rhagfyr 18fed**, 11yb - Cymun Bendigaid
**Rhagfyr 25ain,** Dydd Nadolig, 10yb - Cymun Bendigaid
**Nos Sul Rhagfyr 4ydd** am 6:30yh - Cyngerdd Nadolig yng nghwmni Trio gyda Côr Law yn Llaw, Annette Bryn Parri, Hawys Parri, Dylan a Neil ag Elin Mai. Arwel Jones yw arweinydd y noson. £5 wrth y drws, elw tuag at Ward Alaw.
**Rhagfyr 12fed tan 23ain - Gŵyl Coed Nadolig** yn yr eglwys. Mae croeso i unrhyw fusnes neu fudiad osod coeden, bydd y coed yn cael eu gosod ar ôl 10yb ar y 10fed o Ragfyr. Bydd coeden arbennig yno i unrhyw un osod addurn er cof.
**Dydd Sadwrn 17 Rhagfyr** am 2 o'r gloch - **Gwasanaeth y Crud** a chanu carolau yn stabl gwesty Dolbadarn gyda lluniaeth i ddilyn yn yr eglwys.
**Dydd Sul 18fed Rhagfyr** am 2 o'r gloch - **Cyngerdd Nadolig Seindorf Arian Deiniolen a Chôr Meibion Dyffryn Peris.**

**Eglwys Sant Peris**
**Gwasanaethau mis Rhagfyr**
**Rhagfyr 4ydd**, 9:30yb - Cymun Bendigaid, 4:00yh - Gwasanaeth Teulu
**Rhagfyr 11eg**, 9:30yb - Cymun Bendigaid
**Rhagfyr 18fed**, 9:30yb - Cymun Bendigaid
**Rhagfyr 24ain**, Noswyl Nadolig, 11:30yh - Cymun Bendigaid

Hefyd, cynhelir naill ai wasanaeth o'r Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi bob bore Mawrth am 11yb.

Cynhelir Ffair Nadolig yn yr Eglwys ar **Dachwedd 26**, rhwng 10 a 3 o'r gloch. Mynediad £3, i gynnwys paned a mins pei. Elw tuag at ymchwil canser.

**Dydd Sadwrn Rhagfyr 17**, 5:30 - Perfformiad o 'A Christmas Carol'.

**Parti Nadolig i Blant**
Fe gynhaliwyd parti Calan Gaeaf i blant yng Nghlwb Cymdeithasol Llanberis ac fe godwyd £263.04 ar gyfer y goleuadau Nadolig eleni. Mi fydd Parti Nadolig i blant hefyd yn cael i'w cynnal yn y Clwb Cymdeithasol ac mi fydd yr elw yn mynd at offer awyr agored Ysgol Dolbadarn.

# NANT PERIS

**Eglwys Sant Peris**
Gwasanaethau mis Rhagfyr
Rhagfyr 4ydd, 9:30yb - Cymun Bendigaid, 4:00yh - Gwasanaeth Teulu
Rhagfyr 11eg, 9:30yb - Cymun Bendigaid
Rhagfyr 18fed, 9:30yb - Cymun Bendigaid
Rhagfyr 24ain, Noswyl Nadolig, 11:30yh - Cymun Bendigaid
Hefyd, cynhelir naill ai wasanaeth o'r Cymun Bendigaid neu Foreol Weddi bob bore Mawrth am 11yb.

**Ffair Nadolig**
Cynhelir Ffair Nadolig yn yr Eglwys ar Ddydd Sadwrn, Tachwedd 26ain, rhwng 10yb a 3 o'r glochyp.

Mynediad £3, i gynnwys paned a mins pei. Elw tuag at ymchwil canser.

Dydd Sadwrn Rhagfyr 17, 5:30 - Perfformiad o 'A Christmas Carol'.

**Dathlu 30 mlynedd o weithgynhyrchu yn Siemens**
Ar y 4ydd o Dachwedd cefais wahoddiad i fynychu digwyddiad o ddathlu 30 mlynedd o weithgynhyrchu yn Siemens, ynghyd â'r Arglwydd Dafydd Wigley, Osborne Jones ac aelodau o Brifysgol Bangor.

**Clwb Ieuenctid**
Mae'r Clwb Ieuenctid wedi agor, ac ymlaen pob Nos Iau o 7:15PM tan 8:45PM. Cynhaliwyd disgo Calan Gaeaf i'r plant ifanc i gyd ar y 27ain o Dachwedd ac roedd pawb wedi mwynhau ac rwyf yn falch o allu gweld y clwb hwn yn un llwyddiannus er mwyn dyfodol plant y gymuned.

**Ffair Nadolig Llanberis**
Cynhelir Ffair Nadolig Llanberis ar y Stryd Fawr ar yr 8fed Rhagfyr.









# Y Festri

Cynhelir dosbarthiadau newydd yn Y Festri yn ystod mis Tachwedd a dechrau Rhagfyr.

**Syrcas Ieuenctid**
Oherwydd llwyddiant y dosbarthiadau syrcas i'r ieuenctid rhanwyd y dosbarthiadau nos Lun yn ddau fel a ganlyn:
Cynnar - 5 - 6.30pm Blwyddyn 7 ac 8 neu 12 - 14 oed (neu i'r rhai llai profiadol neu'n newydd ddyfodiaid)
Hwyr - 7 - 8.30pm Blwyddyn 9 - 11 neu 14 - 16 oed (neu i'r rhai mwy profiadol).


**Gweithdai Llusernau Helyg**
Bydd y Festri a CircoArts yn cynnal y Gweithdai Llusernau Helyg rhwng 1 - 4 pm ar yr 27ain Tachwedd, 3ydd a'r 4ydd Rhagfyr ar gyfer y Ffair Nadolig gynhelir ar ddydd Iau 8fed Rhagfyr.

Gobeithio y bydd holl ieuenctid Y Festri yn cymryd rhan yn yr orymdaith Ffair Nadolig a bydd rhai o'r Ieuenctid Syrcas yn perfformio yn yr *Heights*. Bydd ymarferion ychwanegol yn cael eu cynnal yn Y Festri yn rhad ac am ddim, gyda chymhorthdal o gyfraniadau i'r Festri gan Y Fricsan a'r Sialens Elusen drwy'r Ganolfan.

Ni fydd dosbarthiadau yn Y Festri ar ôl y Ffair Nadolig gan fod llawer o'r plant yn cymryd rhan mewn perfformiadau eraill o fewn eu hysgolion. Bydd dosbarthiadau yn ail-ddechrau yn y Flwyddyn Newydd.







**Syrcas Ieuenctid Circopyro**
Dydd Llun 5 - 6.30pm - 12-14 oed - Cynnar
Dydd Llun 7 - 8.30pm - 14-16 oed - Hwyr

**Gwnewch eich Marciau**
Dydd Mawrth 5 - 6pm - Dydd Mawrth - 8-11oed
Dydd Mawrth 7- 8.30pm - Dydd Mawrth - 12-16oed

Cadwch lygaid ar y bocs ffôn yn Stryd Fawr Llanberis, er mwyn gweld y Goeden Nadolig Eco, fydd wedi ei haddurno gyda deunyddiau naturiol neu ddeunyddiau wedi eu hail-gylchu.

**Circopyro Syrcas Mawr**
Dydd Mercher 6 -7pm - Dydd Mercher - 8-11oed

Dilynnwch y linc https://bookwhen.com/circoarts am fwy o fanylion am brisiau'r gweithgareddau uchod.

**Diolch**
Roedd criw'r Festri yn drist i feddwl na fedren nhw barhau i ddarparu dŵr a byrbrydau iach i'r ieuenctid, gan fod cyllid 'Haf o Hwyl a Llesiant y gaeaf', ddarparwyd gan Llywodraeth Cymru wedi dod i ben. Fodd bynnag ar ôl i Siopau Joe Brown glywed am yr effaith bositif a gafodd y byrbrydau iach ar y bobl ifanc maent wedi cytuno i dalu am y ffrwyth a'r byrbrydau iach a darparu poteli dŵr gellir eu hail-ddefnyddio. Hoffai'r Festri ddiolch o galon iddynt.



# CHWILAIR CYFARCHION NADOLIG AR DRAWS Y BYD

| | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | J | F | W | N | A | D | O | L | I | G | Ll | A | W | E | N |
| A | O | E | B | F | L | C | H | E | R | W | Q | E | K | L | T |
| R | Y | L | C | Ll | H | J | N | S | A | Y | U | G | N | A | A |
| E | E | I | D | A | B | U | F | A | G | R | I | W | E | T | I |
| L | U | Z | E | O | D | E | T | M | N | E | M | L | Dd | A | W |
| L | X | N | T | F | G | O | Ff | T | W | I | T | A | S | N | S |
| E | N | A | C | Y | H | K | R | S | H | D | E | D | N | N | H |
| O | O | V | A | Z | T | Ll | A | I | N | A | S | P | E | O | C |
| N | E | I | M | E | W | G | I | R | B | L | W | W | R | U | Y |
| U | L | D | H | P | R | E | N | H | A | D | E | Y | M | B | L |
| L | Q | A | L | X | C | H | C | C | N | C | E | L | F | N | O |
| T | X | B | U | Ng | I | U | F | Y | O | U | S | E | I | Z | S |
| U | C | N | J | M | Y | R | W | R | R | A | I | O | T | R | E |
| M | V | I | D | E | S | M | P | R | W | G | U | L | N | S | W |
| J | N | T | O | U | R | Y | U | E | Y | S | T | H | K | Y | B |
| Ll | O | E | G | R | A | C | A | M | E | R | I | C | A | E | T |

| **CYFARCHIAD** | **GWLAD** |
|---|---|
| BOLDOG KARACSONYT | HWNGARI |
| BUON NATALE | YR EIDAL |
| NADOLIG LLAWEN | CYMRU |
| FELIZ NAVIDAD | SBAEN |
| MUTLU NOELLER | TWRCI |
| GOD JUL | NORWY |
| JOYEUX NOEL | FFRAINC |
| MERRY CHRISTMAS | LLOEGR AC AMERICA |
| WESOLYCH SWIAT | GWLAD PWYL |

Allwch chi ddod o hyd i'r cyfarchion ar draws y byd ynghyd a'r gwledydd sy'n eu defnyddio?

**SIALENS** - Allwch chi ddarganfod pa un o'r gwledydd nad yw wedi ei chynnwys yn y chwilair? Cofiwch mae llythrennau o'r wyddor Saesneg yn y chwilair y mis hwn ond mae llythrennau dwbl Cymraeg yn parhau i lenwi un sgwâr





BYSUS RHIWLAS
BYSUS BACH A MAWR
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol - Ffoniwch **(01248) 361044**
**D. P. OWENS** RHIWLAS



FFRAMIA
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
FFRAMIO LLUNIAU
*www.fframia.com*

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru

Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando

Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos

0808 164 0123

Gwefan: www.samariaidbangor.cymru


## ATEBION I CHWILAIR MIS HYDREF CALAN GAEAF

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| C | L | E | C | I | A | N | G | E | B | S | T |
| O | L | W | Y | N | C | A | T | R | I | N | I |
| E | F | Ch | G | O | I | R | T | I | Ff | A | T |
| L | A | Ng | I | C | W | N | P | O | E | Th | Ll |
| C | T | U | A | M | A | L | Ff | T | W | P | Y |
| E | Y | O | Ll | N | R | O | C | E | D | I | W |
| R | R | P | E | C | W | O | Ff | O | T | U | G |
| Th | F | T | A | T | W | S | P | O | B | L | N |
| S | A | F | A | L | A | U | T | A | Ff | I | Â |
| G | W | R | E | I | Ch | I | O | N | E | S | T |
| T | Ll | I | W | I | A | U | Ll | A | Ch | A | R |
| Ff | Y | N | G | W | R | E | I | Ch | I | O | N |

- **AFALAU TAFFI**
- **CLECIAN**
- **COELCERTH**
- **CŴN POETH**
- **FFLAMAU**
- **FFYN GWREICHION**
- **GUTO FFOWC**
- **GWREICHION**
- **LLIWIAU LLACHAR**
- **OLWYN CATRIN**
- **ROCEDI**
- **TAFFI TRIOG**
- **TÂN GWYLLT**
- **TATWS PÔB**
- **TYRFA**

**Geirfa Tân Gwyllt - Fireworks Vocabulary**
afalau taffi - toffee apples
ffyn gwreichion - sparklers
rocedi - rockets
clecian - bangs
Guto ffowc - Guy Fawkes
taffi triog - treacle toffee
coelcerth - bonfire
gwreichion - sparks
tan gwyllt - fireworks
cŵn poeth - hot dogs
lliwiau llachar - bright colours
tatws pôb - baked potato
fflamau - flames
Olwyn Catrin - Catherine Wheel
tyrfa - crowd

# Ysgol Gwaun Gynfi

**Llwybr Coed Arddringo**
Yn dilyn cais llwyddiannus gan yr ysgol enillwyd grant i ddatblygu buarth plant hynaf yr ysgol. Penderfynwyd adeiladau llwybr coed i'r plant gan gwmni sydd yn arbenigo yn y gwaith hyn. Mae'n edrych yn wych ac mae'r plant yn edrych ymlaen cael ei ddefnyddio.











**Trip i Llanberis**
I gyflwyno thema teithio y tymor hwn, aeth Plant y Cyfnod Sylfaen a Lili'r ci ar drip i Llanberis ac ar trên Llyn Padarn.





**Gofalu am yr anifeiliaid**
Mae plant y dosbarth Meithrin wedi bod yn brysur yn gofalu am yr anifeiliaid gan rhoi bath i'r crwbanod Magi a Gwen.







**Jambori'r Urdd**
Dydd Iau, 10fed Tachwedd roedd hi'n ddiwrnod Jambori Cwpan y Byd yr Urdd.

Roedd y plant wedi mwynhau eu hunain yn canu gyda Dafydd Iwan, cân Cymru yng nghystadleuaeth pêl-droed Cwpan Y Byd.

**Cyngerdd Nadolig**
Dyddiad ein cyngerdd Nadolig y flwyddyn hon yw dydd Iau, 22ain Rhagfyr. Mwy o fanylion i ddod yn agosach i'r amser.

# Enillydd Prentis Sylfaen y Flwyddyn

Mae pentref Llanrug yn hynod o falch o un o'i drigolion, Boglárka Tünde Incze - enillydd y wobr Prentis Sylfaen y Flwyddyn yng Ngwobrau Prentisiaethau Cymru yn ddiweddar.

Mae prentisiaethau'n helpu Boglárka, sy'n arweinydd tîm gofal cartref, i wneud gwahaniaeth i fywydau'r bobl y mae hi'n gofalu amdanynt ac yn gweithio gyda nhw.

I ddechrau, defnyddiodd Boglárka, sy'n byw yn Llanrug ers rhai blynyddoedd, y Radd Baglor mewn Cyfrifiadureg a enillodd yn Rwmania, i weithio i gwmnïau rhyngwladol.

Cymerodd swydd ychwanegol fel gofalwr rhan amser yn cefnogi pobl yn eu cartrefi a gan ei bod yn mwynhau'r gwaith gymaint, mi newidiodd yrfa yn ystod y pandemig.

Mae hi wedi cwblhau Prentisiaethau Lefel 2 a 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol gydag Itec Skills and Employment a hoffai gymhwyso fel asesydd.

O Hwngari y daw Boglarka yn wreiddiol. Mae hi'n dysgu Cymraeg ac yn gweithio'n rhan amser i Gofal Bro Cyf ac fel cynorthwyydd gofal iechyd lliniarol gyda Marie Curie.

Mae'r gwaith mae gofalwyr fel Boglárka yn ei wneud yn gwbwl amhrisiadwy ac rydym yn ei llongyfarch yn gynnes iawn ar ei llwyddiant.



# Dyddiadur y gath ddŵad/ Bobliadur - Rhan 9

Dyma hanes cath fawr goch a ddaeth i fyw ar lethrau Eryri ychydig dros flwyddyn yn ôl. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw, ond doedd ei fywyd hyd hynny ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

Mae Bob yn gath sunsur arbennig. Ond yn ôl pob sôn cafodd cathod oren eu nod 'M' arbennig ar eu talcen oherwydd iddynt ddod i gysylltiad â mab Duw. Dyma'r stori:

'Pan oedd y baban Iesu yn gorwedd yn y preseb, dechreuodd grynu oherwydd yr oerfel. Gosododd Mair blancedi dros y bychan, ond roedd yn parhau i grynu. Siaradodd efo fo'n dyner, 'Wn i ddim beth i neud. Rwyt ti wedi cael bwyd, clwt glân a dwi wedi rhoi planced arall drostat ti ond mi wyt ti'n dal yn oer'.

Gofynnodd i'r anifeiliaid yn y stabl symud yn nes fel bod gwres eu cyrff yn cynhesu'r Iesu, ond roedd y plentyn yn parhau i grynu a chrio.

Magodd y bychan a'i osod yn ôl yn y preseb oedd yn llawn gwair, ond parhaodd i grio.

Ond roedd cath fach wedi bod yn gwylio'r olygfa ac yn gwybod beth i'w wneud. Neidiodd i mewn i'r preseb a swatio wrth ymyl y plentyn, a dechrau canu grwndi. Si hei lwli hyfryd. Stopiodd y babi grio a chyn pen dim roedd yn cysgu'n sownd.

Cyffyrddodd Mair â'r gath fach i ddiolch iddi am ei anrheg o gariad a chynhesrwydd a rhoi llythyren gyntaf ei henw, 'M', ar ei thalcen. Byth ers hynny mae pob cath trilliw (neu goch) yn gwisgo blaenlythyren y Madonna (y Forwyn Fair).

Dyma Bob felly'n parhau efo'i stori ar ôl dychryn efo sŵn yr hwfer ar noson Tan Gwyllt.

"Mae wedi bod yn brysur yma ers y sŵn mawr tu allan. Mae'r ddeu-droed fach byth a hefyd yn y gegin yn coginio pethau sydd, chwarae teg, yn ogleuo'n hyfryd. Cofiwch chi, dydw i ddim yn hoffi bwyd y deu-droediaid, well gen i fy misgedi sych neu'r tuniau bach.

Am ryw reswm, mae pob math o bethau wedi ymddangos yn y tŷ nad oeddan nhw'n arfer bod yma. Yn goron ar y cyfan, maen nhw wedi symud y dodrefn yn y cyntedd a phlannu coeden yn y gongl! Cathod a ŵyr pam. Maen nhw hefyd wedi rhoi pob mathau o geriach hyd ganghennau'r goeden a gosod goleuadau bach drosti. Ar ben bob dim mae yna bob math o bethau, wedi eu lapio mewn papur wedi cael eu gosod o dan y goeden. Goeliwch chi - mae ambell un ohonyn nhw efo fy enw fi - Bob arnyn nhw!!! Mae oglau hynod ddiddorol ar ambell un, ond dydy fiw i mi gyffwrdd pawen yn yr un ohonynt neu dwi'n cael ffrae. Unwaith eto, cathod a ŵyr pam. Dwi'n ei heglu hi am y soffa, cau fy llygaid, cysgu llwynog oedd mam yn ei alw fo, a gwylio'r holl hwrli bwrli o bell. Pan dwi'n deffro mae'r deu-droediaid yn chwerthin, dim syniad eto pam.




Am y tro cyntaf ers dwi yma mae'r deu-droediaid yn croesawu mwy o ddeu-droediaid atyn nhw. Maen nhw'n dod drwy'r drws ffrynt ac yn dod â mwy o bethau i'w gosod o dan y goeden. Mae'r rhai callaf yn gadael i mi fod, ond mae ambell un gwirion yn cynnig llaw i mi! Nhw ydy'r gwirionaf … a dydyn nhw ddim yn hapus pan ydw i'n anelu pawen yn ôl atynt - heb dynnu fy ewinedd yn ôl i'r blew! Mae'r ddeu-droed fach yn llawn ymddiheuriadau drostaf, ond dwi'n sylwi eu bod nhw'n fwy gwyliadwrus a pharchus wedyn. Os ydyn nhw'n pasio'r prawf, mi fyddai'n caniatáu iddyn nhw roi mwythau i mi ar fy mhen. Dydw i ddim yn hoffi neb yn cyffwrdd fy nghefn, mae gen i fy rhesymau, ond mae'n well gen i gadw'r rheiny i mi fy hun. Gall pob cath gall gadw cyfrinach.

Dwi'n synhwyro bod rhywbeth yn y gwynt heno. Mae'r deu-droediaid wedi bod yn brysur yn y gegin drwy'r dydd a does neb arall wedi galw. Mae yna glamp o beth pluog, noeth yn eistedd yn y gegin o dan rywbeth gloyw a llwyth o sosbenni'n llawn o - cath a ŵyr beth.

Mi ddaeth hi i lawr yn gynnar bore heddiw ar ôl yr holl baratoi a phrysurdeb ddoe, a rhoi'r peth pluog yn y bocs du poeth. Diflannodd wedyn i fyny'r grisiau - ches i ddim hyd yn oed snwyriad o fwyd.

Mmm oglau da yn y gegin bellach. Dwi'n cysgu ar y soffa eto ac yna mae'r ddau i lawr grisiau yn dymuno Nadolig Llawen i'r naill a'r llall a fi! Dolig ydy peth fel hyn felly? Beth bynnag ydy o, maen nhw i'w gweld yn hapus. Maen nhw'n tynnu'r papur oddi ar y pethau mewn papur o dan y goeden, yn agor y rhai oedd ag oglau diddorol i mi ac yn rhoi peth o'r cynnwys i mi, diolch yn fawr. Maen nhw hefyd yn bwyta'r peth mawr pluog noeth a llwyth o bethau arall.

Dwi'n gynnes, yn glyd ac yn hapus. Dwi'n meddwl mod i'n licio Dolig. Tybed welai un arall tebyg?"

# Un funud fach …

## STORI'R ŴYL

Peth rhyfedd ydi Dolig ganol Tachwedd. Newydd ddod adra ydw i wedi cael penwythnos efo'r teulu, a heb sylweddoli wrth ei drefnu y byddai'r lle gwyliau'n llawn o liw a sŵn yr Ŵyl. Profiad dieithr a dweud y lleiaf! Ac yn annisgwyl, felly, wrth fynd i weld Siôn Corn efo'r wyrion (wythnosau'n rhy gynnar a bod yn onest) y meddyliais am ddameg ar gyfer rhifyn Nadolig yr *Eco*.

Roedd yna stori fach yn sail i'r ddameg: stori wir am ddigwyddiad a wnaeth i bawb ohonom wenu; ond stori na fedraf ei rhannu â chi. Stori ddiniwed na fyddai'n achos embaras i neb pe byddwn yn ei hadrodd; stori ddoniol yr ydw i'n ysu am ei dweud; ond stori y mae'n rhaid bod yn dawel yn ei chylch. Chaiff hi ddim ei hadrodd rhag amharu ar ramant dathliadau'r Ŵyl.

Ond os na fedraf rannu'r stori hon mi fedraf eleni eto rannu stori arall. Stori wir yw honno hefyd; stori am ddigwyddiad a ddaeth â gwên i wynebau a llawenydd i galonnau miliynau o bobl dros y canrifoedd. Stori sy'n sail i'r Ŵyl ac yn rhoi ystyr i holl ddathliadau Cristnogion ar hyd yr oesoedd. Stori i'w dathlu adeg y Nadolig, ond stori sy'n haeddu ei rhannu ym mis Tachwedd a phob mis a phob diwrnod.

Brysiwn i adrodd yr hen stori gyfarwydd am Fair a Joseff a'u taith i Fethlehem; am y bugeiliaid a'r angylion; am y doethion a Herod. Ac yng nghanol y stori, y babi bach a anwyd ac a osodwyd mewn preseb. Mor gyfarwydd y cyfan, ond mor ddieithr; mor gyffredin, ond mor anghyffredin; mor naturiol, ond mor annaturiol. Dathlwn o'r newydd eleni eni'r un babi oedd fel pob babi arall ac eto oedd yn gyfan gwbl wahanol i bob babi arall.

Dyma stori y medrwn ei rhannu ac y bydd yn dda i bawb ei chlywed y Nadolig hwn fel pob Nadolig arall. Mynnwn ei hadrodd am ei bod yn wir. Digwyddodd y pethau hyn. Daeth Mab Duw i'r byd yn fabi bach. Nid ffuglen mo'r stori fawr hon ond ffaith. Nid dychymyg llenor ond doethineb a chariad Duw a'i rhoddodd i ni. A mynnwn adrodd y stori am fod ar bobl angen ei chlywed. Mae arnynt angen clywed am bwrpas Duw ar gyfer y babi bach hwn, ei fod wedi ei eni er mwyn yn y pen draw ei roi ei hunan i farw tros eraill ar groes. Mae arnynt angen clywed am y bywyd newydd sy'n bosibl trwy'r plentyn hwn a ddaeth yn Waredwr i bawb sy'n ymddiried ynddo.

Peidiwch â phetruso rhag adrodd y stori. Ond yn bwysicach fyth, peidiwch â phetruso rhag ei chredu. Wedi'r cyfan, y stori hon yw'r Nadolig.

**JOHN PRITCHARD**

# WAUNFAWR

**Cylch Meithrin a Meithrin Mwy Waunfawr**
Bydd Ffair Nadolig yn cael ei chynnal yn y Ganolfan dydd Sul Rhagfyr 11eg rhwng 10.00AM - 1.00PM i godi arian i'r Cylch. Bydd Groto Siôn Corn yno a nifer o stondinau. Dewch i gefnogi!

Os oes gennych ddiddordeb cael bwrdd yn y neuadd ar gyfer y Ffair, y gost yw £10 am y bwrdd. Cysylltwch drwy neges Facebook neu e-bost y Cylch: pwyllgorcylchwaunfawr@gmail.com

**Profedigaeth**
Rydym yn cydymdeimlo gyda theulu Mrs Enid Williams, Heli, fu farw yn 91 oed. Cofion cynnes at ei phlant Iorwerth a Linda a'r teulu ehangach. Hefyd, rydym yn anfon ein cofion at Eleri, Aled ac Owi, Llwyn Celyn. Bu farw mam Eleri yn ddiweddar.

**Paned a Sgwrs**
Mae'r cyfarfod wythnosol yma yn hynod o boblogaidd, a da gweld wynebau newydd yn ymuno pob wythnos. Cofiwch, mae pob amser le i fwy, a chroeso i bawb o bob oed.

Er mai anffurfiol ydi'r naws, gwnaed penderfyniad i wahodd aelod o staff o wasanaeth llyfrgell Cyngor Gwynedd i ymweld ar y 16eg Tachwedd. Bydd cyfle i fenthyg llyfr ganddynt, ac os oes galw, byddant yn gallu galw yn gyson efo ni. Hefyd cafwyd ymweliad difyr iawn ar y 9fed o Dachwedd gan Gwilym Morris Jones (Mois) ddaeth a llu o hen luniau ac erthyglau difyr i ni gael edrych arnynt a hel atgofion. Diolch yn fawr am fod mor barod i rannu dy wybodaeth am y pentref Mois!



**Brysia Wella**
Rydym yn dymuno gwellhad buan i ti Gwenno (syrjeri) sydd yn anffodus wedi gorfod cael llawdriniaeth arall. Gobeithio cei wellhad buan a llwyr Gwenno.

**Newid Hinsawdd: Taid a fi**
Braf gweld bod ail gyfres o'r rhaglen bwysig yma yn cael ei darlledu ar Radio Cymru. Y cyflwynydd ydi Leisa Gwenllian o Lanrug, a Taid ydi Duncan Brown, Gwelfor, sy'n gwneud cymaint o waith da yn tynnu sylw at yr argyfwng newid hinsawdd, gan gynnwys, yn amlwg, dylanwadu ar y genhedlaeth nesaf. Diolch Duncan.

**Plaid Cymru Waunfawr**
Cofiwch am gyfarfodydd misol y gangen yn y dafarn yn Waunfawr. Y dyddiadau nesaf i'w cofio ydi: 17eg o Dachwedd a'r 15fed o Ragfyr. Mae'r cyfarfodydd yn cychwyn am 7.30PM, a chyfle i gymdeithasu wedyn. Croeso cynnes iawn i bawb.

# Pennod newydd ac arweinydd newydd i Gôr Meibion Dyffryn Peris

Blwyddyn a hanner heb ganu a cholli traean o'i haelodau, ond er gwaethaf effaith y pandemig mae Côr Meibion Dyffryn Peris wedi dod dros y storm ac yn dechrau ar gyfnod newydd.

Ar ddechrau 2020 roedd y dyfodol yn edrych yn addawol i'r côr wedi i nifer o aelodau newydd ymuno a chafwyd taith lwyddiannus i'r Iwerddon.

Yna daeth Covid ac fel popeth arall fe ddaeth yr ymarferion i stop dros nos. Roedd hi'n 18 mis heb ganu o gwbl a chwe mis arall tan oedd hi'n bosib cael ymarferion cyson. Yn y cyfamser roedd traean o'r aelodau wedi gadael, lleoliad ymarfer wedi cau, roedd angen aelodau pwyllgor newydd ac roedd yr arweinydd Dafydd Roberts wedi penderfynu camu lawr ar ôl 15 mlynedd o wasanaeth clodwiw – ond yn ffodus am barhau fel aelod o'r côr.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r côr wedi bod yn ail-adeiladu yn raddol. Fe wnaeth y bariton Caleb Rhys, o Gôr y Penrhyn, helpu arwain dros gyfnod y gaeaf, cyn i'r pianydd o fyd yr opera Ross Craigmile, sy'n fasydd gyda'r côr, gytuno i fod yn arweinydd dros dro.

Daeth rhai aelodau yn ôl, ac ymunodd aelodau newydd. Rŵan mae'r côr bron wedi adennill y niferoedd a gollwyd, er bod dwy gadair fydd o hyd yn wag yn dilyn marwolaeth drist dau aelod triw iawn – Gareth Thomas a Dafydd 'Twins' Evans. Mae colled mawr iawn ar eu hol.

Ers mis Medi mae Siân Wheway wedi dechrau fel arweinydd parhaol. Mae Siân, sy'n byw ger Cwm-y-Glo, eisoes yn cael llwyddiant yn arwain Côr Dre ac mae aelodau Dyffryn Peris yn falch iawn ei bod wedi cytuno i gymryd yr awenau.

Mae hi wedi dechrau ar ddarnau newydd ac yn paratoi'r hogiau ar gyfer cyngherddau dros y Nadolig, yn cynnwys Gŵyl Fwyd Portmeirion, Ffair Nadolig Llanberis a Chyngerdd Nadolig yn Eglwys Llanberis.

Mae'n gyfnod da iawn i ymuno felly, ac mae croeso i unrhyw un sydd awydd gwybod mwy gysylltu drwy dudalen Facebook, e-bostio cordyffrynperis@gmail.com neu'r ffordd hen ffasiwn o siarad efo un o'r aelodau. Does dim rhaid ymrwymo i ddim byd - dim ond bod yn agored i'r posibilrwydd o gael hwyl a'r pleser o gyd-ganu.

I unrhyw un sydd ddim am ymuno ond am gefnogi - a chael cyfle i ennill £120 bob mis - mae 'na newyddion da hefyd gan fod y côr wedi dechrau cynllun Clwb 100. Cysylltwch efo'r côr am fwy o wybodaeth.








# Ysgol Waunfawr

**Diolchgarwch**
Cynhaliwyd gwasanaeth diolchgarwch yn ddiweddar gyda phob dosbarth yn adrodd stori neu weddi. Diolch i'r Parchedig Anna Jane am y croeso ac am gyfarch y plant. Braf oedd gallu cynnal gwasanaeth o'r fath yn yr Eglwys.

**Glan Llyn**
Cafodd disgyblion Blwyddyn 3 a 4 ddiwrnod i'w gofio ar Lyn Tegid yn ddiweddar. Dyma brofiad cyntaf rhai ohonynt yn y gwersyll ac yr oeddynt wrth eu boddau ar y rhaffau uchel, wal ddringo a chael canŵio a rafftio. Diolch yn fawr i'r staff am eu croeso cynnes ac i'r plant am fod yn gwmni mor dda ar y dydd.



**Twrnament Pêl-rwyd Ysgolion Gwynedd**
Llongyfarchiadau i'r tîm a fuodd yn cystadlu yn ddiweddar - mae dyfodol disglair gan rai yn sicr a phob un ohonynt wedi cynrychioli'r ysgol yn wych.




**Gwasanaeth Cofio**
Bu'r disgyblion yn cynnal gwasanaeth Cofio wrth y gofeb yn ddiweddar. Bu'r Cyngor Ysgol wrthi'n brysur yn gwerthu nwyddau pabi coch ar gyfer codi arian hefyd.





**Cwpan Y Byd**
Bu cynnwrf yn yr ysgol yn ddiweddar wrth baratoi ar gyfer Cwpan Y Byd. Bu i holl ddisgyblion yr ysgol wisgo coch i gefnogi Jambori'r Urdd a chael canu'n fyw gyda Dafydd Iwan. Pob lwc i Gymru yn y gystadleuaeth!




**Gymnasteg**
Cafodd y genethod lwyddiant yn y De mewn cystadleuaeth Gymnasteg yn ddiweddar- daliwch ati genod a gobeithio eich gweld yn y gemau Olympaidd rhyw ddydd!



**Staff**
Rydym yn croesawu Mr Carwyn atom fel aelod o staff newydd - mae'n gyn-ddisgybl yn yr ysgol ac wedi graddio yn y coleg yn Lerpwl yn ddiweddar. Edrychwn ymlaen at gyd-weithio.

Croesawn hyfforddeion TAR a myfyrwyr Coleg Menai atom yn ystod y tymor.

**Nadolig**
Cadwch olwg ar dudalen Facebook yr ysgol am y newyddion diweddaraf am Ffair Nadolig a chyngerdd Nadolig yr ysgol. Os hoffech stondin yn y ffair, cysylltwch gyda phwyllgor ffrindiau a chyfeillion.

# Ysgol Llanrug

**Jambori Yr Urdd**
Bu plant y Cyfnod Sylfaen yn mwynhau cymryd rhan yn y jambori gyda channoedd o ysgolion eraill yn canu a symud ar Zoom.



**Arwyddo a Chân**
Daeth Sian a Ceri draw cyn y gwyliau i ddysgu symudiadau Maketon. Symudiadau sydd yn helpu plant di iaith i gyfathrebu. Bu y plant yn arwyddo i ganeuon poblogaidd ac mae modd ymarfer adref gan fod Sian a Ceri ar You Tube.

**Sialens Darllen**
Dyma'r plant gafodd eu gwobreuo yn y Sialens Ddarllen yn ystod yr haf. Da iawn chi gyd.

**Disgo**
Cafwyd disgo calan gaeaf poblogaidd cyn y gwyliau. Pawb wedi gwneud ymdrech ac yn ddigon o sioe.









**Hwyl Yr Hydref**
Roedd Madi ci yr ysgol yn awyddus i weld doniau creadigol y plant a chafwyd cystadleuaeth boblogaidd iawn. Daeth Neli a Cara yn fuddigol gyda'i lluniau ardderchog.

**Gwersi Cerdd**
Mae blwyddyn 2 bellach yn cael gwesi chwythbrennau gan Wasanaeth Cerdd William Mathias ac yn wir mwynhau y profiad.



**Sbarduno**
Daeth Sbarduno at flwyddyn 4 i gynnal sesiwn o arbrofion. Cafwyd llawer o hwyl gyda wyau ffrwydrol, germau cudd a chreubcraig siocled.

**Treborth**
Cafwyd diwedd tymor llawn hwyl wrth ymweld â choedwig Treborth o dan arweiniad Wild Elements. Cafodd y plant ymchwilio i'r amgylchedd, coginio ar y tân a chreu cymeriadau naturiol.

**Ymweliad Tgch**
Daeth wyneb cyfarwydd yn ôl i'r ysgol yn ddiweddar i rannu gwybodaeth am amineiddio. Cafodd y plant fodd i fyw yn defnyddio'r drone i greu gwaith digidol.




DODREFN A LLORIAU
PERKINS
●●● 01286 673535 ●●●
www.perkinsfurniture.co.uk
16 Stryd Porth Mawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1AG

ADVANCED VEHICLE WORKSHOP AVW
Arbenigwyr mewn ceir VW
Audi, Seast, Skoda a Porche
Gwasanaeth Lleol, Cyfeillgar a Phroffesiynol ers 1975
Which? Trusted trader
01286 673559
BOSCH Service
Parth 2, Stad Ddiwidiannol Cibyn, Caernarfon, LL55 2BD - www.AVWBosch.co.uk

# LLANRUG

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Carol ac Emyr, Dwyros ar ddod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd ŵyr bach iddynt sef Ari. Mae'n siŵr fod Siwan, ei chwaer fawr, chwech oed, wedi gwirioni efo'i brawd bach newydd.

**Gwellhad buan**
Cofion annwyl iawn at Mr Ronnie Evans, 4 Ffordd Glanffynnon sydd yn symol ar hyn o bryd ac yn Ysbyty Gwynedd. Gobeithio y bydd yn gwella'n fuan.

**Diolch**
Mae Gwenllian ac Adam, 2 Parc Canol am ddiolch yn ddiffuant iawn i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd ar enedigaeth eu merch fach Mabli Fflur Owen.

Hoffai Carolyn a John o Min Afon, Ffordd yr Orsaf ynghyd â'r plant Steven a Ffion, ddiolch am yr holl negeseuon o gysur maent wedi eu derbyn wedi colli mam, mam-yng-nghyfraith, nain a hen nain gariadus. Bu farw Mrs Phyllis Evans, gynt o 2 Rhes Cynfi, Deiniolen yn Ysbyty Gwynedd ar y 7fed o Hydref wedi salwch estynedig. Yn ogystal, hoffai'r teulu ddiolch am y rhoddion ariannol a fu'n mynd tuag at gefnogi Banc Bwyd Arfon. Diolch arbennig i Meinir Griffith a'r Canon Idris Thomas am gynnal a chysuro'r teulu yn ystod y cyfnod anodd yma.

**Brenda Jones – Treflys, Ffordd yr Orsaf**
Dymunai ei phriod Michael, Helen, Iola a John y plant a'r teulu ddiolch o waelod calon am yr holl garedigrwydd a chydymdeimlad yn ystod cyfnod mor drist yn dilyn marwolaeth Brenda. Diolch yn fawr iawn am yr holl gardiau, galwadau ffôn a rhoddion hael tuag at Feddygfa Waunfawr a Llanrug, a Ward Aran, Ysbyty Gwynedd. Diolch enfawr i'r Canon Idris Thomas am ei wasanaeth ac i gwmni E.W Pritchard, Llanberis am eu trefniadau trylwyr.

**Profedigaeth**
Yn sydyn yn ei gartref ar y 15fed o Hydref yng nghwmni Tesni ei wraig ffyddlon a chariadus, bu farw Rhys Thomas Evans (Rhys Cae Stanley), Gwelfryn, Llanrug. Brawd hoff Richard a Judy, Tudur a Mai, Eleri a Mois, John a Carol, Hywel a Marian, a brawd-yng-nghyfraith Dilwyn a Sherry. Roedd yn ffrind da i lawer. Colled enfawr i'w deulu a'i ffrindiau oll. Danfonwn ein cydymdeimlad atoch chi.



## GWOBR BAFTA CYMRU

Fe gofiwch i ni longyfarch Ffion Jon yn rhifyn mis Tachwedd, ar ei llwyddiant yng Ngwobrau BAFTA Cymru yng Nghaerdydd yn ddiweddar. Enillodd Ffion y wobr am y Gyfres Ffeithiol Orau gyda'r gyfres arbennig "Ysgol Ni: Y Moelwyn." Ffion oedd Cynhyrchydd/Gyfarwyddwr y gyfres a ffilmiwyd ar leoliad yn yr ysgol ym Mlaenau Ffestiniog ar ddechrau 2021, wrth i'r ysgol baratoi i ail agor ei drysau a chroesawu'r disgyblion a'r staff yn ôl yn dilyn y cyfnod clo. Llongyfarchiadau gwresog iti Ffion.

Ar y 27ain o Hydref ac yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, bu farw Islwyn Roberts, yn enedigol o Ddeiniolen ac yn ddiweddar o Peris, 56 Glanffynnon. Gŵr ffyddlon a chariadus Eryl a thad annwyl a chefnogol Leri a'i chymar Kevin ac Iolo a'i briod Aislinn. Taid balch a'r gorau yn y byd Sioned, Ffion, Bethan, Cara, Niamh, Aoibhinn a Uillin, hen daid tyner Elsi, Hari, Olivia ac Ada, a brawd-yng-nghyfraith hoffus Berwyn, Nerys ac Elwyn. Colled enfawr i'w deulu a'i ffrindiau oll. Rydym yn estyn ein cydymdeimlad llwyraf atoch fel teulu ac yn meddwl amdanoch yn y cyfnod anodd yma.

Yn annisgwyl yn Ysbyty Gwynedd ar yr 16eg o Hydref, bu farw Katherine Tyrrell, 3 Pen Cae. Gwraig gariadus Syd, mam amhrisiadwy Einir a'r ddiweddar Karon, mam-yng-nghyfraith hoff Iwan a llysfam Caroline ac Angela. Colled fawr a hynod drist i'w theulu a'i ffrindiau oll. Rydym yn estyn cydymdeimlad dwysaf atoch yn eich profedigaeth.

Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar y 18fed o Hydref, gynt o Bant Clyd, Tan y Coed, bu farw Thelma Bradley. Cymar annwyl Gareth, a phriod annwyl y diweddar Peter, a mam gariadus Hazel, Jonathan ac Andrew. Caiff ei chofio'n annwyl iawn gan ei holl deulu a'i chyfeillion. Danfonwn ein cydymdeimlad llwyraf atoch fel teulu.

Rydym yn danfon ein cydymdeimlad cywiraf at Sioned ac Aled o golli mam gariadus sef Rhian Mair Jacques, yn wreiddiol o Gaerfyrddin ac yn ddiweddar o Glanffynnon, a fu farw ar y 26ain o Hydref yn Ysbyty Gwynedd. Priod y diweddar annwyl Ernest, a nain falch Elenid.

**Capel y Rhos - Oedfaon Rhagfyr**
4ydd Rhagfyr - i'w drefnu
11eg Rhagfyr - Parch. Dr Geraint Tudur Jones
18fed Rhagfyr - Oedfa Nadolig
25ain Rhagfyr - Dim Oedfa

**Sant Mihangell yr Institiwt.**
Rhagfyr 4ydd am 10.00 a.m. Eglwys Caffi. Mentro i'r Nadolig.
Rhagfyr 18ed. 10.00 a.m. Cymun Bendigaid.
Rhagfyr 24ain 2.00 pm Gwasanaeth y Preseb.
Rhagfyr24ain 8.00 pm. Cymun y Nadolig.

**Cronfa Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023**
Mae Apêl Codi Arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, 2023 yn mynd ymlaen o nerth i nerth gyda nifer o weithgareddau byrlymus ac amrywiol wedi eu cynnal, a swm sylweddol o arian wedi ei godi. Dyma rai o uchafbwyntiau misoedd Hydref a Thachwedd.

Cafodd plant Ysgol Gynradd Llanrug ddiwrnod oedd wrth eu bodd ar 28ain Hydref pan roddwyd y cyfle iddynt brynu'r hawl i wisgo eu dillad eu hunain yn hytrach na gwisg ysgol. O mor braf, ac ar yr un pryd yn codi £227 tuag at yr Eisteddfod Genedlaethol.

Ar nos Wener, 28ain Hydref bu dathlu Calan Gaeaf, gyda Dafydd Whiteside Thomas yn arwain taith gerdded tuag at yr eglwys ac yn adrodd sawl hanesyn difyr oedd yn codi cryndod ar bawb, a datgelu rhai pethau go amheus ac arallfydol o fewn muriau mynwent y plwyf. I derfynu, mwynhaodd bawb swper blasus o lobscows yn y Sefydliad Coffa. Diolch i bawb fu'n rhan o'r trefnu, a chasglwyd £115 er budd y gronfa apêl.

Cynhaliwyd Taith Bws i Lerpwl ar 29ain Hydref; mae cwmni Bysiau Arvonia i'w gymeradwyo'n fawr am ei gefnogaeth i'r Apêl gan i'r cwmni roi bws yn rhad ac am ddim. Mwynhaodd pawb eu hunain yn y siopau ac yn y gwmnïaeth hyfryd ar y bws, a gwnaed dros £900 o elw ar y diwrnod.

Cynhaliwyd noson hwyliog o Gyri a Chwis yn Glyntwrog ar y 9fed o Dachwedd, er budd cronfa



**Llongyfarchiadau**
Nôl ar ddechrau mis Awst cafodd Catrin Beech, 16 oed o Lanrug, ei gwobrwyo drwy Ogledd Cymru fel *'Rising star of the Year'* gan Cymdeithas pêl-droed Cymru (FAW) am ei holl waith gwirfoddoli gyda pêl-droed Nathan Craig.

Yn ogystal cafodd Nathan Craig, hyfforddwr y clwb ei wobrwyo fel *'Fun football provider of the year 2022'* i Ogledd Cymru. Mae criw pêl-droed Nathan Craig yn hyfforddi disgyblion Ysgol Gynradd Llanrug ac yn rhedeg clybiau yn ystod y gwyliau ysgol.

apêl yr Eisteddfod y flwyddyn nesaf. Codwyd swm o £200 yn y noson hwyliog hon. Mawr ddiolch i Teresa a'r staff am baratoi'r bwyd blasus ar gyfer y timau i gyd, i Donna a Jane am drefnu'r cwis ac i Rhodri am fod yn gwis feistr y noson.

Dyma'r digwyddiadau sydd i'w cynnal ym mis Rhagfyr:

**Cyngerdd Adfent yng Nghapel y Rhos, Llanrug** ar nos Sul, 11eg Rhagfyr am 7.00 o'r gloch. Bydd y canlynol yn cymryd rhan: Côr Dre o dan arweinyddiaeth Siân Wheway, Seindorf Arian Llanrug, Ensemble Lleisiol Ysgol Brynrefail, Martha Nel - Ffliwt a Tim Ward - Unawdydd. Yr arweinydd fydd Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa). Pris tocyn - £5, Pensiynwyr - £3 a phlant yn ddi-dâl. Ar gyfer prynu tocynnau, cysylltwch â Caroline Jones ar 07799 468788, Yvonne Owen ar 07495 811212, Mair Huws ar 01286 672221 neu Mary Roberts ar 07877 542475. Yn ogystal, gellir prynu tocynnau wrth y drws ar y noson.

**Twrnament Dartiau yn Penbont** - nos Sadwrn, 17eg Rhagfyr. Dewch i fwynhau eich hunain wrth chwarae dartiau. Mae'n argoeli i fod yn noson llawn hwyl ac yn gyfle i chi ddangos eich doniau gyda'r dartiau! Am fwy o fanylion cysylltwch â Bethan Roberts ar 07796 374316.

Cofiwch ddarllen tudalen gymunedol Llanrug – Llanrug Ddoe a Heddiw ar Gweplyfr, am fwy o hanes digwyddiadau**.**

**Sgwad Rhanbarthol Gogledd Cymru**

Dewiswyd Cynan Holdsworth o Tyn y Buarth, Llanrug (ail o'r dde, rhes flaen) i sgwad Rhanbarthol Gogledd Cymru. Mi fydd Cynan yn ymarfer gyda'r tîm am y flwyddyn nesaf ac yn chwarae yn erbyn tiamu o'r de i'r dyfodol.

## SUL Y COFIO

Trefnwyd a chynhaliwyd y Gwasanaeth gan Mair Huws a Menna Williams gydag aelodau Band Pres Llanrug. Rhoddwyd y Torchau gan Cyngor Cymunedd Llanrug a'r Sefydliad Coffa.

Dyma dair baner addas ar gyfer Sul y Cofio yn Arwelfa, Llanrug - Cymru y Pabi Coch ac Wcráin

Dyma rai wnaeth ddod i Sefydliad Coffa Llanrug am 9 y bore.









**Ffair Nadolig Ysgol Gynradd Llanrug**

Cynhelir Ffair Nadolig yn neuadd Ysgol Gynradd Llanrug ar nos Iau, Rhagfyr 1af, 6-8 y.h. Mynediad £1, plant dan 12 am ddim. Llu o stondinau, gweithgareddau a lluniaeth. Croeso mawr i bawb.

**Clwb Clychau'r Grug**

Ar 9fed Tachwedd, cyfarfu'r genod yn Y Felin, Llanrug, a braf oedd cael clonc a lluniaeth a sgwrs am yr hwyl a fu. Ar 7fed Rhagfyr, byddwn yn cyfarfod yn 'Villa Marina', Caernarfon am 12.15PM gyda diolch i Heulwen ac Ann Thomas am wneud y trefniadau. Ar 10fed Rhagfyr bydd Gwyneth yn dathlu pen-blwydd arbennig. Llongyfarchiadau iddi. Anfonwn ein cofion anwylaf at Glenys a Siencyn yn Llanharan.

**Merched y Wawr**

Ar noson wyntog a gwlyb estynnwyd croeso cynnes i bawb gan ein Llywydd Mair Huws. Roedd pawb yn hynod falch o weld Megan yn ôl yn ein plith ac yn barod i gyfeilio i Gân y Mudiad. Dymunwyd pen-blwydd hapus i Carys Wyn, gan ddymuno gwellhad buan i'w mab Guto, yn dilyn triniaeth i'w ben-glin. Braf oedd cael croesawu aelod newydd sef Carol Ann.

Cydymdeimlwyd ag Eirian o golli ewythr hoff o Lanberis a chydymdeimlir â Mair, ein Llywydd, o golli ei chefnder o Rostryfan. Anfonir ein cydymdeimlad dwysaf ag Eryl a'r teulu yn eu profedigaeth o golli Islwyn, priod, tad, taid a hen daid hoff.

Ynghanol y tristwch daeth llygedyn o lawenydd gan fod Eryl bellach yn hen nain i Mari Grug.

Cafwyd adroddiad o Faterion Rhanbarthol gan Bethanne, cynrychiolydd y Gangen o Bwyllgor Celf a Chrefft. Gwerthfawrogir ymroddiad aelodau o'r Gangen am drefnu nifer o weithgareddau diddorol tuag at Gronfa Eisteddfod Genedlaethol, Llŷn ac Eifionydd. Atgoffir pawb am gystadlaethau'r Ffair Aeaf ar 28ain a 29ain o Dachwedd.

**Cynllunio Cerdyn Nadolig 2023**

1. Cynllunio cerdyn unrhyw gyfrwng. Rhaid i'r cynllun fod yn wreiddiol ac yn addas ar gyfer ei atgynhyrchu. Mae'n rhaid mai eich eiddo chi yw'r gwaith gwreiddiol. Bydd y buddugwyr yn cydweithio gyda'r Wasg i argraffu'r cardiau.

2. Cyfansoddi cerdd neu farddoniaeth wreiddiol i'w roi o fewn y cerdyn. Rhaid i'r cardiau a'r enwau gyrraedd y Ganolfan Genedlaethol erbyn <u>10fed Rhagfyr</u>, 2022.

Gwraig wadd y noson oedd hen ffrind i ni bellach, sef Susan Land o Gaernarfon, sy'n arbenigwraig ar Osod Blodau. Roedd pawb ohonom yn gwybod bod orig hwyliog o'n blaen gyda sawl aelod o'r gangen wedi mynychu dosbarthiadau 'Trefnu blodau' yma yn y Sefydliad pan oedd





cyrsiau cymunedol yn bodoli. Gan fod Susan yn berson mor hwyliog â llawn ffraethineb, yn ei hacen 'Cofi' go iawn, cafwyd arddangosfeydd Nadoligaidd hyfryd ganddi, gyda phawb yn llaw edmygedd a chwerthiniad iach. Llwyddodd i wneud 5 math o gyflwyniadau chwaethus, torch o goed pîn a moch coed, rhuban ac afalau coch a pheli aur i'w arddangos ar y drws ffrynt. Yna bag bach Nadoligaidd a photyn yn llawn addurniadau. Roedd addurn o foch coed yn werth i'w weld ac yn un y gellir ei ddefnyddion am nifer o flynyddoedd. Dotiai pawb at yr addurn o frigau a blodau gwynion. Diolchwyd i Susan am noson mor hwyliog, llawn edmygedd gan Ann Lloyd. Diolch yn fawr i Susan hefyd am roi'r 5 addurn fel Raffl y Noson a chan gyflwyno un i Myfanwy, Haf ac Eryl gan anfon ein cofion anwylaf atynt. Enillwyr lwcus y ddau osodiad arall oedd Linda ac Avril.

Byddwn yn dathlu'r Nadolig yn 'Y Wal' yng Nghaernarfon ar 13eg Rhagfyr, a bydd angen i bawb gyrraedd yno erbyn 5 o'r gloch.

Diolchwyd i'r genod te sef Heulwen, Gwenda a Carys Wyn. Genod Penisarwaun fydd yn gofalu am y baned ar 10fed Ionawr, 2023.

**Teyrnged 'Cofio Rhys'**

Yn dawel yn ei gartref, Gwelfryn Llanrug, bu farw Thomas Rhys Evans. Roedd yn 71 oed. Roedd yn briod â Tesni ac yn frawd i Richard, Tudur, Eleri, John a Hywel.

Ganed Rhys ar y 5ed o Ebrill 1951 yn un o chwech o blant i Richard Thomas a Menna Evans, fferm Dinas, Llanwnda.

Roedd Rhys yn gymeriad agos-atoch a llawn hiwmor ac er iddo ddioddef sawl anhwylder fel diffyg anadl a chlefyd y siwgr, llwyddodd i fyw bywyd llawn yn ddidrafferth ar hyd y blynyddoedd.

Ac yntau oddeutu 14-15 oed, dioddefodd salwch ar ei ysgyfaint ac yn dilyn llawdriniaeth faith, bu'n rhaid iddo ddygymod a byw weddill ei oes ag un 'lung'. Er ei anfantais ni adawodd hynny i amharu ar ei ffordd o fyw.

Yn dilyn marwolaeth annisgwyl Richard Thomas Evans ei dad, ymadawodd y teulu â Fferm Dinas ac ymgartrefu yn nhyddyn Cae Stanley ar gyrion y Bontnewydd, ac fel 'Rhys Cae Stanley' ei hadwaenid gan bawb wedi hynny.

Yn ddiweddarach yn 1975, ymadawodd y teulu â Chae Stanley a symud i gartref newydd, sef Hirnant yn Stad-y-Bryn, Bontnewydd lle bu Rhys fyw am flynyddoedd wedyn.

Pennod newydd yn hanes Rhys oedd cwrdd â Tesni, ac ar y 7ed o Ebrill 1990, unwyd y ddau mewn priodas yn Eglwys Sant Gwyndaf, Llanwnda gyda'r wledd yn dilyn yng ngwesty Carreg-y -Frân Llanfairpwll. Yn dilyn y briodas ymgartrefodd y ddau yn Gwelfryn, sef cartref Tesni yn Llanrug ac yno dan ofal a chariad arbennig ei wraig, treuliodd Rhys flynyddoedd dedwydd a hapus yn ei chwmni.

Un o hoff bleserau Rhys a Tesni fyddai mynychu'r Sioe Frenhinol yn Llanelwedd, "Y Roial Welsh" chwedl yntau, a byddai yna hen edrych ymlaen ganddynt i dreulio wythnos yn y sioe arbennig honno yn yr haf. Mwynhad arall gan y ddau oedd picio i Gricieth yn y fan fach wen i gael 'Chips a Fish' ar lan y môr a'u mwynhau tra'n gwylio'r tonnau yn chwyrlio i'r lan.

Mae cymeriadau fel Rhys yn rhai prin iawn a dydi dod ar draws rhywun fel fo ddim yn digwydd yn rhy aml bellach! Dyn tractor, dyn J.C.B. dyn lli gadwyn a dyn Daily Post, dyna oedd Rhys, ond yn fwy na dim dyn caredig a hael ei gymwynas a phob amser mor barod i helpu a chamu i'r adwy pan fyddai rhywun angen cymorth. Yr hyn a erys, yn fwy na dim, yn y cof amdano yw ei garedigrwydd a chymwynasgarwch at bawb, yn enwedig rhywun yn cwyno neu dan anhwylder. Byddai Rhys yn siwr o alw heibio iddynt a phob amser gyda rhywbeth yn ei law boed yn ffrwyth, llysiau neu sudd oren.

Mae llawer o hanesion difyr a digri am Rhys ond y cwestiwn yw ble i ddechrau, gan fod cymaint i'w ddweud. Rhywbeth hollol gyfarwydd fyddai clywed y ffôn yn canu ambell gyda'r nos â'r llais cyfarwydd ar ben arall y lein yn gofyn, "Sud mae arnoch chi am wyau? Ylwch! mi adawa'i hannar dwsin mewn bocs wrth y drws i chi a bendith tad cofiwch amdanyn nhw rhag i rwbath ga'l cyfla i roi ei bump arnyn nhw! O! a tra dwi wrthi, sgynnoch chi ddigon o datws a moron aballu? Mae gen'i faint fynir yng nghefn y pic-ŷp os leciwch chi gael rhei!" Yna bron ar yr un gwynt "Mae 'na dderwan wedi dŵad lawr yng nghaea Penrhos a dw'i am fynd yno reit fachog efo chainsaw i dorri dipyn arni a mi daflai docyn o logs dros y giat i chi pan fyddai'n pasio!"

Un stori fach ddigri am Rhys yw yr un amdano yn dod a cheiliog dandi adre yng nghefn y fan a'i roi yn y cwt wrth dalcen y tŷ. Hanner awr wedi pedwar yn y bore a'r hen ddandi yn cymryd yn ei ben i ddechrau canu ac yn deffro trigolion trwm-gwsg Stad-y-Bryn. Un o'r cymdogion yn gofyn i'w fam yn y bore. "Glywsoch chi rhyw geiliog yn canu rywdro ganol nos neithiwr Mrs Ifas? Y cythral wedi ddeffro a styrbio pawb yn y tŷ 'cw!" Mrs Ifas yn mynnu na nid o'i gardd hi roedd y canu yn dod ond o gyfeiriad fferm Pandy oedd dafliaid carreg dros yr afon â Stad-y-Bryn! Cael gwared a'r hen geiliog dandi oedd yr hanes a hynny drwy ei ollwng i ganol nifer o ieir a gwyddau mewn cae yn Llanwnda.

Cofiaf un digwyddiad pan roedd Rhys a minnau yn mynychu cynhebrwng cyfaill mewn capel bychan yn y wlad. Yno yr oeddan ni ynghanol y criw mud yn aros yn amyneddgar i'r Parchedig agor y gwasanaeth. Ynghanol y distawrwydd llethol, trodd Rhys at ddynes oedranus oedd yn eistedd yn y sedd tu ol i ni a meddai wrthi'n ddistaw, "Sud o'dd y moron yn plesio Musus Wilias?" "BE?" meddai hithau yn drwm ei chlyw. Rhys yn trio wedyn. "Gofyn ydw'i os oedd y moron wedi plesio?"."Be ddeudsoch chi? Tydwi ddim yn ych clywad chi!" Mi symudodd Rhys yn beryglus o agos i glust yr hen wraig a gweiddi â'i holl nerth gan beri i bawb yn y gynulleidfa droi i edrych : "OEDD Y MORON YN PLESIO TA BE?" "EH, CORON DDEUDSOCH CHI ? meddai hithau,"NACI, NACI! MORON! " "O DACIA! Y MORON 'DACHI'N FEDDWL? OEDDA'N TAD, ROEDDAN NHW'N LYFLI!"

Mae llawer mwy o hanes a helyntion am Rhys, ond wir mae angen cyfrol drwchus i gofnodi y cwbl.

Diolch Rhys am yr holl garedigwydd a chymwynasgarwch dros y blynyddoedd. Ond yn fwy na dim, diolch am gael dy adnabod a'r fraint o dy gael yn ffrind.

**Gwilym Morris Jones**

## BRYNREFAIL

**Sefydliad y Merched**

Cawsom fwynhau 'Yoga Cadair' yng nghyfarfod Hydref gyda Elie Evans yn cyfarwyddo y sesiwn o ymarferion gyda'i llais swynol.

Darllenwyd llythyr y mis gan Pat Parry a chyflwynodd hefyd y trefniadau ar gyfer y cyfarfodydd i'r dyfodol. Roedd pawb yn falch o weld Pat Jones wedi troi i mewn ar derfyn y cyfarfod ac yn wedi gwella yn dilyn ei damwain.

Bydd cyfarfod Tachwedd - noson o Bingo Nadolig - yn hwyrach o wythnos nag arfer sef ar y 24ain o'r mis.

Cofier hefyd am y Cinio Nadoligyng Ngwesty'r BlackBoy, yng Nghaernarfon nos Iau, 15fed Rhagfyr am 6 o'r gloch.









# Ysgol Brynrefail

**Diwrnod Sgiliau Ysgol Brynrefail - Hydref 2022**

Ar y dydd Mercher olaf ond un cyn gwyliau'r hanner tymor cawsom ddiwrnod prysur iawn yn Ysgol Brynrefail. Roedd Hydref 19eg, sef diwrnod sgiliau cyntaf y calendr ysgol, yn ddiwrnod llwyddiannus, hwyliog a phrysur. Cyfrifoldeb myfyrwyr Blwyddyn 12 oedd paratoi diwrnod o weithgareddau i Flwyddyn 7 fel rhan o'r gwaith Bac. Eu briff oedd datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd y disgyblion mewn modd hwyliog a bywiog. Gweithiodd y myfyrwyr yn galed iawn drwy'r dydd yn cynnal gweithgareddau hynod greadigol fel '*Murder Mystery*', drama a chwarae rôl ar thema Calan Gaeaf, helfa drysor a saethu 'nerf guns'! Mwynhaodd y disgyblion yn fawr iawn gan roi adborth cadarnhaol iawn i'r 6ed.

Drama a pherfformio oedd thema diwrnod Blwyddyn 8 a chafodd y disgyblion nifer o wahanol brofiadau yn y maes Celfyddydau Mynegiannol - maes pwysig iawn sy'n codi hyder a rhoi cyfle i ddisgyblion fynegi eu hunain yn greadigol. Daeth Iola a Chloe atom o gwmni dawns Hudoliaeth; roedd cyfle i fod yn rhan o weithdy roc yn y *Melody*; roedd cyfle i greu fideos meimio i ganeuon enwog a chyfle i ddysgu mwy am '*Shakespearean Insults*'. Ar ddiwedd y dydd daeth pawb at ei gilydd yn y neuadd chwaraeon i wylio rhai perfformiadau.

Cafodd Blwyddyn 9 ddiwrnod o weithgareddau STEM sef maes dysgu Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg. Roedd tri gweithgaredd yn cylchdroi yn ystod y dydd, sef rasio Fformiwla 1, Lego Mindstorms ac arbrofion gwyddonol.

Gyrfaoedd a beth i'w wneud nesaf oedd thema'r diwrnod i ddisgyblion Blwyddyn 10. Dyma gyfle pwysig i'r disgyblion ddechrau meddwl am beth maen nhw eisiau ei wneud yn y dyfodol a chael blas ar wahanol swyddi sydd allan yna yn yr ardal leol a thu hwnt. Diolch i Gyrfa Cymru am gydweithio gyda'r ysgol i sicrhau profiadau gwerthfawr iddynt.

Cafodd disgyblion Blwyddyn 11 ddiwrnod i ganolbwyntio ar sut i adolygu'n llwyddiannus. Fe rannodd rai o athrawon a myfyrwyr Blwyddyn 12 dechnegau adolygu gyda nhw ac roedd gweithdai yoga, bwyta'n iach a chwarae ar gastell neidio wedi eu trefnu iddynt hefyd. Mae hon yn flwyddyn allweddol i'r disgyblion ac mae cael y balans rhwng gweithio'n galed yn academaidd ac edrych ar ôl eu hunain yn feddyliol ac yn gorfforol yn hollbwysig er mwyn gallu llwyddo yn eu harholiadau.

Mae hon yn flwyddyn gwbl allweddol i fyfyrwyr Blwyddyn 13 felly roedd cyfle iddynt barhau gyda'r ymchwil unigol, sy'n cyfri am hanner eu gradd Bac, a chyfle i gefnogi disgyblion iau mewn gweithgareddau ar draws yr ysgol. Roedd cyfraniad nifer ohonynt yn allweddol i lwyddiant y diwrnod a'r athrawon a'r disgyblion iau yn gwerthfawrogi cefnogaeth y rhai a ddaeth i helpu. Rydym yn gobeithio felly bod diwrnod sgiliau cyntaf Ysgol Brynrefail wedi bod yn ddiwrnod buddiol a chofiadwy i'r disgyblion.













**Diwrnod Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth**

Mae cefnogi Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth yn hen arfer gennym bellach yn Ysgol Brynrefail. Cafwyd cyfle i bawb gefnogi trwy wisgo coch ar ddydd Gwener 15fed Hydref. Rydym yn cefnogi'r elusen yma yn flynyddol gan ein bod yn ysgol sydd yn erbyn unrhyw fath o ragfarn tuag at bobl ac yn yr achos yma yn gwrthwynebu hiliaeth o unrhyw fath.

Diolch i'r holl ddisgyblion am gefnogi'r diwrnod pwysig yma. Rydym yn falch ein bod wedi codi £420 ar y diwrnod i gefnogi'r elusen yma sy'n gweithio i sicrhau bod pob person waeth beth yw lliw ei groen yn cael ei drin yn deg ac â pharch bob amser.

Ar yr un diwrnod daeth Ameer o Hansh draw atom i gynnal gweithdy gyda disgyblion blwyddyn 8 ar faterion yn ymwneud â hiliaeth hefyd – mwynhaodd y plant y sesiynau yn fawr!








**GwyrddNi**

Ar 18fed Hydref aeth Pwyllgor Cymuned yr ysgol ar ymweliad arbennig â gwahanol fannau yn yr ardal sydd yn gwneud gwaith da yn ymgeisio i ddatrys rhai problemau amgylcheddol. Trefnwyd y diwrnod gwerth chweil mewn partneriaeth gyda GwyrddNi a chafwyd ymweliadau cofiadwy â Thyddyn Teg ger Bethel, Caban Brynrefail, Pen Llyn ac Ynni Padarn Peris. O ganlyniad i'r ymweliadau bydd y Pwyllgor Cymuned yn eu cyfarfod nesaf yn meddwl am ddefnyddio rhai o'r syniadau a welwyd heddiw fel datrysiadau yn ein hysgol ni.

# Cystadleuaeth Helfa Drysor Menter Fachwen

Dyma gyfle gwych i chi geisio ennill gwobr mewn cystadleuaeth Helfa Drysor a gynigir gan Fenter Fachwen.

Yr unig beth sy'n rhaid i chi ei wneud yw adnabod y lluniau isod sydd wedi eu rhifo o 1 - 10. Byddwch yn ofalus, mae rhai yn haws nag eraill a phob un wrth gwrs yn nalgylch yr Eco.

Y wobr fydd tocyn £20 i'w wario yn siop Menter Fachwen. Dylai'r atebion ddod i law erbyn dydd Gwener 6ed o Ionawr 2023.

Gallwch anfon eich atebion drwy'r post i'r cyfeiriad isod:

Cynllun Cerdded a Darganfod,
Tŷ Llundain, Cwm y Glo, Caernarfon,
Gwynedd LL55 4DT neu trwy e-bostio:
garethroberts754@yahoo.co.uk

Pob lwc i chi i gyd! Caiff yr atebion ac enw'r enillydd eu cyhoeddi yn rhifyn mis Chwefror yr Eco.

menter fachwen
y CYNLLUN CERDDED A DARGANFOD
the WALK AND DISCOVER PROJECT































## Cornel Ddarllen

### 10 uchaf Hydref Palas Print

1. **Cwpan y Byd 2022 Qatar**, Dylan Ebenezer - llyfr sy'n cynnwys gwybodaeth am bob dim sy'n digwydd, a siart wal.

2. **Sgen I'm Syniad**, Gwenllian Ellis - Llyfr am ffrindiau, teulu, tyfu fyny... a llawer iawn mwy.

3. **Llyfr Lliwio Pêl-droed Cymru** -

4. **Y Lôn Hir Iawn** - cyfrol o farddoniaeth gan fardd ifanc o'r Felinheli, Osian Wyn Owen

5. **Dan Gysgod y Coed** - y diweddaraf mewn cyfres o nofelau ditectif gan gyn-blismon o Ynys Môn

6. **Ymadroddion Môn** - casgliad o ddywediadau rhigymau a geiriau a gasglwyd gan John Gwilym Jones Llannerchymedd, dros gyfnod o 40 mlynedd.

7. **Rhaid i Bopeth Newid** - Dafydd Morgan Lewis sydd wedi golygu cyfrol i ddathlu 60 mlynedd o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg

8. **Cwlwm**, Ffion Enlli - nofel am ferch ifanc yn stryffaglu trwy ei hugeiniau yn Llundain, ac yn cwestiynu ei hunaniaeth a sut mae'n gweld ei hun fel Cymraes yn y byd

9. **Sugar and Slate** - Charlotte Williams, hunangofiant a thaith greadigol am sut beth oedd hi i dyfu fyny yn Gymraes ddu yn Llandudno yn y 60au. Cofiant onest sydd dal yn berthnasol heddiw

10. **Cerdded y Caeau** -Rhian Parry sy'n ein tywys drwy gaeau i ddatgelu'r hanes a'r cyfrinachau y tu ôl i enwau lleoedd, enwau ffermydd ac enwau caeau Ardudwy

Wrth gwrs, mae 10 ucha' Hydref yn adlewyrchu'r diddordeb sydd gan Gymru yng Nghwpan y Byd eleni. Daeth 2 gyfrol arall i law ddechrau mis Tachwedd, sef **Y Wal Goch**, casgliad o ysgrifau, cerddi, hanesion gan aelodau'r wal goch dan olygyddiaeth Ffion Eluned, ac argraffiad newydd o **Red Dragons**, Phil Stead, cyfrol sy'n olrhain hanes tîm pêl-droed Cymru wedi'i ddiweddaru i gynnwys y daith i Qatar.


Wrth i ni nesu at y Nadolig mae dewis eang o lyfrau newydd yn ein cyrraedd yn ddyddiol ar gyfer plant ac oedolion, gan obeithio bod 'na rhywbeth at ddant pawb yn y siop! Mae llyfr bob amser yn anrheg da, a chymharol resymol, i'w roi fel anrheg Nadolig. Bydd y siop ar agor o hyn tan y Nadolig o ddydd Llun - Sadwrn 10-5, a tan 7yh ar nos Iau i alluogi pobl i ddod i siopa pan yn gyfleus, ac wrth gwrs, 'dan ni ar ben arall y ffôn, ac yn ateb e-byst yn ddyddiol, a gallwch archebu o'n gwefan ar unrhyw adeg sy'n gyfleus i chi.

*Eirian James*

# Llên Natur

## Bert a'i fwthwl sinc

Cefais fore difyr iawn yng nghwmni'r diweddar Bert Parry, Llanberis yn ôl yn 2008. 'Dach chi'n cofio'r hen Bert mae'n siŵr, chi bobl Llanberis. Sôn am dinpan forasg oeddan ni (stori arall!). Dyma bigion o'r sgwrs a recordiais gyda'i ganiatâd. Dyma beth oedd gan Bert i ddweud am rywbeth oedd o'n galw'n morthwyl sinc (neu'r 'mwthwl sinc' ar ei 'lafar' ef). Mae llais Bert i'w glywed trwy'r ddolen hon ar wefan Llên Natur: www.llennatur.cymru/Llais



D: Welist ti ym Mwletin Llên Natur am y Dinpan Foresg (testun sgwrs flaenorol am y glustog i ben-glinio arno i ddweud padar yn y Capal) ...beth ddoth i dy feddwl di?


Bert: ...**oni'n gneud mothwl sinc, mothwl sinc dan i'n ddeud 'de - *rattle* yn Saesneg**

D: Tegan plentyn ydi hwnnw ia?

Bert: **Ia neu'n addurn hefyd... wedi ei wneud allan o frwyn, well efo ŷd wrth reswm, mae o'n gletach ac yn well...a tydwi'm yn gwbod lle ddysgish i i wneud, dwi di 'neud o ers pan o'n i'n hogyn bach...**

D: Pam 'sinc' dŵad?

Bert: **Dwi'm yn gwbod. Tasa na frwyn yn fa'ma faswn i'n gwneud un rŵan i chdi - eiliad faswn i yn ei wneud o....dwi'n dal i gofio sut i neud o, plethu'r brwyn, cael brwyn go dda, go hir... rhoi cerrig neu beth bynnag i mewn iddo fo... efo ŷd mae'n gneud sŵn gydol yr amser a fedri di farnisho nhw ...ond efo brwyn maen nhw'n mynd yn feddal a ma'r sŵn yn mynd allan ohonyn nhw ac maen nhw'n hongian ac yn mynd yn flêr...**




Dywedodd Bert hefyd ei bod hi'n amhosib gwneud morthwyl sinc o ŷd bellach gan nad yw ŷd yn tyfu'n ddigon tal, cymaint o fridio a fu ar gyfer had ar draul coes.

Mi ysgogodd y sgwrs hon ychydig o ddiddordeb ar y pryd gan un o gyfoedion Bert. Dyma fwy am y morthwl sinc gan Ieuan Bryn, ar gof a chadw ym Mwletin Llên Natur.

**Pan fyddwn i'n hogyn, mi fyddwn i'n mynd am wyliau haf at fy Nain i Glwt-y-Bont ger Deiniolen - yr un ardal, fwy neu lai, â milltir sgwâr Bert Parry. Roedd yna chwarelwr yn byw drws nesa i fy Nain, ac un o'r pethau y bydda fo'n ei wneud i'n difyrru oedd gwneud morthwyl sinc i ni. Does gen i ddim cof ei fod o'n rhoi cerrig mân na dim byd arall yn y 'morthwyl'. Felly, diddorol iawn oedd cael gwybod am yr arferiad cyflawn gan Bert. Ia, math o *ratl* oedd o, sef 'rygaryg'. Yr enw hwnnw'n siŵr o fod yn disgrifio'r sŵn y byddai'r morthwyl sinc yn ei wneud pan oedd yna gerrig mân ynddo fo (cofio drama Wil Sam, 'Pyrsi Rygarug'?).**

Os mai enw arall ar 'forthwyl sinc' yw 'rygarug', nid cyd-ddigwyddiad mo hynny. Mi fydd 'rygarug' yn golygu rhywbeth gwahanol iawn i rai ohonoch - a dim byd i eraill mae'n siŵr, mwy nag y mae tinpan forasg neu mwthwl sinc! Bydd rhaid aros tan y mis nesaf i wybod mwy am y 'rygarug' arall yna.

***Duncan Brown***

# Ti'n cofio mis Rhagfyr 40…30…20…10?

Wyddoch chi fod gwefan *Eco'r Wyddfa* - **www.ecorwyddfa.co.uk** - yn drysorfa o atgofion am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn ein bro am 46 o flynyddoedd? Os ewch chi i'r adran 'Archif' ar y wefan fe gewch weld yr holl hen rifynnau. Ewch i gael cip i weld os yw'ch llun chi yno, pa newyddion gyrhaeddodd y tudalennau blaen neu beth oedd yn digwydd ym mis eich geni!

Er mwyn rhoi blas i chi, dyma ychydig o bytiau o gynnwys *Eco'r Wyddfa* mis Rhagfyr 40, 30, 20 a 10 mlynedd yn ôl…

**Rhagfyr 1982**
Rhifyn 76. Pris yn 20c am 28 tudalen.

- Tudalen flaen eisteddfodol iawn, gan longyfarch Eurig Wyn, Carys Wyn Jones, Elliw Haf Iwan ac Idwal Williams ar eu gorchestion, ond hefyd yn rhoi rhag-hysbys o Eisteddfod Gwaun Gynfi a ffug-eisteddfod bro'r Eco.


ECO'R WYDDFA
MAE O'N LLAWN O HYSBYSEBION!
EISTEDDFODOL
MEDAL EURIG
FFUG EISTEDDFOD BRO'R ECO
CADAIR CARYS
CWPAN ELLIW HAF
TLWS IDWAL

- Cais, neu wahoddiad, gan drefnwyr yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llangefni yn 1983 i fudiadau neu griwiau fyddai â diddordeb i ymgeisio am y cytundeb swyddogol i drefnu a rhedeg meysydd parcio'r brifwyl. Dyna i chi joban anodd a di-ddiolch, a chwarae teg i bwy bynnag ymgymrodd â'r gwaith!
- Dadorchuddiwyd cerflun y tu allan i bencadlys Cyngor Gwynedd yng Nghaernarfon er mwyn coffau 700 mlynedd ers marwolaeth Llywelyn ein Llyw Olaf. Glen Hellman o Ystrad Meurig yn Nyfed oedd yr artist, ac fe greodd ddehongliad o Eryr Eryrod Eryri allan o aliminiwm sy'n eistedd ar ben colofn llechfaen 6 medr o uchder a gyflwynwyd gan Chwarel y Penrhyn, Bethesda.
- Faint o ddisgyblion Ysgol Llanrug sy'n cofio ymweliad disgyblion Ysgol Tonyrefail nôl yn '82? Rhyw fath o 'daith gyfnewid' a drefnwyd rhwng y ddwy ysgol, a chawn hanes ymweliad y criw o Donyrefail yn dod am dridiau i Lanrug. Trefnwyd dwy gêm bel-droed a phêl-rwyd ond roedd yn gyfle hefyd i rannu profiadau o fyw a bod mewn cymuned Gymraeg ei hiaith.
- Dyma i chi griw o lanciau ifanc gafodd gyfle i gael eu hyfforddi gan yr un gŵr a fu'n hyfforddi'r chwaraewr snwcer enwog, Steve Davies. Roedd Mr Bob Humphreys yn teithio o'i gartref yn Llandudno i Ddeiniolen bob nos Wener i hyfforddi'r criw, ac roedd y diolch i Mr Dafydd Wyn Jones am drefnu'r gwersi. Rhag ofn nad ydych yn siwr pwy ydi'r hogia yn y llun, dyma'r enwau - Malcolm Allen, Gareth Hughes, Carwyn Thomas, Elfed Williams, Bryn Jones, Dewi Williams, Dewi Lewis, Haydn Williams, David Jones, Jason Jones, Ian Roberts, Guto Jones.



**Rhagfyr 1992**
Rhifyn 185. Pris yn 25c am 28 tudalen.

- Roedd neuadd Ysgol Gwaun Gynfi dan ei sang ar brynhawn Sadwrn 21ain Tachwedd er mwyn cofio a dathlu bywyd a gwaith y dramodydd o Ddeiniolen, Gwenlyn Parry. Trefnwyd Gŵyl Gwenlyn gan yr Academi Gymreig, ac roedd nifer o siaradwyr nodedig yno'n cyfrannu. Comisiynwyd plac i goffau Gwenlyn i'w osod ar y wal yn Ysgol Gwaun Gynfi.


Dosbarth y Babanod a Standard 1 Ysgol Tan y Coed yn 1930 yng ngofal Miss Foulkes

- Penodwyd Swyddog Datblygu cyntaf Antur Padarn, sef Robin Jones o Fethel. Ar glawr yr Eco fe welwch Robin yn cael ei groesawu gan Glyn Tomos, Cadeirydd y Fenter.
- Mae nifer o atgofion a lluniau o hen Ysgol Tan y Coed, Penisarwaun, yn y rhifyn hwn, ac mae gwir werth i chi droi at y rhifyn i ddarllen cyfraniad 'Y Gwalch'. Mae o neu hi'n darlunio'i atgofion o'r Ysgol mor lliwgar a chofiadwy – trowch ati i ddarllen.
- O dan 'newyddion Penisarwaun' cawn hanes agor yr Ysgol Gymunedol newydd yn y pentref, gyda'r disgyblion yn trosglwyddo o Ysgol Tan y Coed.


ECO'R WYDDFA
PENODI SWYDDOG DATBLYGU
'GWENLYN YN DOD ADRA'
PRENTIS GORAU



**Rhagfyr 2002**
Rhifyn 295. Pris yn 40c am 28 tudalen.

- Dwy ganolfan newydd sbon yn agor – Caban y Cwm yng Nghwm-y-Glo a Thŷ Elidir yn Neiniolen. Caffi rhyngrwyd oedd Caban y Cwm fel y cofiwch, a daeth merch y pentref, Maureen Rhys, yn ôl i arwain yr agoriad swyddogol. Agorwyd Tŷ Elidir fel canolfan dysgu gydol oes, ac yno hefyd y lleolwyd y llyfrgell, ystafelloedd cyfarfod a swyddfeydd oedd ar gael i gymdeithasau lleol. Yn y llun gwelwch Sion Roberts gyda'i ddyluniad buddugol ar gyfer logo'r adeilad.
- Roedd hi'n dymor yr eisteddfodau bach, a bu Eisteddfod Bentref Penisarwaun yn llwyddiant, gyda'r neuadd


ECO'R WYDDFA

Daw rhifyn y Nadolig o'r wasg ar 19 Rhagfyr

Hwb i Galon Pentrefi'r Fro

yn llawn a nifer uchel iawn yn cystadlu. Llwyddiant hefyd oedd Eisteddfod Bethel, gyda llond tudalen o enwau'r buddugwyr. Mae newyddion Ysgol Brynrefail




hefyd yn llawn o luniau o'r disgyblion buddugol yn eisteddfod yr ysgol.

- Hannah Medi o Gaeathro yn fuddugol wrth gynrychioli tîm Cymru ym mhencampwriaeth Prydain. Ar sail ei llwyddiant, cafodd Hannah ei dewis i garfan Prydain.

**Rhagfyr 2012**
Rhifyn 405. 50c am 28 tudalen.


ECO'R Wyddfa

LLIFOGYDD LLANBERIS

- Fel y gwelwch o'r llun ar glawr y rhifyn, fe ddioddefodd pentrefwyr Llanberis o nerth byd natur gyda llifogydd difrifol.
- Mudiad Dyfodol i'r Iaith yn gwahodd pobl i gyfrannu £10 y mis o dâl aelodaeth er mwyn sicrhau bod y mudiad yn gallu cyflogi swyddogion er mwyn ymgyrchu dros ddyfodol yr iaith Gymraeg.
- Os craffwch chi'n iawn ar y llun mi welwch fod 'LEE VR 1887' i'w weld ar ben Moel Rhiwen. Hen lun o bentref Ebenezer (Deiniolen) ydi hwn, ac mae'n dangos sut oedd teulu Assheton Smith, perchnogion Stad y Faenol, yn dathlu hanner can mlynedd ers coroni'r Frenhines Victoria. Mae'n debyg eu bod wedi gofyn i'w gweithwyr dorri coed er mwyn



creu siap fyddai'n edrych fel ysgrifen. Os ydach chi'n pendroni ble mae gweddill y frawddeg, wel mi oedd 'JUBI' i'w weld ar ochr arall y foel mae'n debyg!

- Yng Nghaernarfon yn 1887, aeth yn ddadl rhwng gwario ar ysbyty lleol neu 'Institute' er mwyn cofnodi'r jiwbilî. Yr Institute aeth â hi, ac fe agorwyd yr adeilad sy'n parhau'n weithredol hyd heddiw yn Stryd Bangor.
- Banc dillad gan Antur Waunfawr wedi ei osod y tu allan i Ysgol Brynrefail. Roedd bron i dunnell o ddillad wedi eu rhoi mewn banciau o'r fath yn ysgolion uwchradd Arfon fis Medi 2012!
- Cyfarfod cyntaf Pwyllgor Ysgol Werdd Ysgol Brynrefail wedi ei gynnal. Nod y pwyllgor oedd sefydlu polisiau a newid arferion disgyblion ac athrawon er mwyn helpu'r amgylchedd.
- Band Ieuenctid Deiniolen yn bachu sawl gwobr ym Mhencampwriaeth Bandiau Pres Gogledd Cymru.



Jiwbili'r Frenhines.





ESTD 1973
WAVELLS
AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI
DELI A CHIGYDD O FRI
Bryn ac Angela Williams
LONDON HOUSE LLANRUG
yr ŵyn lleol mwyaf blasus
selsig cartre
cigoedd parod i'w bwyta
archebion ar gyfer y rhewgist
(01286) 673574

ECO'r Wyddfa
**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com

# Crwydro gerddi

Cafwyd hanes crwydro Gerddi Bodnant yn ystod yr haf yn rhifyn Hydref o'r *Eco*. Ond y tro hwn dyma hanes crwydro Gerddi Bodnant ar ddiwrnod olaf mis Hydref. Welais i ddim ysbrydion na bwci bos ond mi gefais wledd o liwiau hydrefol bendigedig, a hoffwn eu rhannu nhw efo chi.

Mewn arolwg o dros 2 filiwn o luniau Instagram nôl ym Mehefin 2021, rhoddwyd Gerddi Bodnant yn y 10fed safle drwy'r byd, gyda 18,225 o luniau o'r Gerddi wedi eu rhoi ar Instagram. Yr ardd yn y safle cyntaf oedd *Gardens by the Bay* yn *Singapore* gyda 1,067,717 o luniau tra'r oedd yr enwog Gerddi Kew yn Llundain yn yr 8fed safle efo 38, 448 o luniau ar Instagram. Da ydy Cymru fach!

Roedd hi ymhell ar ôl cinio cyn i'r gŵr a finnau gychwyn am Fodnant. Erbyn hynny roedd y gwynt wedi gostegu, am y tro cyntaf ers dyddiau, llygedyn o haul, dim glaw a doedd y gerddi ddim yn cau tan 5 o'r gloch. Teithio'r ffordd hardd ar hyd yr A5 (gan osgoi prysurdeb yr A55) a dotio at liwiau hardd y coed a'r rhedyn o boptu'r ffordd yn Nyffryn Ogwen. Gwledd o liw cyn cyrraedd Bodnant.


Digon o le i barcio! Y rhan fwyaf o ymwelwyr wedi hen fynd, er bod digon o bobl fel ninnau o gwmpas, yn cael rhyw orig fach bleserus o grwydro a mwynhau harddwch y gerddi. Yr iaith fain yn ein croesawu yn y dderbynfa, gyda chyngor i fynd ar unwaith at y Goedlan *Acer* os oeddem am weld lliwiau hardd yr hydref, gyda'r rhybudd bod gwyntoedd cryfion yr wythnos ddiwethaf wedi dinoethi llawer ohonynt.

Roedd y sblash yma o liw wrth arwydd llechen syml yn arwydd da o'r hyn oedd yn yr arfaeth.







Wrth droedio'r llwybrau roedd coed *acer* melyn, porffor a choch i'w gweld wrth ochrau'r llwybrau ymhell cyn i ni gyrraedd y coed mawr yn y parc.

Roedd yr ardd ffurfiol, sydd ar ffurf cylch o gwmpas y ffownten, yn edrych yn hollol wahanol i'r hyn welson ni yn yr haf. Roedd lliw piws tywyll y *sedum* yn cael ei wrthbwyso gan y gweiriau, oedd fel mŵg gwyn yn y cefndir. Roedd yr un blodyn *Echinacea purpurea 'Rubinstern'* dal yn ei flodau yn hynod effeithiol ac yn rhoi syniad o'r hyfrydwch a fu yn yr haf. Os cawn ni rew yn ystod y gaeaf bydd barrug hyd y coesau duon yma'n creu golygfa foreol gwerth chweil.

Gosodwyd dail *acer* mawr,










smalio, i arwain y ffordd at weld y coed *acer* go-iawn ac roedd y bwrdd du dwyieithog yn rhoi esboniad syml o pam fod y dail yn newid eu lliwiau yn yr hydref.

Lliwiau bendigedig! Melyn, oren, brown, porffor, melyn coch ac roedd yr acer fach goch yn hyfryd yng nghanol ei chyfoedion mwy. Roedd yr *Acer rubrum 'October Glory'* yn lliw *salmon* llachar yn ei gogoniant! Cofiwch bod angen edrych o dan eich traed yn ogystal ag at i fyny, gan fod y dail sydd wedi disgyn i'r llawr yr un mor











drawiadol â'r rhai sydd ar frigau'r coed.

Troedio'n ôl ar hyd yr hen lwybrau a sylwi ar liwiau'r hydref yn nüwch y pwll hirsgwar yn y Felin Binnau, oedd yn fy atgoffa o













un o luniau Escher.

Doedd dim angen coelcerth gan fod y waliau hyd yn oed ar dân o dan y dail lliwgar yma!

Dal i grwydro, ond yn ymwybodol bod rhaid gadael cyn 5 o'r gloch. Heibio'r tŷ a dotio go iawn at y blodau hyfryd N*erine bowdenii 'Mark Fenwick'***.** Dwi wedi f'ysbrydoli go-iawn i drio eu tyfu nhw acw, ond yn ymwybodol nad ydynt yn hoffi tywydd oer a gwlyb. Fodd bynnag, o weld lluniau bendigedig gan un o'r grŵp Garddio a Mwy (gweplyfr) a holi, mae'r un sy'n eu tyfu'n llwyddiannus yn grediniol y gallwn i eu tyfu yma. Dwi am fentro felly i blannu bylbiau ym mis Mai mewn potiau, fel y gallaf fynd â nhw i mewn os yw'r gaeaf yn arw. Amser a ddengys, ond un o'r rhesymau pam dwi bob amser yn mwynhau crwydro gerddi pobl eraill ydy cael f'ysbrydoli i fentro tyfu rhywbeth newydd a gwahanol!

A dyna'r crwydro ar ben, gan orffen fel y dechreuon ni, gyda lliw bendigedig

Gerddi hyfryd; ac mae'n wir bleser i ymweld â'r gerddi arbennig hyn bob adeg o'r flwyddyn. Mawr obeithio y cawn ddychwelyd yng ngwanwyn 2023, os byw ac iach.

**Crwydro eich gerddi chi**

Tybed oes gan rai ohonoch chi'r darllenwyr luniau o'ch gerddi chi neu o erddi y buoch chi'n ymweld â nhw? Tybed fyddech chi'n hoffi eu rhannu efo ni yma yn yr *Eco* i bawb arall gael eu mwynhau? Anfonwch unrhyw lun a disgrifiad o ble ydach chi a beth sydd i'w weld yn y llun at www.ecorwyddfa.co.uk



Eich papur chi ydy'r *Eco* a byddai'n hyfryd cael mewnbwn ganddoch chi.

***Rhosyn Mynydd***

# Amser i ddychmygu dyfodol gwell




Ella i rai ohonoch chi gofio cael llythyr trwy'r post dechrau'r flwyddyn yn gofyn am bobl i wirfoddoli i fod yn rhan o Gynulliad Hinsawdd GwyrddNi yn Nyffryn Peris. Ers symud i ardal Arfon, dwi wedi bod wrth fy modd efo'r bobl a'r tirwedd, ac felly nes i wneud cais i gael bod yn rhan o'r peth newydd, difyr yma… er nad o'n i'n siŵr iawn beth oedd o! Dwi wedi profi gwerth natur ar gyfer fy lles ac yn meddwl bod hi'n ddifyr sut mae hynny a diwylliant yn cyd-blethu, felly ro'n i'n gobeithio fasa fo'n gyfle i gael archwilio ychydig ar hynny.

Roedd y cynulliad cyntaf yn gofyn i ni gasglu gwybodaeth am beth rydym ni'n ei wybod am yr ardal yn barod. Roedd un sesiwn ddifyr iawn, yn gofyn i ni fynd o gwmpas stondinau gwahanol yn nodi'r pethau da ni'n eu gweld neu'n gwybod oedd yn bodoli yn yr ardal. Yn ystod y cynulliad yma, fe siaradodd Ceri Cunnington am waith Menter Gymdeithasol Cwmni Bro Ffestiniog, Nia Jones am beth maen nhw'n ei wneud yn Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru a Duncan Brown am Gymuned Llên Natur a'r newidiadau penodol mae o wedi eu gweld yn yr ardal dros y blynyddoedd diwethaf.

Canolbwynt yr ail gynulliad a gynhaliwyd ddiwedd Medi oedd meddwl am bethau fasan ni'n hoffi eu gweld yn yr ardal fydd yn helpu i frwydro yn erbyn newid hinsawdd. Roedd y cyfarfod cyntaf yn gyfle i daflu lot o syniadau ar bapur ac i freuddwydio gymaint ag oeddem ni eisiau. Yn ystod y cynulliad hwn fe glywsom gan bobl oedd wedi bod yn rhan o brosiectau tebyg, prosiect twristiaid yn Bude (Cernyw) a menter tai cymdeithasol yn ardal Machynlleth. Roedd cynrychiolydd o Climate.Cymru efo ni hefyd yn sôn am y cymorth sydd ar gael i fentrau fel hyn.

Erbyn diwedd yr ail gynulliad roeddwn i'n llawn cyffro, ac yn gobeithio bod cyfle go iawn i ni wneud gwahaniaeth yn yr ardal. Ma'i mor braf cael y cyfle a'r amser i feddwl yn ddwys am y sefyllfa rydym ni ynddi, a gallu cynllunio ar sut i fynd ati i newid pethau er gwell. Os ydach chi ffansi gweld be fydd yn digwydd yn y ddau gynulliad olaf allwch chi fynd i wefan www.gwyrddni.cymru a tra dach chi yna, beth am arwyddo'r addewid i ddarllen Cynllun Gweithredu Dyffryn Peris pan fydd o allan?

**Gwenno Pritchard**

Aelod o Gynulliad Cymunedol ar yr Hinsawdd Dyffryn Peris





# Cyngor Cymuned Llanberis

## Cofnodion Cyfarfod mis Hydref 2022

**1 Croeso**
Cofnodion cyfarfod misol rheolaidd y Cygnor nos Fercher y 12fed o Hydref 2022 am 7yh yn Y Ganolfan, Llanberis. Estynnwyd croeso i'r aelodau gan y Cadeirydd.

**2 Presennol ac Ymddiheuriadau**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym, Emlyn Baylis, Iwan Harding, Heather L Jones, Kevin Morris Jones, Cyng. Kim Jones, Nia Jones, Helen Sharp, Trystan Thomas.
***Ward Peris:*** Iola Owen, Llinos Haf Pritchard (Cadeirydd).
***Ymddiheuriadau:*** Gwilym Evans, Louise Price,
Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

**3 Datgan Buddiant:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**4 Cadarnhau Cofnodion**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 14eg o Fedi 2022 fel rhai cywir ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd. Cynnig ac eilio: HLJ / IH.

**5 Materion yn codi o'r Cofnodion**.
***1. Trafnidiaeth a diogelwch plant Ysgol Dolbadarn:***
Trafodwyd y mater mewn cyfarfod diweddar o'r Llywodraethwyr yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn bwriadu anfon athro i lawr efo'r plant at y ffordd ac mae sôn hefyd am ofyn am gymorth yr heddwas lleol er mwyn ceisio cael gwell trefn wrth i'r plant gwrdd â moduron yr oedolion sy'n eu casglu. Yn amlwg mae'r ysgol yn cymryd y mater o ddifri. Roedd sôn fod yna fwriad hwyrach i gael rhai o'r plant i greu fideo diogelwch er mwyn ceisio dylanwadu ar y plant eraill rhieni / gofalwyr.
***2. Clwb Ieuenctid:***
Cafwyd dechrau llwyddiannus ac mae'n edrych yn addawol ar gyfer y tymor gyda rhwng 25 a 30 o aelodau yn ôl KJ. Roedd rhai o'r tu allan i'r pentref wedi ymuno hefyd a'r bwriad oedd cynnal cyfarfod bob nos Iau.
***3. Cae'r Ddôl:***
Bydd cyfarfod cyn diwedd y mis i ystyried trefniadau'r haf ar gyfer y prif ddigwyddiadau a gynhaliwyd yma o dan y drefn newydd.
***4. Cae Chwarae Ger y Llyn:***
Siom oedd deall na fydd y cwmni yn medru gosod y siglen a'r offer newydd ar gyfer plant bach tan o leiaf canol Tachwedd. Addawyd y siglen yn wreiddiol erbyn dechrau Medi.
***5. Blaen Nant, Nantperis:***
Mae'r sefyllfa ynglŷn â'r 'cais cynllunio' ar gyfer yr eiddo yn dal yn aneglur. Yn ôl y datganiad diweddaraf oddi wrth un o swyddogion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) roedd trafodaethau cyn-cais wedi bod rhwng y perchennog a'r Awdurdod ac yn ôl yr e-bost "bod dim angen caniatâd Cynllunio ar gyfer yr adeilad dan gwestiwn oni bai ei bod wedi cael ei osod o fewn 'curtilage' y tŷ cyfagos ac yn disgyn o fewn paramedrau datblygiadau a ganiateir."
Ymhellach dywedwyd y bydd ymweliad gan y swyddog yr wythnos nesaf "i weld sefydliad yr adeilad ac i weld os mae beth sydd wedi cael ei adeiladu yn cyd-fynd efo beth gaeth ei gyflwyno i'r Awdurdod yn ôl yn 2018." Mynegwyd cryn siom gan yr aelodau ac anniddigrwydd oherwydd bod y cysylltiad cyntaf ac APCE ynglŷn â hyn wedi bod ym mis Mawrth eleni. Gofynnwyd i'r Clerc holi pam yr oedi a pham nad oes ymweliad wedi bod cyn hyn.
***6. Llainwen:***
Adroddwyd i'r Clerc a KJ gyfarfod un o swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod gosod llinellau melyn yn Llainwen Ucha'. Cafwyd cytundeb ar leoliadau'r llinellau, ac mae disgwyl y bydd y drefn o gyhoeddi map ac ymgynghori yn dechrau'r wythnos nesaf.
***7. Palmant Stryd Fawr:***
Er i un o swyddogion CG gydnabod fod angen trwsio'r tyllau yn y palmant chafwyd dim dyddiad ar gyfer gwneud hynny. Mae'n ymddangos ei fod ar restr o waith i'w wneud, ond pryd, does wybod.
***8. Meinciau Maes Derlwyn:***
Wedi eu symud oddi yno.
***9. Glyn Peris, Pen y Gilfach, Llanberis:***
Yn dilyn penderfyniad y Cyngor i holi rhai cwestiynau ynglŷn â'r cais fis yn ôl, ond i beidio ei wrthwynebu, trefnodd KJ gyfarfod Zoom efo rhai o swyddogion y cwmni oedd am agor cartref plant yno. Cynrychiolwyd y Cyngor gan KJ, EB, KMJ a'r Clerc. Atebwyd y rhan fwyaf o'r cwestiynau ynglŷn â'r nifer plant a chyfradd staffio a phwyswyd eto ar i'r cwmni gysylltu â thrigolion lleol. Mynegodd KMJ ei fod yn dal i wrthwynebu'r cynllun ai fod am i hynny gael ei gofnodi.
***10. Llwybr Coed Nantucha:***
Er bod y llwybr wedi ei gau a rhybuddion arno i bobl beidio ei ddefnyddio oherwydd diogelwch, roedd llawer yn eu hanwybyddu. Cysylltodd y Clerc a swyddog llwybrau CG i ofyn pryd yr oedd y Cyngor yn bwriadu trwsio'r llwybr, ond hyd yma chafwyd dim dyddiad.
***11. Defaid:***
Cafwyd ar ddeall fod defaid yn dod i lawr y ffordd heibio Maes Derlwyn os oedd y giât heb ei chau. Holwyd a oedd modd edrych i weld a ellir gwneud yn siŵr fod y giât yn cau ohoni ei hun efo pwysau a chlicied.

**6 Materion eraill**
***1. Cynllunio:***
Yn dilyn y drafodaeth ar fater Cofnod 5.5 uchod soniwyd am gael aelodau i fynychu cwrs ar gynllunio. Gofynnwyd am wirfoddolwyr ac fe gynigiodd HLJ, KJ a RhaG y byddent yn hoffi mynychu cwrs ar lein gan Gymorth Cynllunio Cymru. Addawodd y Clerc holi i ddarganfod dyddiad y cwrs nesaf.
***2. Ynys yn y Ffordd ger Gorsaf yr Wyddfa:***
Ar ôl i gwestiynau gael eu codi mewn perthynas â chroesi'r ffordd o'r naill ochr i'r llall ger yr Orsaf roedd KJ a'r Clerc wedi bod ar y safle gydag un o swyddogion CG. Symudwyd yr ynys oedd ar ganol y ffordd adeg ymweliad y ras feics mawr Tour of Britain rai blynyddoedd yn ôl, ond er yr addewidion i'w hail osod bryd hynny roddwyd mohoni'n hôl yn ei lle. Ym marn y Cyngor byddai ail osod yr ynys yn arafu'r drafnidiaeth ac yn gymorth i bobl groesi yn y llecyn poblogaidd yma. Mae'r Clerc yn disgwyl ymateb CG.
***3. Hen offerynnau Band Llanberis:***
Daeth cais eto am symud y cyrn o ysgol Dolbadarn gan nad oeddynt yn addas bellach i'r disgyblion. Addawodd y Clerc drefnu i gael rhywun cymwys i edrych ar eu cyflwr cyn penderfynu beth i wneud â nhw.
***4. Goleuadau a Choed Nadolig:***
Roedd y panel wedi cyfarfod i drafod goleuo'r pentref ac wedi cael cymorth parod y trydanwr Jason Jôs. Penderfynwyd ar y goleuadau i fynd ar y polion ac os byddai arian yn weddill i gysylltu rhagor o bolion er mwyn eu haddurno, gan son am 4 ychwanegol. Byddai'r gost yn £280 +TAW y polyn yn ôl CG.
Adroddodd y Clerc iddo archebu dwy goeden Nadolig, un ar gyfer y Nant a'r llall i Lanberis. Disgwylir y coed i gyrraedd dydd Gwener y 25ain o Dachwedd a bydd angen gwirfoddolwyr i'w gosod y diwrnod (Sadwrn) canlynol yn y ddau bentref a'u goleuo. Cytunwyd i logi 'casglwr ceirios' i hwyluso'r gwaith ac i osod y goleuadau newydd ar y lampau goleuo stryd.
***5. Clerc:***
Cyhoeddodd y Clerc ei fod am ymddeol gan roi 6 mis o rybudd, a gorffen ar ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol yn niwedd Mawrth. Yn y cyfarfod nesaf bydd angen dewis panel bychan i drefnu i hysbysebu'r swydd ac i bennu cyfrifoldebau a chyflog ar gyfer y Clerc newydd. Cynnig ac eilio: RhaG / HS

**7 Gohebiaeth:**
***1. Un Llais Cymru ac SLCC: Canllawiau ar Baratoi Cynllun Hyfforddiant Cyngor gan gynnwys Model o Dempled Cynllunio:***
Mae'r ddogfen yma cyfarwyddo Cynghorau sut i fynd ati i baratoi cynllun hyfforddi ar gyfer aelodau a Chlerc, a hynny erbyn 5 Tachwedd. Y bwriad yw cael cynghorau cymuned a'u staff 'mor effeithiol ac effeithlon ag y bo modd.' Dywedir 'Dylai cynghorau ystyried yn rheolaidd a oes cyfleoedd i wella eu gweinyddiaeth a'u llywodraethiant er mwyn iddynt gyflawni eu cyfrifoldebau a gwasanaethu eu cymunedau yn well. Ar y 26ain o Fedi y derbyniodd y Clerc gopi electronig ar gyfer y Cyngor ac er iddo ei anfon i'r aelodau roedd amser wedi bod yn brin iddynt gael cyfle i'w ddarllen er mwyn gweithredu yn y cyfarfod hwn. Gresynwyd fod yr amser mor fyr ond penderfynwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf er mwyn ceisio cyfarfod y gofynion.
***2. CG - Cau Ffyrdd ar gyfer Marathon Eryri (ME):***
Cafwyd rhybudd fod bwriad i gau nifer o ffyrdd ar gyfer ME dydd Sadwrn 29 Hydref, 2022. Adroddwyd am y ffyrdd gaiff eu heffeithio gan gynnwys cau'r A4085 o Lanberis i Benygwryd o 10 hyd 11.30 yb. Bydd nifer o strydoedd yn Llanberis ar gau am ran helaethaf o'r dydd. Holodd y Clerc a oedd yr aelodau'n derbyn fod yn rhaid cau rhai mannau am gynifer o oriau, ond ni chafwyd gwrthwynebiad.
***3. Llywodraeth Cymru (LlC) - Holiadur am gapasiti digidol Cynghorau:***
Y bwriad oedd gweld beth ydi sefyllfa'r cynghorau, a oes heriau a rhwystrau yn wynebu'r cynghorau wrth ddarparu gwasanaethau digidol, hefyd chwilio am arferion da a pha gefnogaeth mae cynghorau ei angen er mwyn gwella eu gwasanaethau gan gynnwys adnoddau, capasiti a sgiliau. Roedd y Clerc wedi'i lenwi a'i anfon.

***4. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Ymgynghoriad Ardaloedd Cadwraeth Eryri:***
Nodyn yn dweud fod dogfen ddrafft wedi ei chyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar 'Ardaloedd Cadwraeth sy'n Addas ar gyfer yr Unfed ganrif ar hugain'. Cafwyd cyflwyniad gan aelod o staff yr Awdurdod y llynedd am y bwriad i edrych ar ardal o fewn pentref Nantperis ynghyd a rhyw 13 o ardaloedd eraill yn y Parc. Mae'r manylion ar lein: Ar ôl yr ymgynghoriad y bwriad ydi gwerthusiad a chynllun rheoli ar gyfer yr ardal; os am ymateb yna dyddiad cau'r ymgynghoriad ydi 5yh, 11 Tachwedd 2022.
***5. CG Ardal NI:***
Rhybudd fod y cyfarfod trafod i'w gynnal ar 6 Hydref yn Y Ganolfan. am 6.15yh.
***6. LlC - Ymgynghoriad Gweinyddu Etholiadau:***
Llythyr yn nodi fod LlC yn ymgynghori ar broses o foderneiddio proses gweinyddu etholiadau a diwygio etholiadol ehangach er mwyn 'lleihau diffyg democratiaeth'. Manylion yma: [https://llyw.cymru/papur-gwyn-ar-weinyddu-diwygio-etholiadol] Dyddiad cau - 10 Ionawr 2023 ac ymateb i [Elections.Consultation@gov.wales].

**8 Cynllunio:**
Dim ceisiadau i law.
**9 Materion Ariannol:**
**1) Yn y Banc ar yr 28ain o Fedi, 2022**
**Cyfrif Cyfredol**: £61,430.07 **Cyfrif Cadw**: £66.55
**2) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:**
**CYFANSWM – £3,922.47**

**3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/08/2022 a 28/09/2022:**
**CYFANSWM – £195.00**
Cynnig ac eilio'r oll o'r materion ariannol: TT / KMJ.

**10 Adroddiadau eraill:**
***1. Sul y Cofio:***
Addawodd IO sicrhau'r Dorch arferol ar ran y Cyngor ar gyfer Sul y Cofio ac fe'i gosodir gan LlHP y Cadeirydd. Holwyd tybed a oedd Beth Holding am drefnu'r orymdaith?

**11 CYFARFOD NESAF:**
Dyddiad y cyfarfod nesaf. Nos Fercher Tachwedd 9, 2022 am 7.00yh yn Y Ganolfan.

**Arwyddwyd a chafwyd yn gywir:**
Cadeirydd: Llinos Haf Pritchard
Clerc: Dei Tomos

Dyddiad: 9 Tachwedd, 2022

# Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

## Cofnodion Cyfarfod mis Hydref 2022

**Croeso ac Ymddiheuriad**
Rhoddwyd Croeso gan yr Is Gadeirydd, Jane Pierce a gair o weddi gan Idris Thomas.

**Cofnodion Cyfarfod y 6ed Fedi 2022**
Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

**Materion o'r Cofnodion**
**Cysgodfa'n Bws Brynrefail -** Bu i Richard Jones alw heibio yn dilyn y cyfarfod diwethaf. Mae'n ymddangos fod y gysgodfa'n yn cyrraedd gofynion cyngor Gwynedd, ond wrth gwrs nid oes cysgod o'r ffrynt fel oedd yn yr hen un. Mae Ynyr am weld y gosodwyr, i weld faint fydd y gost o ychwanegu hyn.

**Eisteddfod Genedlaethol** - Bu i ni dderbyn llythyr yn datgan mai £7500 yw targed y plwyf tuag at gronfa'r Eisteddfod. Mae'r drefn wedi newid eleni, yn hytrach na bod pentrefi yn codi arian yn unigol, mae wedi ei rannu i gymunedau. Oherwydd natur ein cymuned ni, mae hyn yn codi dipyn o benbleth. Yn dilyn trafodaeth, a gan nad os pwyllgor wedi ei sefydlu, penderfynwyd anfon at bwyllgor yr Eisteddfod yn gofyn iddynt roi datganiad yn y papurau bro i sylw pentrefi'r plwyf.

**Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd:**
**Ysgubor Cae Corniog -** Codi anecs un llawr pren ar gyfer defnydd atodol i'r prif annedd
**Corlan y Bont -** Addasu adeilad allanol presennol i wasanaethu fel llety anecs
**Ysgubor Cae Corniog -** Tystysgrif Datblygiad Cyfreithlon
**Ysbyty Chwarel -** Arwyddion Byrddau
**Tir tros y Waun -** Dymchwel a chodi adeilad amaethyddol
**Cadnant, Bethel -** Estyniad arfaethedig
**1 Maes y Ffynnon, Bethel -** Adeiladu Modurdy

**Llwybrau**
**Llwybr i Ffynnon Bethel -** Esboniodd y clerc nad yw'r llwybr yma ar restr torri llwybrau'r Cyngor yn bresennol. Cyn i ganiatâd ei gael i adeiladu'r tai cyfagos, nid oedd angen ei gynnal gan ei fod ar dir fferm. Fodd bynnag, mae'r gordyfiant arno yn mynd i fod yn dipyn o waith ac yn gost ychwanegol. Gan fod yna hanes i'r ffynnon, penderfynwyd ceisio clirio'r drain sydd ar y llwybr dros fisoedd y gaeaf.
**Llwybrau Rhiwlas** - Yn anffodus, mae'r gweithiwr oedd wedi cytuno, ac wedi cychwyn torri'r llwybrau wedi ei daro'n sâl, ac yn anffodus methu parhau. Gan ei bod yn hwyr bellach yn y flwyddyn, mae'r Cyngor am geisio dod o hyd i rywun eu torri yn drwyadl yr haf nesaf.
**Llwybr a giât mochyn Llys** - Derbyniwyd cais gan y tir feddiannwr gyda rheswm caniataol dros roi giât mochyn ar y tir. Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad gan y Cyngor cyn belled bod amod ei fod yn cael cadarnhad gan Gyngor Gwynedd eu bod hwy yn mabwysiadu'r giât a bod y tir feddiannwr yn gwneud y gwaith ar gost ei hun.
**Dau Lwybr naill ochr i Res Uchaf -** Wedi sawl ymholiad i'r llwybrau yma, mae'r Cyngor Cymuned bellach wedi penderfynu llenwi'r tyllau er lles diogelwch, yna bydd Cyngor Gwynedd yn eu mabwysiadu i'w cynnal. Byddwn yn chwilio am 3 amcan bris yn fuan i gwblhau'r gwaith.

**Ceisiadau Ariannol**
Derbyniwyd 21 o geisiadau am nawdd ariannol eleni
Penderfynwyd cyfrannu fel â ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Cyfeillion Rhiwlas** | 300.00 |
| **Seindorf Arian Deiniolen** | 300.00 |
| **Llais Ogwan** | 50.00 |
| **Clwb Bowlio Bethel** | 200.00 |
| **Clwb Snwcer Deiniolen** | 200.00 |
| **Clwb Snwcer Bethel** | 200.00 |
| **Clwb Crefft Rhiwlas** | 200.00 |
| **Cylch Meithrin Deiniolen** | 300.00 |
| **Eisteddfod Undebol Penisa'r-waun** | 300.00 |
| **Eisteddfod Bethel** | 300.00 |
| **Neuadd Bentref Rhiwlas** | 300.00 |
| **Neuadd Bentref Penisa'r-waun** | 300.00 |
| **Clwb Pêl Droed ieuenctid Bethel** | 200.00 |
| **Neuadd Goffa Bethel** | 300.00 |
| **Goleuadau Gŵyl Deiniolen** | 300.00 |






# Cyngor Cymuned Llanrug

## Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug, 27ain MEDI, 2022

**Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod Awst 2022:**
Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd.

**I Dderbyn Unrhyw Sylwadau yn Codi o'r Cofnodion:**
Adroddwyd fod y biniau wedi eu gosod yn y lleoliadau a gytunwyd gyda Cyngor Gwynedd ar wahân i un bin ger Y Bwlch. Nodwyd fod pobl yn taflu bagiau baw cwn i finiau yn perthyn i drigolion lleol.

Penderfynwyd: Cysylltu â Chyngor Gwynedd i holi os fyddai yn bosib rhoi bin baw cwn yn y lleoliad yma.

**Derbyn Adroddiad** gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, Aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.

**Derbyn Adroddiad** gan y Cyngorydd Beca Brown, Aelod dros Llanrug ar Gyngor Gwynedd.

**Derbyn Adroddiad gan Bwyllgor y Fynwent:**
Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod yn y fynwent ar yr 20ed o Fedi 2022. Ymysg y materion a drafodwyd oedd blaenoriaethau'r pwyllgor ar gyfer y flwyddyn gyfredol a nodwyd y canlynol

Adroddwyd fod pris wedi ei dderbyn am gynnal asesiad risg ond fod angen eglurhad ar beth yn union sydd yn cael ei asesu am y pris.

Nodwyd fod angen edrych ar faint o'r cofebion sydd wedi eu trin yn dilyn asesiad risg y llynedd.

Fod yr hysbysfwrdd wedi ei archebu.

Fod angen pwrcasu arwyddion i atgoffa pobl i gau giatiau yn y fynwent ar eu hôl (hyn mewn llaw).

Angen plac i nodi gofod yn y llecyn newydd (hyn mewn llaw).

Fod angen adolygu rheolau cyfredol y fynwent a byddai yn gyfle i wneud hyn yn ystod misoedd y gaeaf.

Y ffordd i'r fynwent - adroddwyd fod cyflwr y ffordd wedi ei ddwyn at sylw Cyngor Gwynedd ar fwy nac un achlysur ond nad oedd yn flaenoriaeth. Nodwyd fod y ffordd wedi dirywio ers hyn ac fod angen ei ail gyfeirio at Cyngor Gwynedd.

Cystadleuaeth Mynwent y Flwyddyn - adroddwyd ein bod wedi dod yn y tri brig uchaf yn y gystadleuaeth ar gyfer mynwentydd i gynghorau cymuned a thref ar draws y Deyrnas Unedig, ond ar hyn o bryd ddim yn ymwybodol a pa wobr. Mae'r canlyniadau i fod allan heddiw ond hyd yma dim wedi ei dderbyn.

Penderfyniad: Derbyn a diolch am yr adroddiad. Cysylltu â Chyngor Gwynedd eto am gyflwr y ffordd i'r fynwent.

**Ceisiadau Cynllunio**
a) Cais i godi sied at ddefnydd storio peiriannau. Fferm Glan Seiont, Llanrug.

Penderfynwyd: Dim gwrthwynebiad.

b) Ymestyn y tŷ presennol i'r storfa a'r gwagle gyfochrog ynghyd ag ymgymeryd â newidiadau allanol. The Vestry, Capel Mawr, Ffordd Crawia, Llanrug.

Penderfynwyd: Cefnogi'r cais.

c) Sied beiriannau agored gyda bondo blaen crog. Fferm Garth Isaf, Waunfawr.

Penderfynwyd: Cefnogi'r cais.

d) Dymchwel tŷ presennol ac adeiladu tŷ newydd a modurdy domesdig ar wahân, ynghyd â newidiadau i fynedfa gerbydol presennol. Lleifior, Llanrug.

Penderfynwyd: Cefnogi gyda ystyriaeth i'r ddau lythyr sydd wedi eu cyflwyno.

e) Adeiladu tŷ newydd a llecynnau parcio. Dolwen, Cwm Y Glo.

Penderfynwyd: Gwrthwynebu'r cais am y rhesymau canlynol-

* Fod y datblygiad arfaethedig allan o gymeriad.
* Fod gan y gymuned leol bryder o beth sydd yn mynd i ddod o'r adeilad.
* Ei fod yn orddatblygiad.
* Fod diffyg lle parcio.

f) Cais deiliaid tŷ ar gyfer porth newydd i'r blaen, ymestyn y modurdy presennol ymhellach ymlaen, disodli'r lolfa haul cefn presennol gyda estyniad unllawr ynghyd a ffenestr gromen newydd i'r to gan ddarparu ail lawr i gynnwys ystafell wely en-suite newydd. 39, Glanffynnon, Llanrug.

Penderfynwyd: Cefnogi'r cais ond amodau ar y ffenestr, pryder o weledigaeth o'r ffenestr i fewn i ystafell ty cyfagos, a chytuno â sylwadau Dŵr Cymru.

**Llenwi Seddi Gwag ar y Cyngor**
I benderfynu os am gyfethol darpar aelod sydd wedi datgan diddordeb o eistedd ar y cyngor ac os ei gyfethol, awdurdodi'r clerc i wneud y trefniadau perthnasol.

Argymhellir bod y cyngor yn cychwyn y broses ffurfiol o hysbysebu seddi gwag ar y cyngor.

Penderfynwyd: Nodwyd fod cais wedi dderbyn gan aelod o'r cyhoedd yn mynegi diddordeb i eistedd ar y cyngor. Roedd yr ymgeisydd wedi anfon pwt am ei hun ac fe'i gylchredwyd rhwng yr aelodau.

I gyfethol Emyr Jones i eistedd ar y cyngor.

Y clerc i wneud y trefniadau ar gyfer llenwi y dair sedd wag.






# Ar ben arall i'r lein

Ble mae'r amser yn mynd tybed? Blwyddyn arall wedi hedfan heibio a drws y Nadolig ar agor unwaith eto. Er yr holl fasnacheiddio sy'n amgylchynu'r ŵyl y dyddiau yma, mae'n dal i fod yn amser hudolus dros ben, ond i ni oll gofio beth yw ystyr yr ŵyl. Rhyw ychydig ddyddiau'n dilyn y diwrnod mawr, daw'n amser i wneud dymuniadau am be fydd pawb yn gobeithio ddaw i'w ffordd yn ystod y flwyddyn i ddod: genwair newydd efallai, os bydd yr hen Siôn Corn wedi anghofio gadael un yn yr hosan wrth gwrs.

Ond o'r holl ddymuniadau, y pwysicaf i ni fel 'sgotwrs yw'r gobaith o weld cynnydd sylweddol yn nifer yr eog a ddaw i'n hafonydd. Mae'r dymuniad i weld nifer y gwyniadau'n gwella wedi ei wireddu, gyda nifer dda wedi rhedeg Seiont a'r Gwyrfai; ond am ryw reswm, siomedig dros ben fu'r Llyfni – tipyn o grafu pen ar be sy'n mynd ymlaen yn y fan yma. Ond cofiwch, mae'n rhaid i ni ystyried beth sy'n mynd ymlaen yn y moroedd o'n cwmpas, ac mae gennyf ofn nad oes fawr neb oddi mewn i'n llywodraethau yn rhoi fawr o sylw i hyn: dim eisiau pechu gwahanol garfannau o'r byd busnes mwyaf tebyg. Dim ots am y pysgotwyr druan! Mae pysgota'n greulon, medda rhai o'n harweinwyr; mae eisiau ei wahardd, fel mae rhyw sibrydion o Gaerdydd yn tueddu i gadarnhau! Ydi pysgota â genwair yn greulon? Tydw i ddim yn clywed neb yn beirniadu'r dull o ddal gyda rhwydi enfawr i ddal yr holl bysgod sy'n cael eu dal led-led moroedd y byd. Pawb yn rhy hoff o'r sglodion a phenfras tybed?

Mewn gwirionedd rydym oll yn tueddu i anwybyddu beth sy'n mynd ymlaen o'n cwmpas, yn enwedig pan mae gwybodaeth yn bendant yn cael ei chadw o olwg y cyhoedd. Dyma enghraifft i chi o'r dyddiau diwethaf (7-8 Tachwedd). Cefais wahoddiad i wylio rhaglen ddogfennol ar Netflix: ia, pwyslais ar wahoddiad yn de! Teitl y rhaglen oedd *Seaspiracy.* Os cewch gyfle, da chi rhowch awr a hanner o'ch amser i'w gwylio: gallaf warantu y bydd yn agoriad llygaid rhyfeddol ar be sydd yn mynd ymlaen! A fydd rhywun am brynu tun o *Diwna Cynaliadwy* wedyn tybed?

Yr un amser, cefais wybodaeth am raglen oedd yn cael ei darlledu ar sianel 5Select am sefyllfa'r eog yn yr Alban. Tydw i ddim am fynd ymhellach ar hyn rwan, ond does dim angen dweud fod y ddwy raglen yn rhoi darlun perffaith o'r difrod sy'n cael ei wneud i'n hamgylchfyd drwy lygredd a'r difaterwch sy'n cael eu ganiatau er mwyn rhoi pryd o bysgod ar ein byrddau. Gobeithio yn wir y gwnewch fwynhau eich eog wedi ei fygu dros y Nadolig. Gwell o lawer cael brithyll neu ddau wedi dod i'r bluen o Lyn y Dywarchen, fel mae padelli Llanrug yn profi!

O fod yn reit boliticaidd, mae'n braf adrodd am y diddordeb sy'n cael ei ddangos gan rai o bobl ieuanc y fro yn y byd genweiriol. Ac oes, mae'n rhaid i ni fel cymdeithas ymateb i'r alwad: mi wneir ymdrech i gael dechrau ar ddosbarthiadau clymu plu yn fuan. Gobeithio bydd bosib dechrau hyn yn Y Ganolfan, Llanberis os bydd ystafell ar gael gan fod y lle yn eithriadol o brysur. Ydi, mae'r criw sy'n rhedeg y lle yn haeddu'r clod uchaf! Diolch yn fawr iddynt. Ac ymhellach ar hyn, mae nifer o glymwyr profiadol wedi addo rhoi o'u hamser i'r fenter. Mi fyddai'n cael f'esgusodi o'r ddyletswydd arddangos yma gan mai llaw chwith ydw i, heblaw wrth gwrs fod rhai sydd wedi eu bendithio â'r fraint fawr o fod yn groes eisiau rhyw arweiniad ar y grefft.

Calonogol dros ben yw'r diddordeb sy'n cael ei ddangos mewn pysgota'r torgoch, a hyn yn ymledu ymhell o'r hen fro 'ma. Rydym fel cymdeithas yn rhoi cymorth i elusennau fel Ymddiriedolaeth Brithyll Gwyllt a hefyd yr Ymddiriedolaeth Bysgota yn ei arwerthiant blynyddol. Un 'lot' fydd ar gael yn ei arwerthiant blynyddol yw sesiwn o 'sgota torgoch ar Padarn: mae hyn yn eithriadol o boblogaidd ac wedi eu gwerthu cyn gynted â bo'r hysbysiad allan.



**Pysgota torgoch – dull Ardal y Llynnoedd**

Yn ogystal, mae'r diddordeb yn ymledu hyd at Ardal y Llynnoedd: yn ystod tymor 2023 mae criw o Lyn Windermere am ymweld i drio pysgota yma ar ddull Ardal y Llynnoedd. Rwy'n edrych ymlaen yn fawr at gael mynd allan efo nhw.

Rwy'n cysidro fy hun yn eithriadol o ffodus dros y blynyddoedd fy mod wedi gallu teithio tipyn i gael golwg ar be sy'n mynd ymlaen yn y byd pysgodfaol drwy'r Deyrnas Unedig, Iwerddon, Canada ac Alaska, gyda'r bwriad wrth gwrs o gael tipyn o 'sgota, ond hefyd i geisio gwireddu yn y fro hon rai o ymarferion gorau'r llefydd hyn. I raddau, mae rhai pethau wedi bod yn eithriadol o lwyddiannus – sef ymuno pysgota a chynnig llety, adeiladu a chynnal deorfa, adeiladu man cyfarfod a glanfa gychod ar ein llynnoedd. Wrth gwrs, mae rhai pethau yn ein dal yn ôl, fel methiant yr awdurdodau i weld y budd a ddeuai i'r ardal o allu magu a gwneud cyflenwad o bysgod lleol i'r farchnad leol, yn ogystal â chymysgu hyn gydag ail wneud hen adeiladau sydd yn ein meddiant at ddefnydd pysgotwyr a'u teuluoedd. Mi fu arolwg ar wariant gan ymwelwyr, a wyddoch chi be, y rhai sydd gyda'r gwariant uchaf ydi pysgotwyr: bechod garw nad oes neb o'n cynrychiolwyr gyda'r un weledigaeth i roi cymorth i allu symud pethau ymlaen. Beth am ryw arddangosfa fechan yn ymwneud â'r torgoch yn Llanberis?

I ddiweddu ein blwyddyn fel Cymdeithas, cawn eleni am y tro cyntaf ers Rhagfyr 2019 ymgynnull yn ein Cyfarfod Blynyddol a gynhelir ar 8ed Rhagfyr yn yr Institiwt, Caernarfon. Erfyniaf ar bob aelod i wneud ymdrech i'w presenoli eu hunain.

Felly wrth gau, hoffwn ddymuno Nadolig hapus a dedwydd a Blwyddyn Newydd Dda i chwi oll, a diolch o galon am eich diddordeb ym materion y byd genweiriol.

**Huw Price Hughes**



# Garddio

## RHAGFYR

Dyma'r adeg o'r flwyddyn pan fo angen golau wrth godi o'r gwely ac wrth ddychwelyd iddo gyda'r hwyr. Mae'n oer, ac mae'r ardd bellach wedi mynd i'w gwely, ond gallwch dal wneud ambell i beth, rhwng cawodydd a phan nad yw'n chwythu'n ormodol.

**TU ALLAN**

Os ydach chi'n bwydo'r adar, cofiwch ddal ati i'w bwydo. Sicrhewch nad yw'r bwyd yn y bwydwyr wedi gwlychu neu ddechrau difetha, a diheintiwch y bwydwyr bob hyn a hyn. Mae sawl aflwydd a phla o gwmpas; felly golchwch y bwydwyr y tu allan, nid yn sinc y gegin. Mi fydda i'n rhoi dŵr cynnes a sebon golchi llestri a joch bach o ddiheintydd mewn pwced ac yn trochi popeth yn honno. Gadael popeth allan am sbel i sychu (o dan do'r cwt logs os yw'n bwrw) a'u sychu'n well efo papur cegin wedyn, cyn eu hail lenwi. Yn olaf, mi fydda'i hefyd yn sicrhau bod dŵr glân ar eu cyfer a dadmer hwnnw os yw'n rhewi. Oeddech chi'n gwybod bod adar bach angen bwyta rhwng traean a hanner o bwysau eu corff bob dydd er mwyn cael digon o egni i oroesi?



Cofiwch wasgaru haen o gompost neu ddeilbridd fel taenfa (*mulch*) rhwng eich planhigion lluosflwydd (*herbaceous perennials*) sydd wedi marw i lawr: bydd hyn yn amddiffyn y pridd noeth rhag y glaw ac yn llesol i strwythur y pridd. Gallwch ddefnyddio rhisgl coed hefyd fel taenfa, ond y broblem sydd gen i acw yw bod y gwynt fel arfer yn ei chwythu hyd yr ardd! Cofiwch os nad yw'r dail sy'n disgyn yn yr hydref yn gorchuddio'r planhigyn y gallwch eu gadael i greu taenfa naturiol.

Byddwch ofalus wrth ddyfrio planghion sy'n cael eu cadw i aeafu yn y tŷ gwydr. Cadwch nhw'n damp yn hytrach na'n sych neu'n soeglyd.

Daliwch ati - er gwaetha'r rhyferthwy - i dynnu blodau trilliwiau'r gaeaf (*winter pansies*) a syclamen. (Rhowch blwc i flodyn y syclamen, a daw i ffwrdd yn hawdd o'i waelod, ond mae'n haws defnyddio siswrn i dorri coes y trilliw, mor agos i'r gwaelod ag y gallwch chi.) Bydd hyn (fel yn yr haf) yn stopio'r planhigion rhag creu hadau ac yn cadw'ch sioe flodau'n hardd am gyfnod hirach.

Os nad ydach chi eisoes wedi symud eich planhigion tyner, ac unrhyw rai dach chi'n meddwl na fedran nhw oroesi yn nhywydd gerwin y fro, symudwch nhw rwan i ystafell haul '*consevatory*', ffrâm oer neu dŷ gwydr.

Os yw'r tywydd wedi bod yn wyllt wirion, cadwch lygaid ar unrhyw goed a llwyni a blanwyd yn ystod y flwyddyn, rhag ofn iddyn nhw fod wedi cael eu hysgytio o'u lle. Rhowch nhw'n ôl yn gadarn fel bo'r angen.

**TU MEWN**

**Anrhegion ac addurniadau**

Beth am fod yn greadigol ac arbed arian? Un o'r addurniadau hawsaf oeddwn i'n eu creu efo'r plant (sydd bellach efo'u plant eu hunain) oedd rhoi ychydig o lud ar hafnau moch coed, eu rhoi mewn bag efo dipyn o bowdr golchi (neu glitter neu siwgr eisin neu eira ffug!) a'u hysgwyd. Gadael iddyn nhw sychu cyn eu clymu ar y goeden Nadolig, neu eu defnyddio fel addurniadau o gwmpas y tŷ. Gallwch hefyd chwistrellu paent lliw aur neu arian arnynt i greu addurn syml a rhad wneith bara am flynyddoedd!



Os am fod yn amgylcheddol gyfeillgar beth am glymu moch coed a phinwydd i linyn (wneith bydru yn y bin compost) bob yn ail mewn patrwm rheolaidd, yn hytrach na phrynu tinsel? Wnawn nhw ddal ati am sawl blwyddyn ac os ydyn nhw wedi mynd heibio eu dyddiad gwerthu taflwch nhw i'r domen gompost neu defnyddiwch y moch coed fel *firelighters*. Os am dipyn o steil gallwch greu addurniadau hardd efo gwydrau a moch coed. Eto wedi eu barugo - hyfryd ar y bwrdd cinio neu yn dlws mewn ambell i gongl yn y tŷ gan gostio'r nesaf peth i ddim. Dwi'n amau weithiau bod yna waed Cardi yndda i …



Os oes ganddoch ffrind neu aelod o'r teulu sy'n hoffi garddio, beth am roi anrheg o docyn canolfan garddio neu bâr o fenig neu blanhigyn i'r tŷ i lonni eu calonnau? Brynais i'r rhain, mewn munud gwan, i mi fy hun fel anrheg Nadolig cynnar, oherwydd mi ydw i wedi laru ar hadau a phacedi ym mhobman. Dim ond cofio eu rhoi nhw yn y bocs fyddai angen ei wneud rŵan!




**Blodau'r Nadolig**
**Poinsettia**

Dydy'r Poinsettia, sydd bellach ar gael yn y siopau a'r canolfannau garddio efo dail coch, pinc, gwyn neu hufen, ddim y pethau hawsaf yn y byd i'w cadw'n fyw yn y tŷ. Dydyn nhw ddim angen bod yn rhy gynnes ond gall gormod o wres achosi iddynt wywo. Ar y llaw arall, os ydach chi'n gor-ddyfrio bydd hynny hefyd yn byrhau eu bywydau. Peidiwch â'u dyfrio, os nad yw wyneb y compost yn sych. Maent yn hoffi awyrgylch llaith, felly rhowch niwl o ddŵr iddyn nhw bob hyn a hyn neu gosodwch nhw ar gerrig mân mewn hambwrdd dyfrio bas. Os ydych yn prynu un eleni neu'n derbyn un fel anrheg - gwnewch yn siŵr bod eich planhigyn wedi ei lapio mewn papur neu mewn bag wrth ei gario i'r tŷ neu'r car rhag i'r gwynt gael gafael arno a'i ddifetha cyn i chi gael ei fwynhau dros yr ŵyl.

**Amaryllis**

Dyma fwlb sydd yn boblogaidd fel anrheg Nadolig. Newyddion da, mae'n fawr, lliwgar ac yn hawdd i'w dyfu. Mae'n dechrau tyfu pan fo'r compost yn gynnes ac yn llaith. Os ydych yn ofalus ohono, gall flodeuo am flynyddoedd.

***Hyacinth***

Erbyn hyn bydd pigau gwyrdd y dail (a'r blagur gobeithio) wedi torri drwy bridd y bowlen wnaethoch chi blannu'r *hyacinths* ynddi. Mae cyfarwyddiadau yn rhifyn mis Tachwedd ar sut i sicrhau bydd blodau erbyn y Nadolig. Unwaith fydd y rhai acw'n dod i'r tŷ byddaf yn gosod mwsog ar y pridd ac ambell i '*bauble*' lliwgar rhwng y bylbiau i guddio'r compost. Ond peidiwch â rhoi eich hun dan bwysau, ar ddiwedd y

dydd byddant yr un mor hardd a phersawrus ym mis Ionawr, felly does dim ots os na fyddan nhw yn eu blodau erbyn y Nadolig, cewch eu mwynhau ym mis Ionawr ar ôl rhialtwch y Nadolig.

**Coed Nadolig**

Os ydach chi'n cael coeden Nadolig go-iawn, h.y. un fyw, un ai wedi ei gwreiddio mewn pot neu un heb wreiddiau, mi ydach chi angen sicrhau nad yw'n cael ei gosod mewn lle rhy gynnes a chofio ei dyfrhau yn aml rhag iddi daflu'r pinnau neu nodwyddau hyd y llawr. Roeddwn i'n sylwi ar goed bach mewn potiau ar werth mewn archfarchnad ddiwedd Hydref - ond digon o waith byddai un wedi ei phrynu bryd hynny'n goroesi yn y tŷ tan y Nadolig na'r Flwyddyn Newydd. Fel arfer, mi fydda i a'r gŵr yn cytuno cael coeden erbyn dechrau Rhagfyr ac yn prynu'n lleol, dim mewn archfarchnad. Mae'r gwerthwr yn llifio'r pen i ni, i sicrhau gallu'r goeden i amsugno dŵr. Byddwn yn ei gosod mewn daliwr pwrpasol yn syth, a'i dyfrio cyn gcynted ag y byddwn wedi gorffen ei haddurno. Y *Nordmann Fir* yw'r math mwyaf poblogaidd yng ngwledydd Prydain gan nad yw'n gollwng ei dail a bod y nodwyddau'n feddal, sy'n ei gwneud yn boblogaidd gyda theuluoedd efo plant.



Mae'r *Fraser Fir* yn hynod boblogaidd yn yr UDA ac yn gynyddol boblogaidd yma hefyd. Mae ganddi siâp trwchus ond ffurf gulach na'r *Nordmann,* sy'n handi os nad oes gynnoch chi lawer o le, ac yn goron ar y cyfan mae ganddi arogl sitrws hyfryd.

Unwaith y bydd ein coeden ni yn ei lle, ymlaen â'r addurno! Gosod



celyn dros rai o'r fframiau lluniau, torch ar y drws ffrynt, symud y potiau bylbiau i mewn a chreu ambell i osodiad blodau ac mi fydd popeth yn edrych yn hyfryd erbyn y diwrnod mawr. Dwi'n trio fy ngorau i greu addurniadau naturiol y bydd modd eu hail gylchu eleni. Welwch chi ddim mo'r llwch tan y Flwyddyn Newydd!

Os mai coeden fyw, heb wreiddiau oedd eich dewis gallwch, os ydych wedi talu/ cofrestru ar gyfer y gwasanaeth gwastraff gardd (bin brown), roi eich coeden Nadolig allan wrth ymyl eich bin brown ar y diwrnod casglu gwastraff gardd arferol. Dylai'r goeden fod o faint rhesymol, h.y. yr un maint neu ychydig yn fwy na'r bin. Rhaid i mi gyfaddef byddai'n ei thorri'n ddigon bach (a deud y gwir bydd fy ngŵr yn ei llifio) i ffitio o fewn y bin brown). Gallwch hefyd fynd ag unrhyw goeden Nadolig i unrhyw ganolfan ailgylchu yng Ngwynedd (Cibyn neu Bangor o fewn cylch bro'r Eco) gan gofio wrth gwrs y byddwch angen trefnu amser a dyddiad i fynd a hi yno.

**Traed i fyny**

Gall mis Rhagfyr fod yn wlyb a mwyn, yn hytrach nag oer a rhewllyd. Gwnewch yn fawr o unrhyw ddyddiau sych i glirio fel y gallwch. Os yw'n rhyw wlyb, gwyntog a/neu oer i fynd i'r ardd, rhowch eich traed i fyny a mwynhewch fodio'r catalogau hadau. Os nad ydach chi'n cadw dyddiadur, gwnewch nodyn o beth fu'n llwyddiant neu'n fethiant eleni, fel nad ydach chi'n gwneud yr un camgymeriadau eto yn 2023.

Nadolig Llawen i chi i gyd!
*Rhosyn Mynydd*

# Gôl i gerddorion Bro'r Eco yng Nghwpan y Byd

Mae tîm pêl-droed Cymru wedi teithio i Qatar i gystadlu yng Nghwpan y Byd, ac mae'n teimlo fel petai'r wlad i gyd wedi troi'n un Wal Goch fawr o gefnogaeth gyffrous.

Tydi tîm Cymru ddim wedi cyrraedd y twrnament ers 1958 ac mae'r sgwad yma wedi'n swyno, gyda chwaraewyr fel Gareth Bale ac Aaron Ramsey yn arwyr i blant ledled y wlad. Gan fod y Gymdeithas Bêl-droed – yr FAW wedi dathlu hunaniaeth, iaith a diwylliant Cymru ers sawl blwyddyn a chodi hyder y wlad, mae 'na ymdeimlad gwladgarol a chadarnhaol iawn i'w hymgyrch.

**Yma o Hyd**

Ar ben y cyffro yma, mae 'Yma o Hyd' gan Dafydd Iwan wedi ei dewis i fod yn anthem tîm Cymru yn ystod eu hymgyrch Cwpan y Byd.

Pwy gredai fod cân ddeugain mlwydd oed, a'i gwreiddiau yn Waunfawr yn gân swyddogol i'n tîm cenedlaethol! Roedd 'Yma o Hyd' yn gân arbennig iawn erioed wrth gwrs; wedi ei chyfansoddi fel cân brotest yn nyddiau du Magi Thatcher, pan roedd dirwasgiad, diweithdra, cau y pyllau glo a methiant refferendwm 1979 yn pwyso'n drwm. Mae'r gân yn gyfarwydd i siaradwyr Cymraeg ers yr wythdegau, ond mae wedi dechrau ar siwrne newydd wrth i gefnogwyr tIm Cymru a chefnogwyr ymgyrch Yes Cymru ei mabwysiadu.

Mae'r recordiad newydd, sy'n cyfuno trac gwreiddiol Dafydd Iwan ac Ar Log gyda lleisiau 70,000 o gefnogwyr Cymru a'r tîm pêl-droed yn anthem go iawn. Ac mae'r fideo cerddoriaeth pwerus sy'n edrych ar hanes y frwydr dros iaith a hunaniaeth Cymru, law yn llaw gydag ymgyrch hir y tîm cenedlaethol i gyrraedd Cwpan y Byd yn codi ias.

Meddai Dafydd Iwan, "Mi wnes i sgwennu'r gân i drio dod a pobol at ei gilydd, cynnig gobaith a codi calonnau. Dyma ni, ddegawdau'n ddiweddarach, nes i rioed freuddwydio y byddai'r gân yn newid fy mywyd i ac yn mynd a fi ar siwrne ryfeddol efo tîm pêl-droed Cymru."

**Safwn yn y Bwlch – Cwpan y Byd 2022**

Mae cân arall wedi ei rhyddhau ym Mro'r Eco i ddathlu Cwpan y Byd hefyd, yn Llanberis y tro hwn! Cyhoeddodd Jono Davies a Glyn 'Pwd' Hughes fersiwn newydd o 'Safwn yn y Bwlch' gan Hogia'r Wyddfa i ddathlu a chefnogi'r tîm cenedlaethol.

Glyn gafodd y syniad yn wreiddiol, ac yntau yn nai i Elwyn, Hogia'r Wyddfa, yna fe aeth Jono ati addasu geiriau'r gân wreiddiol:

"Roedd y rhinweddau anthemig a'r geiriau pwerus yn bwynt ffocws clir ac i'w wneud yn fwy perthnasol i Gwpan y Byd, fe newidiais ychydig o linellau heb fynd dros ben llestri," meddai Jono. "Dychmygais ei bod yn cael ei chanu a'i siantio gan y cefnogwyr yn ystod Cwpan y Byd. Roedd yn brofiad hynod o dda a heriol ond boddhaus drwyddi draw. Rwy'n hapus bod Glyn wedi meddwl fy nghynnwys yn ei syniad."

Meddai Glyn, "Roedd hwn yn brofiad hollol newydd i mi, ond roedd popeth i'w weld yn disgyn i'w le wrth i amser fynd yn ei flaen. Rwy'n meddwl ei fod wedi troi allan yn well nag yr oeddem erioed wedi dychmygu, felly ni allwn ofyn am fwy mewn gwirionedd."

Mae tîm pêl-droed Cymru yn wynebu her go fawr yng Nghwpan y Byd ond gyda chaneuon o fro'r Eco a chadernid y Wal Goch yn eu cefnogi, maen nhw'n siŵr o gyrraedd y brig. Fel y dywedodd Dafydd Iwan, "Ennill Cwpan y Byd o bosib, ond ennill ein hunaniaeth yn sicr!"

**Gallwch wrando ar y caneuon yma**:
Yma o Hyd: https://www.youtube.com/watch?v=iLXtf1XFczk
Safwn yn y Bwlch – Cwpan y Byd 2022: jonodavies.bandcamp.com/releases



## 'Llên y Werin' a Chwm Dodyn

Pan gynhaliwyd yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaernarfon yn 1880, un testun yn yr adran llenyddiaeth oedd "Llên y Werin yn Sir Gaernarfon". Roedd tlws arian a £10 yn wobr. Brodor o Dreffynnon, ond yn byw yng Nghaernarfon ar y pryd, enillodd y wobr, ond roedd gŵr ifanc o Ddinorwig yn cystadlu hefyd, a hynny dan y ffugenw 'Hanesydd o'r Hen Oesau'. Ei enw oedd Evan Lloyd Jones, a oedd yn lodjwr ym Mron Fuches gyda William ac Elinor Morris. Fe'i ganed yn Hafod Garregog, Clwt y Bont, yn fab i Robert ac Elizabeth Jones, ac yr oedd yn gweithio yn Chwarel Dinorwig yn 14 oed. Mae'n amlwg mai ychydig o addysg elfennol a dderbyniodd, ond ceir canmoliaeth arbennig i'w ddawn lenyddol yn y feirniadaeth a dderbyniodd am ei draethawd: *"...dengys ar unwaith mai nid newyddian yn y llafurwaith llenyddol ydyw. Iaith ddiwâst, ddiwall, a gyflwyna ei feddwl clir yn syml a chryno".*

Cyhoeddwyd ei draethawd fesul pennod ym mhapur 'Y Drych' yn ystod ail hanner 1881. Derbyniwyd sylwadau hynod ffafriol, oherwydd yn Awst y flwyddyn honno cafwyd y datganiad hwn gan olygydd y papur: *"Mae canmoliaeth anghyffredin i ysgrifau Evan Lloyd Jones ar 'Llen y Werin yn Sir Gaernarfon'. Nid ydym wedi cyhoeddi hanner y traethawd eto."* Roedd ei waith wedi ei rannu'n benodau, yn cynnwys 'Chwedlau y Cewri', 'Trysorau Cudd', 'Enwau Lleoedd', 'Ofergoeledd', 'Drychiolaethau', 'Arwyddion y Tywydd' a 'Diarhebion Arfon'. Caiff hefyd ei ganmol am gofnodi *"amryw draddodiadau dieithr i'w gyd-gasglyddion."*

Mae amrywiaeth helaeth o'r gwahanol elfennau o lên gwerin a gaiff eu cynnwys yn ei draethawd yn eithaf adnabyddus, ond mae un chwedl, a honno o'r fro hon, sy'n eithaf dieithr, sef hanes Cwm Dodyn.

Cwm Dudodyn yw enw'r dyffryn yng nghesail yr Elidir, ac uwchben Llyn Peris. Mae'n ymddangos mai hwn yw'r cwm sy'n cael ei alw gan Evan Lloyd Jones yn Cwm Dodyn, ac mai cawr oedd y Dodyn gwreiddiol. Ond does dim cofnod ganddo am unrhyw hanes yn gysylltiedig â'r cawr hwn, ond yn hytrach hanesyn am ferch a arferai fyw yno. Ym mhen uchaf y cwm, dywed fod adfail o'r enw Y Fodwen, ac mai merch o'r enw Gwen oedd yn arfer byw yno. Mae'n egluro'r enw drwy ddweud mai yma roedd 'bod Gwen' – y lle roedd Gwen yn byw. Tybed a oedd adfail yng Nghwm Dudodyn yng nghyfnod yr awdur?

P'run bynnag am hynny, mae'n debyg fod Gwen yn ferch hynod o dlws, ac i offeiriad ddisgyn mewn cariad â hi. Y broblem fawr oedd y ffaith fod yr offeiriad eisoes yn briod! Ond symud i fyw at Gwen yng nghwr uchaf y cwm a wnaeth yr offeiriad, a gadael ei wraig, a symudodd i fyw i Ben Gorffwysfa. Efallai fod yr offeiriad yn parhau i weinyddu gwasanaethau, oherwydd teithiai i Gapel Curig yn wythnosol. Ond oherwydd fod ei wraig yn byw ym Mhen Gorffwysfa, byddai'n osgoi cerdded o Gwm Dudodyn i lawr i Nant Peris ac yna dringo'r Bwlch a throsodd am Ddyffryn Mymbyr. Byddai'n cadw'n ddigon pell o gartref ei wraig, ac yn dilyn y llwybr mynyddig ar hyd y grib o Fwlch y Brecan ym mhen uchaf y cwm, dros fynydd y Garn, gan ddringo'r Glyder, cyn disgyn yr ochr arall i lawr am Gapel Curig.

Nid yw Evan Lloyd Jones yn rhoi unrhyw eglurhad pam roedd hyn yn digwydd, ar wahân i'r ffaith fod yr offeiriad eisiau osgoi ei wraig. Ond mae'n egluro fod penillion ar gof a chadw yn disgrifio'r daith. Â'r hyn ddigwyddodd un tro wrth i niwl trwchus ddisgyn dros y Glyder ac i'r offeiriad golli ei ffordd oedd achos cyfansoddi'r penillion. Digwydd taro ar gwt bugail ar lethrau'r Glyder a wnaeth yr offeiriad druan, a chael cyfarwyddiadau gan y bugail ar sut i ddarganfod y llwybr oddi yno i Gapel Curig.

Yn y ddau bennill cyntaf, yr offeiriad sy'n cyfarch y bugail, a'r bugail yn ei ateb yn y pennill olaf.

Myfi yw'r offeiriadyn
Sy'n byw yng Nyffryn Dodyn
A fydd yn tramwy dros y graig
O achos gwraig ysgymun.

Y Cymro mwyn, caredig
Dywedwch imi'n ddiddig
A'i hon yw'r ffordd, y cyfaill cu
Sy'n cario i Gapel Curig?

Wel dyma'r ffordd yn union;
Gochelwch lwybrau ceimion
Chwi ewch i'r Capel yn y man
Dilynwch lan yr afon.

Byddai'n ddiddorol cael gwybod gan rai o ffermwyr neu fugeiliaid y Nant a oes, neu a fu, adfeilion ym mhen uchaf Cwm Dudodyn. Ac a oes unrhyw un o'r darllenwyr yn gyfarwydd â'r stori neu â'r penillion? Cysylltwch gyda'ch sylwadau. Tybed hefyd a fu Evan Lloyd Jones yn parhau i lenydda wedi cyhoeddi ei draethawd?

## O'r Pwlpud i'r Crogbren

Dyna deitl nofel gyntaf William John Griffith, Rhiwlas. Cafodd sylw yng ngholofn 'Chwilota' ym mis Hydref 2014. Roedd y teulu yn byw yn rhif 1 Bryn Tirion yn 1891 ond ddeng mlynedd yn ddiweddarach, roeddent yn Cefn Braich. Ac yna – diflannu. Erbyn hyn, gwn i'r teulu cyfan fudo i'r America ar fwrdd llong yr S. S. Campania, gan adael Lerpwl ar yr unfed ar hugain o Fedi 1907. Yn 1901 roedd William John yn chwarelwr, ond erbyn 1907 roedd yn disgrifio'i hun fel *'minister'*. Dyna hefyd oedd ei dad, ac mae'n debyg mai dyna pam nad yw'r tad yn ymddangos gyda'r teulu yn 1901; roedd oddi cartref yn pregethu o bosib. Roedd angen i rai oedd yn mudo roi enw a chyfeiriad eu perthynas agosaf i'r awdurdodau, a'r enw ar gyfer teulu William John oedd Morris Griffith, 'Bodorgan', Douglas Hill, Bethesda.

Methais, hyd yma, a chael eu hanes yn yr America, er chwilio papurau newydd Cymraeg y cyfandir hwnnw. Mae un cyfeiriad yn 1914 am *"yr hen frawd, John Griffith",* fel un a arferai bregethu, a dyna'r cyfan. Nid yw'n debygol fod y mab, William John, wedi ysgrifennu fawr ddim ymhellach.

Ond pwy a ŵyr. Efallai ymhen wyth mlynedd arall, y daw mwy o hanes y nofelydd a'r pregethwr yn America!

## Enw Afon

Un ymateb yn unig a ddaeth i'r cais am enw i'r afon sy'n tarddu yn agos i Gaeathro ac yn llifo i afon Gwyrfai yn Llanfaglan. Gyda diolch i Robat Williams, Waunfawr am ymateb mor sydyn. Cadarnhau mai Afon Sling oedd enw trigolion Llanfaglan ar yr afon a wnaeth, ond felly, drigolion Rhos Bach a Chaeathro, beth yw eich enw chi arni?

Cysylltwch gyda sylw ar unrhyw agwedd o hanes lleol bro'r Eco. Anfonwch at Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA, ffoniwch 01286 673515 neu e-bostiwch dafydd.wthomas@btinternet.com Y mis nesaf gobeithiaf roi hanes gweithiwr o Lanrug a enillodd Fedal y Brenin am wrhydri yn Ne Affrica.






## Taranu Ymlaen

Bu cryn sylw at osod meysydd pêl-droed gwyneb 3G fel rhan o bolisi C.P.D.Cymru i gynorthwyo clybiau ar sawl lefel i wella cyfleusterau chwarae a hyfforddi. Gobeithio y bydd canran o unrhyw elw a wneir o Gwpan y Byd yn galluogi'r Gymdeithas i barhau â'r polisi gwerthfawr yma.

Fe drowyd maes Ffordd Padarn yn faes 3G ddechrau'r mis. GWYNT, GLAW, GOLIAU. Yn wir, gellid ychwanegu GÊM GAMPUS GYSTADLEUOL. Yr achlysur oedd y gêm rhwng y Darans a Chaersws yn Nhlws CPD CYMRU. Roedd y tîm o'r canolbarth ddwy haen uwchben Llanberis yn y pyramid cenedlaethol. Tipyn o her felly, ond mae'r hen ddywediad 'tîm cwpan' yn dal rywsut ym mêr timau Llanberis. Efallai fod criw cyfredol Llanberis yn ffansio rhyw 'drip Cwmbran' fel yr hen ddyddiau. A chofier fod y tlws yma wedi dod i Eithin Duon ychydig dymhorau yn ôl. Sbardun yn wir.

Er y tywydd garw - a'i lysnafedd yn llifo i lawr o'r Nant - daeth y ffyddloniaid, a balch oeddent eu bod wedi tystio i chwip o gêm. Rhaid cyfeirio at y modd yr addasodd y ddau dîm i'r elfennau heriol. Yn fuan sylwodd y ddau gôl-geidwad mai dibwrpas oedd tanio'r bêl i lawr ganol y cae ar y gwynt i ddwylo'r gôl-geidwad arall, neu yn ddiniwed dros y ffin gwsg. Cicio synhwyrol neu daflu'r bêl allan. Roedd perfformiad y ddau dîm i ddannedd y gwynt i'w ganmol. Gweithio'r bêl ymlaen gyda phasio byr, pwrpasol. Symudiadau pob chwaraewr oddi ar y bêl i greu lle am y bas. Gwaith blinedig, ond ganol cae yn cefnogi'r ymosodwyr, a sawl arbediad safonol gan geidwaid y pyst o ergydion 20-30 llath.

Elfen bwysig arall oedd sylwi fod lled y maes yr un mor bwysig â'i hyd. Y ddau dîm yn chwarae gydag asgellwyr. Hen ffasiwn - sgersli bilif. Onid dyna wnaeth Gwil Bach a Gwyn Edwards am flynyddoedd? Mewn gwynt mae'n haws rheoli croesiadau 30 llath o'r asgell na chic obeithiol 60 llath a mwy ar adain y gwynt.

Caersws a mantais y gwynt yn yr hanner cyntaf ac fel y blaidd hwnnw yn bygwth sawl tro ond dim ond un gôl. Amddiffyn arwrol gan y tîm cartref. A fyddai un gôl yn ddigon?

Disgybledig oedd Llanberis gyda'r gwynt tu cefn iddynt, ond y gôl ddim yn dod. Rhygnu ymlaen ac o'r diwedd gyda'r bêl yn tasgu yng ngheg gôl Caersws Ifan Mansoor yn rhwydo. Ymateb Caersws yn arbennig. Dal i gredu yn y chwarae o'r cefn, a defnyddio'r esgyll. Sawl cyfle, y ddwy ochr. Yna o gic gornel Nidian yn penio i'r rhwyd. 2-1. Yn ôl daeth Caersws ond yr ergyd olaf yn methu. Yna cyfle euraidd i Lanberis. Cic o'r smotyn - ond arbediad gan y gôl-geidwad. Dal yn 2-1. O fewn deg munud, 2-2 a'r pwysau yn cynyddu. Amser ychwanegol, ciciau o'r smotyn? Cyfleoedd yng ngheg y ddwy gôl. Yna gyda 8 munud ar ôl, chwip o gôl - i Lanberis. Pasio cyflym, rhyddhau gofod ar yr asgell dde ac Ifan Mansoor yn taro chwip o foli i gornel uchaf y rhwyd. Gôl safonol, yn haeddu ennill gêm i'w chofio. (Beth fuasai ei daid wedi ei ddweud!) Ymlaen felly â'r Darans a gêm i ffwrdd ym Mochdre, a chyfle gobeithio am fuddugoliaeth. Ar y diwedd, gair o ganmoliaeth i'r dyfarnwr a ddyfarnodd gyda synnwyr cyffredin dan amgylchiadau anodd.

## Swatio ac Edmygu

Ni fu fawr o symud yn ddiweddar gyda'r glaw diderfyn bron yn fy nghlymu i'r tŷ. Fe gafodd y sgrin fach dipyn o sylw. Erbyn heddiw caiff sawl camp mewn sawl gwlad sylw. Yn ffodus, bu amseriad sawl darllediad tramor yn dderbyniol. Hefyd cymaint o Bencampwriaethau Byd ar yr un adeg.

Rygbi'r Gynghrair i ddechrau. Gwantan fu perfformiadau Cymru, rhai yn amaturiaid o hyd, yn chwaraewyr rhan amser. Yr apêl yw elfennau corfforol a chyflymder y gêm. Er cydnabod fod y sgrym yn elfen allweddol yn fersiwn yr Undeb, nid yw'r amser gosod gwreiddiol a'r ail osod mynych sy'n bwyta hyd at ddau funud o'r gêm yn dderbyniol bellach o gofio'r gost o docyn. Eiliadau gymer y sgrym yn fersiwn y Gynghrair. Onid rhyfeddol yw sgiliau ac ystwythder y fersiwn i chwaraewyr wedi eu cyfyngu i gadair olwyn.

Yna, pencampwriaeth Rygbi'r Undeb i Ferched. Dyma ddatblygiad rhyfeddol. Cymru fach bellach yn cystadlu â phac i herio timau o safon uwch. Gyda chefnogaeth URC a chytundebau proffesiynol yna gwella gwna'r safon, a denu mwy o ferched i'r gamp. Ond, bydd tipyn o waith i ddal i fyny â thimau sy'n broffesiynol eisoes fel Lloegr a Seland Newydd. Cofier hefyd y fframwaith cynghreiriol gref sy'n bodoli yn y gwledydd hynny ers sawl tymor.

Gemau rhagbrofol Cwpan Pêl-droed y Byd i Ferched. Dyma'r datblygiad mwyaf i ni fel cenedl - ie, timau Cymru byddent o hyn ymlaen. Dyma'r twf mwyaf o ran rhifau yn ymwneud â champ. Nifer o ferched ifanc yn mynnu fod pêl-droed yn cael ei gynnig ar gwricwlwm ysgol - nid pêl-droed/ rygbi i fechgyn a phêl-rwyd/ hoci i ferched. Boddi ar ymyl y lan wnaeth Cymru y tro yma ond fe ddown yn ôl yn gryfach gyda mwy o ddyfnder yn y garfan.

I mi'r prif atyniad oedd Pencampwriaeth T20 Criced y Byd draw yn Awstralia. Meysydd gwych a thorfeydd yn creu cryn awyrgylch. 90 000 yn gwylio'r hen elynion India a Phacistan ar yr MCG. India yn ennill gêm grŵp rhyfeddol rhwng y ddwy wlad oddi ar y belen olaf. Ond, Pacistan fyddai yn camu ymlaen i herio Lloegr yn y rownd derfynol. Yna partneriaeth rhyfeddol ddiguro o 169 rhwng Buttler a Hales yn chwalu gobeithion yr India yn y rownd gyn-derfynol. Y fath adloniant. Meddyliwch, am fowlwyr bellach yn anelu'r bel atoch ar gyflymdra o 150K yr awr. Dim ond ffracsiwn o eiliad sydd gan y batiwr i ymateb. Ond y batiwr yna yn taro'r bêl dros y ffin am bellter o ryw 100m, neu fwy weithiau. Cerddwch gan metr - 100 cam digon agos - a meddyliwch am ddawn y batiwr. Y bowlwyr cyflym wedyn yn addasu cyflymdra'r bowlio heb ymddangos eu bod yn newid eu dull o ddanfon y bêl. Y troellwyr a'u rheolaeth o dro a hyd. Y capten yn gosod cae i'r bowliwr ei ddilyn, a hynny dan gyfyngiadau. Safon y daliadau, a'r maesu yn gyffredinol. Pob rhediad yn cyfrif o fewn fframwaith yr 20 pelawd. Adloniant yn wir. Gyda rhai chwaraewyr yn canolbwyntio ar y dull yma o'r gêm yn unig bellach, ac ennill arian mawr ledled y byd yn y Big Bash a'r IPL, beth fydd atyniad y gêm draddodiadol? Y gemau 'hir' di-ganlyniad yn aml dros dri/ phedwar diwrnod rhyng-sirol, a'r cyfresi Prawf. Ydi'r gamp yn colli'r elfen draddodiadol ar allor y fersiynau byr sy'n denu'r torfeydd y masnachu, y cyfryngau a'r arian. Amser a ddengys.

Fel y dywedais eisioes, prif obaith y campau unigol ar y lefel uchaf yw denu'r ifanc a chryfhau gwreiddiau'r gamp. Yn ddi-os yma yn Arfon mae'r ieuenctid - bechgyn a merched - wedi eu denu at y bêl-droed a'r rygbi. Yr elfen wan yw'r criced. Gwn o brofiad mai talcen caled yw cystadlu am yr ieuenctid yn erbyn y ddwy brif gamp. Ac wedyn mae campau eraill fel nofio, gymnasteg, ac athletau yn denu sylw. Y ddwy brif gamp sy'n rheoli o bell ffordd yn yr ysgolion.

Oes, mae cryn waith yn rhai mannau i ddenu ieuenctid at chwaraeon o unrhyw fath. Gallwn ond gobeithio fod y cyfleoedd o'u blaenau o weithio'n galed, hyfforddi synhwyrol a phenderfyniad i gystadlu ar y lefel uchaf a rhoi gwefr i ni'r barnwyr profiadol ar y gadair esmwyth o flaen y sgrin.

Cystadlaethau dartiau. Tenis. O ia, y Bencampwriaeth draw yn Qatar!






w w w . e c o r w y d d f a . c o . u k
ECO'r Wyddfa

# Hogiau Robert Page

Gyda Chwpan y Byd yn mynd yn ei flaen ar hyn o bryd, beth am gael golwg ar hogiau Robert Page sydd yn cynrychioli Cymru yn Qatar. Cafodd y 26 yn y garfan eu henwi ddydd Mercher y 9fed o Dachwedd. Dim ots pa mor bell y byddent yn cyrraedd maent wedi cyflawni camp enfawr drwy gyrraedd Cwpan y Byd am y tro cyntaf mewn 64 blynedd.

Roedd y rhan fwyaf o'r chwaraewyr gafodd eu henwi yn y garfan yn ddisgwyliedig ac mae cymysgedd dda o'r hen bennau â'r to ifanc. Yn amlwg, nid oedd yn unrhyw syndod gweld enwau fel Gareth Bale, Aaron Ramsey a Ben Davies yn y garfan. Byddwn mewn dwylo da gyda Wayne Hennessey, Danny Ward ac Adam Davies wedi eu henwi fel y gôl-geidwaid. Un broblem y bydd gan Rob Page fydd dewis pwy fydd yn chwarae, unai Wayne Hennessey neu Danny Ward. Wayne Hennessey sydd wedi bod yn chwarae yn ddiweddar i Gymru ond mae Danny Ward wedi cael cyfnod llewyrchus iawn yn Leicester yn arwain at Gwpan y Byd. Roedd Joe Allen yn dipyn o gambl am ei fod yn gwella o anaf ar hyn o bryd ac felly nid yw wedi chwarae llawer o gêmau yn ddiweddar, ond serch hynny, doedd dim amheuaeth gan Rob Page o'i gynnwys yn y garfan. Mae'r un peth yn wir am Gareth Bale, nid yw wedi bod yn chwarae yn rheolaidd ond yn amlwg mae ei gael o yn y tîm yn hanfodol. Mae Ben Davies yn cael tymor da i Spurs ac yn elfen allweddol o'r amddiffyn. Dwi'n siŵr fod pawb yn cofio'r foment enfawr honno yn y gêm rhwng Cymru a Slofacia yn Ewro 2016 pan gadwodd y bêl allan o'r rhwyd! Un arall sydd yn allweddol yng nghanol cae yw Aaron Ramsey ac mae'n siŵr ei fod o yn un o'r enwau cyntaf ar restr Rob Page i gynrychioli Cymru yn Qatar. Dau chwaraewr sydd wedi bod yn aelodau ffyddlon o'r garfan yw Chris Gunter a Jonny Williams. Er mai nid nhw yw sêr mwyaf y



garfan maent wastad yn rhoi 100% ac fe allwn ddibynnu arnyn nhw bob amser. Mae chwaraewyr fel nhw yr un mor bwysig â rhywun fel Gareth Bale ac Aaron Ramsey. A meddyliwch pa mor ffantastig y byddai gweld Chris Gunter yn sgorio mewn gêm Cwpan y Byd!

Mae nifer o chwaraewyr ifanc erbyn hyn yn dod trwy'r garfan, rhai enwau yn fwy cyfarwydd nag eraill. Mae Connor Roberts a Joe Rodon yn gadarn yn yr amddiffyn ac wir wedi selio eu lle yng ngharfan Rob Page. Neco Williams sydd hefyd yn un sydd wedi disgleirio yn ddiweddar i Gymru ynghyd â Kieffer Moore 'hogyn Llanrug'. Bydd yntau gyda Brennan Johnson a Dan James yn creu problemau yn y llinell flaen. Mae Ethan Ampadu yn chwaraewr aeddfed dros ben ac yn chwarae fel rhywun sydd wedi bod yn chwarae am amser maith, mi fydd o'n arweinydd yn y dyfodol i ddod dwi'n siŵr. Mae Dylan Levitt, Matthew Smith a Joe Morrell bob amser yn gweithio yn galed yng nghanol y cae a Harry Wilson yn tynnu ar ôl Gareth Bale gyda chiciau rhydd arbennig. Ben Cabango a Chris Mepham sydd yn cwblhau yr amddiffyn. Un sydd wedi dod yn boblogaidd gyda'r cefnogwyr yn ddiweddar yw Sorba Thomas felly braf oedd cael ei weld o yn cael ei gynnwys yn y garfan. I gwblhau y tîm felly, mae dau o chwaraewyr ifanc Caerdydd sef Rubin Colwill a Mark Harris. Dwi'n siŵr y byddwn yn gweld llawer iawn ohonyn nhw yn y dyfodol. Rydym wir mewn cyfnod euraidd ar hyn o bryd.

Mae'n rhaid hefyd crybwyll y rhai a fethodd allan ar eu lle yng Nghwpan y Byd ac yn anffodus bu i ddau fethu allan oherwydd anafiadau, sef Tyler Roberts a Rhys Norrington-Davies. Mae Rhys Norrington-Davies wedi perfformio'n wych yn y gêmau diweddaraf ac mae'n ofnadwy gweld rhywun yn colli allan oherwydd anaf. Rhai enwau cyfarwydd eraill sydd wedi methu allan yw Rabbi Matondo, Tom Bradshaw, Wes Burns, Ryan Hedges a Nathan Broadhead (sydd wedi cael eu henwi yng ngharfan Cymru o'r blaen ond yn anffodus wedi methu hawlio eu lle yng Nghwpan y Byd).

Hefyd yn teithio i Qatar wrth gefn bydd y ddau ifanc, Jordan James ag Oli Cooper. Roedd nifer o gefnogwyr Cymru yn galw ar Rob Page i gynnwys Oli Cooper yn ei garfan. Un arall sydd hefyd yn teithio gyda'r garfan fydd David Brooks. Mae'n wych ei weld yn gwella ar ôl ei salwch gyda canser a gobeithio wir y bydd yntau yn ymddangos ar y cae mewn crys Cymru yn fuan iawn. Rwyf yn falch iawn ei fod yn cael y cyfle i gael ei gynnwys yn holl gynnwrf Cwpan y Byd.

A dyna ni, dyna garfan Cymru ar gyfer Cwpan y Byd. Gobeithio wir y byddent dal yn Qatar erbyn y byddwch chi'n darllen y golofn yma! Er y byddwn yn falch ohonyn nhw dim ots beth, mae un peth yn sicr, mai nid yno i wneud y rhifau i fyny mohonyn nhw. Mae Cymru yno i gystadlu. A pwy sydd i ddweud na allwn ni fod yn codi'r tlws ar y 18fed o Ragfyr?

**Mared Rhys Jones**



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk
Dathliadau ● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar
● PRIODASAU ●
Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk



Tyddyn Teg
Bwyd - Tir - Pobl
LLYSIAU LLEOL FFRES
Ymunwch â'n cynllun llysiau!
Dewch i'n siop!
- Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.

Cysylltwch â ni: **07599 813777**
info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: **www.tyddynteg.com**

ISSN 2516-7235
9 772516 723001 >